



Disgwyl ar Dduw Waiting upon God

Myfyrdodau a gweddiau ar gyfer Adfent 2017
Reflections and prayers for Advent 2017



Esgobaeth
Bangor
The Diocese
of Bangor



Esgobaeth
Bangor
The Diocese
of Bangor

Paratowyd y myfyrdodau, y gweddïau a'r addasiadau Beiblaidd gan Janet Fletcher, gyda chymorth golygyddol gan Mollie Barker ac aelodau eraill Tîm Deiniol. Paratowyd y fersiwn Gymraeg gan Dafydd Timothy. Cafodd y llyfryn ei gysodi gan Dan Thomas a chydweithwyr eraill o View Creative. Daw'r dyfyniadau beiblaidd Cymraeg o'r Bible Cymraeg Newydd Diwygiedig; daw'r dyfyniadau beiblaidd Saesneg o'r New Revised Standard Version of the Bible.

Hawlfraint © Bwrdd Cyllid Esgobaeth Bangor 2017

The reflections, prayers and biblical adaptations have been prepared by Janet Fletcher, with editorial assistance from Mollie Barker and other members of Tîm Deiniol. The Welsh-language version has been prepared by Dafydd Timothy. The booklet has been typeset by Dan Thomas and other colleagues from View Creative. Welsh-language biblical extracts are from Y Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig; English-language biblical extracts are from the New Revised Standard Version of the Bible.

Copyright © Bangor Diocesan Board of Finance 2017

Cynnwys

Contents

4

Cyflwyniad
Introduction

10

Dyddiau Cyntaf
Mis Rhagfyr
The First Days
of December

16

Wythnos Gyntaf
yr Adfent
The First Week
of Advent

40

Ail Wythnos
yr Adfent
The Second Week
of Advent

64

Trydedd Wythnos
yr Adfent
The Third Week
of Advent

88

Pedwaredd Wythnos
yr Adfent
The Fourth Sunday
of Advent

100

Dydd Nadolig
Christmas Day

106

Sul Cyntaf y Nadolig
The First Sunday
of Christmas

114

Gŵyl yr Ystwyll
The Feast of the
Epiphany

Cyflwyniad
Disgwyl ar Dduw

Introduction

Waiting upon God



Beth mae'n ei feddwl i fod yn 'disgwyl ar Dduw'? Mae'r Adfent, fel y gwyddon ni, yn gyfnod o ddisgwyl. Disgwyl ydyn ni am ddyfodiad Mab Duw, a anwyd o Fair. O fewn i'r disgwyl blynyddol hwn, rydyn ni hefyd yn disgwyl i'r Iesu ddod eto, yr ail ddyfodiad.

Gall disgwyl fod yn brofiad pleserus, llawn cyffro, neu'n un o ofn ac arswyd. Mae popeth yn dibynnu ar beth rydyn ni'n disgwyl. Gall olygu ymdeimlad o obaith, bod yn ddisgwylgar. Gan osod disgwyl, a disgwyl ar Dduw, o fewn cyd-destun ffydd, gall hefyd olygu gwasanaethu, gwranddo a gweddigarwch.

Mae sawl achlysur yn y Beibl lle cawn hyd i bobl yn 'disgwyl ar Dduw'. Roedd holl bobl Israel yn disgwyl dyfodiad Meseia Duw fel yr addawyd trwy eiriau'r proffwydi. Bu'r salmwr yn aml yn defnyddio 'disgwyl' yng nghyd-destun gofyn neu ddyheu am i Dduw eu clywed a'u harwain: gweler er enghraifft Salmau 33:20; 37:7; 69:3.

What does it mean to be 'waiting upon God'? Advent is, as we know, a time of waiting. We wait for the coming of God's Son, born of Mary. Within this annual waiting, we also wait for the coming again of Jesus, the second coming.

Waiting can be a pleasant, excitement-filled experience, or one of fear or dread. It all depends upon what we are waiting for. It can mean a sense of hope, anticipation, trust, or being watchful. Placing waiting, and waiting upon God, within the context of faith, it can also include serving, listening and prayerfulness.

There are many instances within the Bible where we find people 'waiting upon God'. The whole people of Israel were waiting for the coming of God's Messiah as promised through the words of the prophets. The psalmists often put waiting in the context of a seeking or yearning for God to hear them and guide them; see for example Psalms 33:20; 37:7; 69:3.

Yn yr un modd, mae'r trywydd o ddisgwyl ar Dduw hefyd yn bresennol yn y Testament Newydd, nid yn unig ar gyfer dyfodiad hir ddisgwyliedig Mab Duw, ond hefyd ailddyfodiad yr Iesu, disgwyl am ddydd pan fydd teyrnas Dduw'n dod.

Yn yr Efengylau a storïau'r Iesu, adroddir y disgwyl am ddyfodiad y deyrnas mewn damhegion, ynghyd ag adroddiadau am y rhai hynny a ddisgwyliodd ar Dduw megis Simeon ac Anna yn y Deml (Luc 2:22-38).

Gellid meddwl fod 'disgwyl ar Dduw' yn awgrymu ein bod ni un ai'n oddefol neu'n anweithredol. Er hynny, gall ein 'disgwyl ar Dduw' ddigwydd fel rhan o brysurdeb a gweithgarwch ein bywydau dyddiol.

Beth all 'disgwyl ar Dduw' fod yn gofyn ohonon ni? Bydd yr ateb i'r cwestiwn hwnnw'n dibynnu ar y person sy'n ei ateb! Oblegid bydd gan bob person gwahanol bersbectif, syniad a ffordd o ddisgwyl. Efallai y bydd hynny trwy weddi ddistaw; gall fod trwy ymwneud yn weithgar â bywyd yr Eglwys; mae'n bosib y daw trwy gyfarfod ag eraill i ddarllen, myfyrio a gweddïo trwy'r llyfryn Adfent hwn. Mae'n ddigon posib mai cyfuniad o'r rhain ydy hi, neu rywbeth gyfangwbl wahanol.

Sut bynnag fyddwn ni'n disgwyl ar Dduw, fodd bynnag, rhaid inni ddeall a gwybod bod Duw yn disgwyl arnon ni. Efallai bod hyn yn ddigon i godi pryder ar rai, i eraill yn her, neu i eraill eto yn gysur o wybod bod Duw yn wir gyda ni, Emaniwel.

Likewise the thread of waiting upon God is present in the New Testament, not only for the long-expected coming of the Son of God, but also for Jesus' second coming, a waiting for the day when God's kingdom will come.

In the Gospels and the stories of Jesus, the waiting for the coming of the kingdom is told in parables, along with accounts of those who waited upon God such as Simeon and Anna in the Temple (Luke 2:22-38).

To be 'waiting upon God' could imply that we are being either passive or inactive. Yet our 'waiting upon God' can take place within the busyness and activity of our day-to-day lives.

What may 'waiting upon God' ask of us? The answer to this question will depend upon the person answering it! For each person will have a different perspective, idea and way of waiting. It may be through quiet prayer; it may be through engaging actively in the life of the Church; it may be through gathering with others to read, reflect and pray through this Advent booklet. It may be a combination of these, or something totally different.

However we wait upon God, though, it is to understand and know that God is waiting upon us. For some this may be a daunting prospect, for others a challenge, or for others a comfort to know that God is indeed with us, Emmanuel.

Sut i Ddefnyddio'r Llyfryn Hwn

Ar bob Sul o'r Adfent, fe fydd y darlleniadau ar gyfer yr Ewcharist yn gosod y cyd-destun ar gyfer y myfyrdodau: edrych ar yr Hen Destament, yr Epistol a'r Efengyl, gyda'r Salm yn cael ei hymgorffori yn y weddi agoriadol. Bydd y meddyliau a'r myfyrdodau hefyd yn cysylltu â themâu Patriarchiaid (a Matriarchiaid) yr Adfent, ac yna'r Proffwydi ar Ail Sul yr Adfent, wedyn Ioan Fedyddiwr ar Drydydd Sul yr Adfent, gan ddiweddu gyda Mair ar Bedwerydd Sul yr Adfent.

Neilltuir lle hefyd i adran 'greadigol' pob wythnos. Os ydy hyn yn cael ei gynnwys mewn grŵp, mae'n bosib y bydd gofyn i'r person sy'n arwain, ddo â'r deunyddiau angenrheidiol gyda nhw – lle bo'n briodol.

Ceir hefyd myfyrdod dyddiol byr sy'n dechrau ar Ragfyr 1 ac yn gorffen ar Ddydd Nadolig. Fe geir myfyrdod hirach ar gyfer Sul Cyntaf y Nadolig ac ar gyfer Nos Ystwyll ar Ionawr 6. Fe gymerir y myfyrdodau hyn o'r Efengyl ar gyfer yr Ewcharist ar y diwrnod hwnnw.

Gellir defnyddio'r llyfryn gan unigolion eu hunain, neu o fewn lleoliad grŵp. Gellir rhannu deunydd y Suliau yn ystod yr wythnos, os yn ei ddefnyddio yn unigol, neu i ffurfio sail defnydd o fewn grŵp. Os am ei ddefnyddio wedi'r Sul, ychwanegwch at y myfyrdodau, yn unigol neu fel grŵp, unrhyw beth o bwys a nodwyd o'r bregeth a draddodwyd y diwrnod hwnnw.

Mae modd i Arweinwyr Addoliad hefyd ddefnyddio'r deunydd, gan ddarparu myfyrdod iddyn nhw'i gynnig.

How to Use This Booklet

Each Sunday of Advent the readings for the Eucharist will provide the setting for the reflections: looking at the Old Testament, the Epistle and the Gospel, with the Psalm being incorporated into the opening prayer. The thoughts and reflections will also relate to the Advent themes of the Patriarchs (and Matriarchs), followed by the Prophets on the Second Sunday of Advent, then John the Baptist on the Third Sunday of Advent, and finishing with Mary on the Fourth Sunday of Advent.

There is also a 'creative' slot each week. If this is included in a group, the person leading may need to bring the necessary materials, or ask those coming to bring what is needed with them – when appropriate.

There will also be a short daily reflection beginning on 1 December and ending with Christmas Day. There will be a longer reflection for the First Sunday of Christmas and for the Epiphany on 6 January. These reflections are taken from the Gospel for the Eucharist on that day.

The booklet can be used by individuals alone, or within a group setting. The Sunday material can be spread out during the week, if using it alone, or form the basis for use within a group. If it is being used after the Sunday, draw into the reflections, personally or as a group, anything important noted from the sermon given that day.

The material can also be used by Worship Leaders, providing them with a reflection to offer.

Y Goeden – y Goeden Nadolig!

Ym Myfyrdodau'r Grawys eleni, fe ddefnyddiwyd delwedd y goeden gynnon ni yn gymorth inni ymgysylltu'n weddigar gyda phopeth a fu gan y sesiynau i'w cynnig, ynghyd â'n myfyrdodau personol ninnau.

Mae delwedd y goeden yn parhau trwy gydol yr Adfent, ond tro yma fel Coeden Nadolig.

Tynnwch lun Coeden Nadolig syml, neu gwnewch ddefnydd o un o'r Coed Nadolig yn y llyfryn hwn. Pob diwrnod, ychwanegwch belen fach liwgar at y Goeden, gan sgwennu sylw neu weddi sy'n adlewyrchu rhywbeth pwysig i chi o fyfyrdodau'r diwrnod hwnnw. Bydd hwn yn bersonol i chi a neb arall. Daw'n galendr Adfent personol.

Ffordd arall, o bosib fel teulu, ydy tynnu llun Coeden Nadolig ar ddarn mawr o bapur, gyda phob aelod o'r teulu'n ychwanegu sylw, llun neu weddi ar belen fach liwgar (pob un gyda phapur o liw gwahanol ar gyfer y belen neu bensel o liw gwahanol). Yn ogystal, gellid hefyd ychwanegu enwau aelodau'r teulu neu ffrindiau, a'u cynnwys mewn gweddi wrth osod eu henwau ar y Goeden.

Dyma gyfle i fod mor greadigol ag yr hoffech fod!

The Tree – the Christmas Tree!


In our Lent Reflections this year, the image of a tree was used to help us engage prayerfully with all that the sessions offered, and our own personal reflections.

The image of the tree continues during Advent, but this time as a Christmas Tree.

Draw a simple Christmas Tree, or use one of the Christmas Trees printed in this booklet. Each day add a 'bauble' to the Tree and on it write a thought or prayer that reflects something important to you from the reflections of that day. This is personal to you, and for your eyes only. It becomes a personal Advent calendar.

Another way, and perhaps as a family, is to draw a Christmas Tree on a large piece of paper, and each member of the family can add a thought, drawing or prayer to a 'bauble' (each with a different colour of paper for the bauble or a different colour of pencil). Also, the names of family members or friends could be added too, and brought into prayer as their names are put onto the Tree.

This is a time to be as creative as you like!



Dydd Gwener 1 Rhagfyr

Gwersi'r Goeden Ffigys

Darllenwch drwy Luc 21:29-33

Mae tyfiant o fewn y greadigaeth, p'un ai i'w weld ar goed neu ar y ddaear, ac ar draws y tymhorau, yn dynodi newid. Wrth i flagur bach gwyrdd ymwithio trwy'r pridd tywyll fe wyddon ni fod gwanwyn wedi cyrraedd neu ar ddod. Mae Iesu'n dweud wrth ei ddisgyblion fod yr haf ar ei ffordd pan welir dail ar y goeden ffigys. Efallai nad ydy'r tymhorau, na'r tywydd na'r tyfiant o'r ddaear, mor amlwg ein dyddiau ni ac yn fwy annelwig na'r hyn a gofiwn ddegawd neu ddau yn ôl, ond maen nhw'n parhau i ddod â newid inni.

Heddiw, fodd bynnag, yn hytrach nag edrych ar y greadigaeth neu'r hyn sy'n digwydd yn ein gerddi, y newid rydyn ni'n disgwyl ar ei gyfer ydy'r daith honno fyddwn ni unwaith eto'n ei dilyn at y preseb. Dyma ddechrau'r disgwyl am eni Iesu wrth inni unwaith eto gamu i mewn i stori'r Nadolig cyntaf hwnnw.

Beth fedrwn ni'i ddysgu o'r goeden ffigys?

Amynedd efallai? O bosib bod pob peth yn digwydd 'yn ôl eu tymor' ac na allwn ni reoli tro'r tymhorau? Efallai mai ni ddylai agor ein llygaid a sylwi fwyfwy ar y byd o'n cwmpas?

Mae'r ddameg yn ein hatgoffa o'n hangen - a'n galwad - i aros a disgwyl, ac i beidio â rhuthro 'mlaen. Mae'r Adfent yn dymor sy'n aml yn teimlo, neu'n gallu teimlo, fel bod ar rôlar-côstyr gan fod cymaint, os nad gormod, i'w wneud ac i baratoi ar ei gyfer; yn ein bywydau'n gyffredinol yn ogystal â bywyd yr eglwys.

Mae'r ddameg yn galw arnon ni i aros ac oedi ac edrych. I edrych tuag allan ar bopeth sydd angen inni'i wneud: y rhestrau pethau-i'w-gwneud, y siopa, yr holl ymweld, yn ogystal â gwaith a phrysurdeb yr eglwys. Mae hi hefyd yn bwysig i edrych ar i mewn, i osod amser o'r neilltu i lonyddwch, myfyrdod a gweddi.

Ydych chi'n edrych ymlaen gyda thangnefedd neu'n llawn pryder awrth i Adfent nesáu?

Wrth i Sul yr Adfent ddynesu, sut wnewch chi geisio aros am, a disgwyl ar Dduw yn ystod yr Adfent hwn?

Llonydda fy nghalon, O Dduw, imi ymateb i dy gariad.

Llonydda fy meddwl, i dy bresenoldeb o'm mewn.

Llonydda fy nghorff, i wyllo ac aros yn eiddgar.

Llonydda fy meddyliau, i glywed dy lais yn siarad â mi.

Llonydda fy holl fod, i ddisgwyl arnat ti.

Amen.

Friday 1 December

Fig Tree Lessons

Read through Luke 21:29-33

Growth within creation, whether seen on the trees or on the ground, and across each of the seasons, indicates change. As small green shoots emerge out of the dark soil we know that spring has arrived or is coming. Jesus tells his disciples that when the leaves on the fig tree can be seen then summer is not far away. The seasons, and the weather and the growth from the ground, may feel less distinctive, a little more blurred than we remember looking back a decade or two; but they still bring us change.

Today, though, rather than looking at creation or what is happening in our gardens, the change we are awaiting is the journey we undertake once more to the crib. We begin to await the birth of Jesus as we once more enter into the story of the Nativity.

What can we learn from the fig tree?

Maybe patience? Maybe that all things happen in 'due season', and we cannot control the changing seasons? Maybe that we need to open our eyes and take more notice of the world around us?

The parable reminds us of our need – and our call – to watch and wait, and not to rush ahead. Advent is a season that often feels, or can feel, like being on a rollercoaster because there is so much, or too much, to do and prepare for; in our general lives as well as our church life.

The parable calls us to stop and pause and look. To look outwardly at all that we need to do, the list making, the shopping and arranging visits, as well as work and involvement in church. It is also important to look inwardly, to put time aside for quietness, reflection and prayer.

Are you looking forward with peace or with anxiety as Advent approaches?

As Advent Sunday approaches, how will you seek to wait for, and upon, God during this Advent time?

Still my heart, O God, to respond to your love.

Still my mind, to your presence within me.

Still my body, to watch with attentiveness.

Still my thoughts, to hear your word spoken to me.

Still my whole being, to wait upon you.

Amen.

Dydd Sadwrn 2 Rhagfyr

Byddwch yn Effro!

Darllenwch drwy Luc 21:34-36

Rydyn ni'n dysgu cryn dipyn yn yr ychydig adnodau hyn! Mae'r darn yn dilyn yn uniongyrchol o ddarlleniad ddoe a unwaith eto, y neges sylfaenol ydy i fod yn effro i'r alwad i fod yn wylriadwrus, a disgwyl am Dduw.

Beth sy'n eich atal rhag disgwyl a gwyllo allan am Dduw a gyda Duw?

Pa 'bethau' all eich maglu, eich rhwydo, a thrwy hynny eich tywys ar gyfeiliorn a rhag 'disgwyl ar Dduw'?

Gan gamu 'mlaen at yr adnod wedi'r rhai a ddarllenir heddiw, sef adnod 37, fe gawn ni bod Iesu'n mynd i fyny Mynydd yr Olewydd i dreulio'r noson, yn ceisio llonyddwch i weddio mae'n siŵr. Aiff Iesu i gael bod wrth ei hun ac i ddisgwyl ar Dduw. Dyma amser lle gallai offrymu i Dduw mewn gweddi unrhyw beth fase'n gwrthdynnu sylw oddi wrth ei Dad nefol neu demtasiwn fase'n ceisio ei ddenu.

Mae gallu offrymu i Dduw'r pethau hynny sy'n gwrthdynnu'n sylw ni, neu'n ein poeni, yn bwysig. Wrth inni wneud hynny, fe gawn ni bod yr ymdeimlad o

fod yn fwy sylwgar yn dychwelyd, gan olygu ein bod yn fwy effro. Yn effro nid yn unig i Dduw ar ein taith ffydd, ond hefyd yng nghyd-destun popeth sy'n digwydd yn ein hardal ni ac yn y byd mawr crwn o'n cwmpas.

Pa ofidiau a phryderon sy'n effeithio ar ein gallu i fod yn effro i Dduw mewn gweddi?

Pa bryderon, yn lleol ac yn fyd-eang, ydych chi'n teimlo'r angen i'w cyflwyno i Dduw mewn gweddi heddiw?

Mae'r darlleniad allan o Luc yn ein hatgoffa i edrych ar sut rydyn ni'n byw ein bywydau. Rydyn ni i ofalu amdanon ni'n hunain os ydyn ni i ddisgwyl ar Dduw a chanfod y nerth trwy weddi i ymwrthod â themtasiwn. Fe ystyrir y Grawys fel y tymor o 'roi rhywbeth heibio', ond fe all yr Adfent hefyd fod yn adeg i roi rhywbeth heibio.

Beth fasech chi'n ei roi heibio a fyddai'n caniatáu lle ichi fyfyrrio a gweddio, a bod yn effro i alwad Duw arnoch chi?

O Dduw, rwyt ti'n fy ngalw i fod yn effro.

Paid â gadael i ddim tynnu fy sylw, fy nghaethiwo na f'arwain i ar gyfeiliorn.

Bydd di'r nerth sydd ei angen arna i i'm cadw'n driw i ti,

fel y galla i heddiw, ac am byth, ddod a sefyll o'th flaen,

yn saff o wybod am dy faddeuant a dy gariad.

Amen.

Saturday 2 December

Be Alert!

Read through *Luke 21:34-36*

In these few verses we learn much! The passage follows directly the reading of yesterday and, again, underlying the message to be alert is the call to take care and to watch for, and wait upon, God.

What stops you from waiting and watching for God and with God?

What 'things' may trap you, or entrap you, and so lead you astray and away from 'waiting upon God'?

Jumping ahead to the verse after those read today, verse 37, we find Jesus going up to the Mount of Olives to spend the night, no doubt seeking prayer and quietness. Jesus goes to be alone and to wait upon God. This is a time when any potential distraction or temptation which could seek to 'entrap' him can be offered up to God in prayer.

Offering up to God those things which distract us, or worry us, is important.

As we do so, we can find our sense of attentiveness is restored, enabling us to be more alert. Alert not only to God in our journey of faith, but also in the context of all that is happening in our local area and in the wider world.

What worries and concerns affect your being alert to God in prayer?

What concerns, local and across the world, do you feel you need to bring to God in prayer this day?

The passage from Luke reminds us to look at how we live out our lives. We are to care for ourselves if we are to wait upon God and find the strength through prayer to resist temptation. Lent is regarded as the season of 'giving something up', but Advent too can be a time to give something up.

What could you give up that would provide you with space to reflect and pray, and be alert to God's call to you?


O God, you call me to be alert.

Let nothing distract me, entrap me or lead me astray.

Be the strength I need to keep me true to you,

so I can today, and eternally, come and stand before you, in the knowledge of your forgiveness and love.

Amen.





Sul yr Adfent
3 Rhagfyr

Y Patriarchiaid (a'r Matriarchiaid)

Advent Sunday
3 December

The Patriarchs (and the Matriarchs)

Gweddi'r Gannwyll

Dyma ni'n goleuo'r gannwyll gyntaf
hon ar dorch yr Adfent,
yn ein hatgoffa o Abraham a holl
ddilynwyr cynnar Duw.
Boed i'r goleuni a wawriodd yn eu
calonnau nhw,
trwy bresenoldeb gair Duw iddyn nhw,
fod yn olau nawr i ni wrth inni ddisgwyl
ar Dduw
a'r Gair sydd ar ddod i'r byd.

Amen.

Candle Prayer

We light this first candle on the
Advent wreath,
reminding us of Abraham and all
the early followers of God.
May the light which dawned in their
hearts,
through the presence of God's word
to them,
be a light to us now in our waiting
upon God
and the Word which is coming into
the world.

Amen.

Salm 80:1-7

Gwrandu, o fugail Israel sy'n arwain
Joseff fel praidd.

Ti sydd wedi dy orseddu uwch ben y
ceriwbiaid,

disgleiria o flaen Effraim, Benjamin,
a Manasse!

Dangos dy nerth i ni, a tyrd i'n hachub!

**Adfer ni, O Dduw! Gwena'n garedig
arnon ni! Achub ni!**

O Arglwydd Dduw holl-bwerus, am faint
mwy rwyd ti'n mynd i fod yn ddiggyda
gweddiâu dy bobl?

Ti wedi eu bwydo nhw â dagrau,

a gwneud iddyn nhw yfed dagrau wrth y
gasgen.

Ti wedi troi ein cymdogion yn ein herbyn;
mae ein gelynyon yn gwneud sbort ar ein
pennau.

**O Dduw holl-bwerus, adfer ni! Gwena'n
garedig arnon ni! Achub ni!**

Psalm 80:1-7

Give ear, O Shepherd of Israel, you who
lead Joseph like a flock!

You who are enthroned upon the
cherubim,

shine forth before Ephraim and
Benjamin and Manasseh.

Stir up your might, and come to save us!

**Restore us, O God; let your face shine,
that we may be saved.**

O Lord God of hosts, how long will you
be angry with your people's prayers?

You have fed them with the bread of
tears,

and given them tears to drink in full
measure.

You make us the scorn of our
neighbours;

our enemies laugh among themselves.

**Restore us, O God; let your face shine,
that we may be saved.**

O Dduw, gwaith dy ddwylo di ydw i,
wedi fy llunio â gofal tyner, dy ddelwedd
di wedi'i argraffu arna i.

Wrth imi ddisgwyl arnat ti mewn ffydd,
arwain fi fel gwneust ti i Abraham gynt.

Tyrd, dyma fy ngweddi.

Tyrd, yn Achubwr.

Tyrd, yn Ysbryd Glân.

Tyrd, yn Emaniwel.

Amen.

O God, I am the work of your hands,
fashioned with tender care, your image
imprinted upon me.

In my waiting upon you in faith,
be my Guide as you were for Abraham.

Come, I pray.

Come, as Saviour.

Come, as Holy Spirit.

Come, as Emmanuel.

Amen.

Y Patriarchiaid (a'r Matriarchiaid) – yn Arwain? The Patriarchs (and Matriarchs) – Leading?

Rhoddwyd yr enw 'patriarch' ar arweinwyr neilltuol pobl Israel, gan ddechrau gydag Abraham a diweddu ar farwolaeth ei wŷyr, Jacob. I'r Iddewon, y patriarchiaid oedd Abraham, Isaac a Jacob; a meibion Jacob a Joseff a ddaeth yn arweinwyr llwythau Israel. Yn y Testament Newydd ceir cyfeiriadau at feibion Jacob (Actau 7:8-9), at Abraham (Hebreaid 7:4), ac at Dafydd (Actau 2:29).

Abraham a enwir gyntaf fel arfer, ac fe'i canmolir am ei ffydd yn Nuw fel y gwelwn wrth ddarllen Hebreaid 11:8-19. Trwy ymddiried yn Nuw, fe gafodd e a'i wraig Sara fab, Isaac, a thrwy ei ffydd, rhoddwyd cychwyn ar berthynas cyfamodol. Arwydd y cyfamod hwn oedd bod pob gwryw i gael ei enwaedu, fel y gwelwn yn Genesis 17.

O ran diwylliant, y dynion ac nid y merched fyddai'n dal gafael yn yr arweinyddiaeth, ond gellid ystyried patriarchiaid fel Sara, gwraig Abraham, Rebeca, gwraig Isaac, a Leah a Rachel, gwraedd Jacob. Wrth ddarllen yr Hen Destament, fe welwn nodi adegau pan fo Duw'n gweithio ac yn gweithredu trwy ferched: Hanna, Naomi, Ruth, Esther, er enghraifft.

- Pwy ydy patriarchiaid, a matriarchiaid, ein byd heddiw?
- Pwy ydy patriarchiaid, a matriarchiaid, yr Eglwys heddiw?

The name of 'patriarch' was a name given to particular leaders of the people of Israel, beginning with Abraham and ending with the death of his grandson, Jacob. To the Jews, the patriarchs were Abraham, Isaac and Jacob; and the sons of Jacob and Joseph who became leaders of the tribes of Israel. In the New Testament there are references to the sons of Jacob (Acts 7:8-9), to Abraham (Hebrews 7:4), and to David (Acts 2:29).

Abraham is usually named first, and is commended for his faith in God as we read in Hebrews 11:8-19. Through his trust in God, he and Sarah had a son, Isaac, and through his faith a covenant relationship was begun. The sign of this covenant and relationship with God was for all males to be circumcised, as we read in Genesis 17.

Culturally, it was the men who held leadership and not the women, but the matriarchs could be seen as being Sarah the wife of Abraham, Rebekah the wife of Isaac, and Leah and Rachel the wives of Jacob. On reading the Old Testament we do see some occasions noted when God works and acts through women; Hannah, Naomi, Ruth, Esther, for example.

- Who are the patriarchs, and the matriarchs, of the world today?
- Who are the patriarchs, and the matriarchs, of the Church today?

Darlleniadau Sul Cyntaf yr Adfent

Rhai meddylliau cychwynnol:

Eseia 64:1-9 Gan siarad gyda Duw, 'Gwaith dy ddwylo di ydyn ni – ni ydy'r clai a thi ydy'r crochenydd' (8). 'Edrych arnon ni i gyd, dy bobl!' (9).

1 Corinthiaid 1:3-9 'Gallwch chi drystio Duw yn llwyr' (9a), ac fe gawn ein hatgoffa nad ydyn ni'n brin o ddoniau ysbrydol wrth inni tra'n bod ni'n' disgwyl i'r Arglwydd Iesu Grist ddod yn ôl' (7).

Marc 13:24-37 Rydyn ni i ddysgu o wers o goeden ffigys, y 'bydd yr awyr a'r ddaear yn diflannu, ond mae beth dw i'n ddweud yn aros am byth' (31). Hefyd, rhaid inni fod yn wylidwrus wrth inni aros am ddyfodiad Duw, a pheidio â 'gadael iddo'ch dal chi'n cysgu' (35).

The Readings for the First Sunday of Advent

A few initial thoughts:

Isaiah 64:1-9 Speaking to God, 'We are the clay, and you are our potter; we are all the work of your hand' (8). 'Now consider, we are all your people' (9).

1 Corinthians 1:3-9 'God is faithful' (9a), and there is the reminder that we are not lacking in spiritual gifts as we 'wait for the revealing of our Lord Jesus Christ' (7).

Mark 13:24-37 We are to learn from the lesson of the fig tree, that 'heaven and earth will pass away, but my words will not pass away' (31). Also, that we are to 'keep awake' (35) as we wait for the coming of God.

Disgwyl ar Dduw

- **Beth mae'n ei feddwl, a beth mae'n ei olygu, i fod yn arweinydd?**

A wnaeth Abraham, Isaac a Jacob erioed ystyried y bydden nhw, ymhen amser yn y dyfodol, yn cael eu galw wrth yr enw Patriarch, arweinydd pobl? Pobl oedden nhw a arweiniodd y ffordd yn ôl galwad Duw. Doedden nhw ddim yn berffaith, ac fe wnaethon nhw gamgymeriadau, ac eto roedden nhw'n trystio gair Duw. Credodd Abraham, er ei bod hi'n anodd iddo ddeall mai fo fyddai tad disgynyddion mwy niferus na sêr yr awyr. Fe ddarllenwn ei fod yn fodlon aberthu'i fab er mwyn dangos parodrwydd i osod popeth a oedd yn werthfawr iddo fel aberth i Dduw. Bu Jacob, fel y gwelwn ni yn wythnos gyntaf y Grawys, yn ymaflyd ac yn ymgodymu drwy'r nos cyn sylweddoli bod Duw hefo fo.

Mae sawl ffordd o fod yn arweinydd, o gynnig arweinyddiaeth i eraill. Does ots pwy ydyn ni, rydyn ni i gyd mewn rhyw ffordd yn arweinwyr pobl. Fel y cawn weld ar Drydydd Sul yr Adfent, wrth gymryd golwg ar Ioan Fedyddiwr, rydyn ni hefyd i baratoi ffordd yr Arglwydd, i arwain a thywys eraill i bresenoldeb Duw.

- **Beth mae'r darn o Esei'a'n dweud wrthyn ni ynglŷn â bod yn arweinydd?**
- **Beth mae'r darn yma'n dweud wrthyn ni ynglŷn â bod yn Gristion?**

Mae'r ddelwedd o Dduw fel y crochenydd a ninnau fel y clai yn un drawiadol iawn, ond er hynny, rydyn ni hefyd yn grochenwyr wrth inni barhau i siapio a llunio'n bywydau. Gall hyn fod yn fowldio tuag at demtasiynau seciwlar a bydol, neu fel all y siapio hyn er mwyn ceisio sicrhau bod ôl nod Duw yn aros ar ein bywydau.

Waiting upon God

- **Was does it mean, and what does it take, to be a leader?**

Did Abraham, Isaac and Jacob ever consider that in a future time, they would be given the title of Patriarch, a leader of the people? They were people who led the way as called by God. They were not perfect, they made mistakes, and yet they trusted in the word of God. Abraham believed even though it was hard for him to understand that he would be the father of descendants more numerous than the stars in the sky. We read that he was willing to sacrifice his son to show his willingness to present all that was precious to him as an offering to God. Jacob, as we discovered in the first week of Lent, wrestled all night before he realised that God was with him.

There are many ways of being a leader, of offering leadership to others. No matter who we are, we are all in some way a leader of the people. As we will see on the Third Sunday of Advent, looking at John the Baptist, we too are to prepare the way of the Lord, to lead and guide others into the presence of God.

- **What does the passage from Isaiah tell us about being a leader?**
- **What does this passage tell us about being a Christian?**

The image of God as the potter and we as the clay is a very evocative one, and yet we too are the potter as we continue to shape and mould our lives. This may be a moulding towards secular and worldly temptations, or this shaping may be to seek to ensure that God's imprint upon our lives remains.

Mae gofyn cadw clai yn feddal ei mwyn ei ddefnyddio'n effeithiol. Os caiff ei adael i sychu a chaledu, gall droi'n amhosib ei ddefnyddio, neu fe all gymryd cryn amser i'r crefftwr weithio ar y clai i'w wneud yn ymarferol ei ddefnyddio eto. Gellir siapio ac ail-siapio clai dro ar ôl tro, hyd nes bydd y crochenydd yn fodlon gyda'i greadigaeth.

- **Pryd oedd y tro diwethaf ichi chwarae gyda chlai, neu blastisin, neu does?**
- **Sut deimlad oedd hynny?**

Teimlo'n Greadigol?

Gellir gwneud hyn ar eich pen eich hun neu mewn grŵp. Cymerwch ychydig o glai neu does, ei 'weithio', a'i lunio i siâp preseb. Gellir creu un manwl neu syml, ar ffurf pêl gydag ôl bawd wedi'i wasgu yn y canol. Gadewch iddo sychu, efallai ei beintio, a'i osod yn rhywle y medrwch ei weld wrth ichi weddio a disgwyl ar Dduw yn ystod y dyddiau Adfent.

O'r llyfr *Nine Faces of God*, gan Peter Hannan SJ, ceir dyfyniad gan esgob o'r ail ganrif, Irenaeus (tudalen 59):

Nid chi sy'n siapio Duw, ond Duw sy'n eich siapio chi. Os mai gwaith Duw ydych chi felly, disgwylwch ar law'r crefftwr yr un sy'n gwneud pob peth yn ei dro. Rhowch iddo eich calon, yn feddal ac yn hawdd ei thrin, a chadw'r ffurf a roddodd y crefftwr arnoch chi. Cadwch eich clai yn llaith, rhag ofn ichi galedu a cholli argraff ei fysedd arnoch chi.

Clay has to be kept moist to be used effectively by the potter. If it becomes dry or hard it can be impossible to use, or it may take the artist a long time to work with the clay so it can be used again. Clay can be shaped and reshaped often, until the finished article is what the potter envisioned it to be.

- **When was the last time you played with clay, or plasticine, or dough?**
- **What did it feel like?**

Be Creative?

This can be done alone or in a group. Take some clay or dough, 'play' with it, and shape it into a crib. This can be very elaborate or simple, made from a ball with a thumbprint dip in the middle. Let it dry, maybe paint it, and place it somewhere you can see it as you pray and wait upon God during these days of Advent.

From the book *Nine Faces of God*, by Peter Hannan SJ, is a quote from the second-century bishop, Irenaeus (page 59):

It is not you who shapes God, but God who shapes you. If then you are the work of God, await the hand of the artist who does all things in due season. Offer him your heart, soft and tractable, and keep the form in which the artist has fashioned you. Let your clay be moist, lest you grow hard and lose the imprint of his fingers.

Dyma'r geiriau sy'n ein tywys at yr Epistol a'n hatgoffa bod Duw yn ffyddlon, ac at yr Efengyl sy'n datgan, beth bynnag a ddaw, na fydd Gair Duw byth yn mynd heibio. Mae angen inni, fodd bynnag, i ddal i ddisgwyl ar Dduw, ac i fod yn agored ac yn barod i am gyffyrddiad Dduw ar ein bywydau, i barhau i'n 'siapio' yn berson y gŵyr Duw y gallen ni fod.

- Pa mor gyfforddus ydych chi gyda'r geiriau hyn gan Irenaeus?
- Pa feddyliau a theimladau maen nhw'n ysgogi o'ch mewn?
- Beth mae'r ddelwedd o Dduw y crochenydd sy'n ein llunio yn ei ddweud wrthyh?
- Sut mae cysylltu'r geiriau hyn gyda bod yn 'arweinydd' a bod yn Gristion?

Pwy ydy'r arweinwyr yn eich Ardal Weinidogaeth? Ni ellir penodi pawb yn arweinydd yn 'swyddogol', ac eto, trwy ein galwad Cristnogol, fe'n galwyd ninnau i chwarae'n rhan, trwy gynnig yr hyn a allwn. Medrwn arwain y ffordd yn ein teuluoedd a'n cymunedau trwy esiampl ein bywydau ein hunain, trwy'r pethau rydyn ni'n eu gwneud, neu beidio eu gwneud.

Roedd Oscar Romero, Esgob El Salvador, yn ddyddyn a lefarodd yn huawdl yn erbyn yr anghyfiawnder a'r gormes a welodd o'i gwmpas. Fe'i disgrifiwyd fel 'goleuni i'r cenedloedd, dyn ar dân, proffwyd y proffwydi', ac felly fe ddychwelwn ato'n ddiweddarach yn yr Adfent. Person cyffredin oedd yntau a ddatblygodd, oherwydd natur ei arweinyddiaeth, yn llais i'r rhai heb lais, a thrwy hynny, camodd y tu allan i'r ffiniau a osodwyd gan wleidyddiaeth, a llywodraeth, y lle hwnnw.

These are words which take us to the Epistle and the reminder that God is faithful, and to the Gospel that no matter what happens, the words of God will never pass away. We need though to keep waiting upon God, and be open and ready for God to touch into our lives, to continue our 'shaping' into the person God knows we can be.

- How comfortable are you with these words of Irenaeus?
- What thoughts and feelings do these evoke within you?
- What does the image of God being the potter who shapes you say to you?
- How may these words relate to being a 'leader' and being a Christian?

Who are the leaders in your Ministry Area? Each person cannot be 'officially' labelled as a leader, and yet through our Christian calling we are to play our part, by offering what we can. We can lead the way in our families and communities by the example of our own lives, by the things we do, and don't do.

Oscar Romero, Bishop of El Salvador, was a man who spoke out against the injustice and oppression that he saw all around him. He has been described as being 'a light to the nations, a man on fire, a prophet's prophet', so we will come back to him later in Advent. He was an ordinary person whose style of leadership meant he became a voice for the voiceless, and so he stepped outside the boundaries set by politics, and government, in that place.

Canlyniad hynny oedd cael ei lofruddio ar risiau ei gadeirlan ym 1980. Dyma sgwennodd o:

Fedwrn ni ddim gwneud popeth, ac mae yna ryw ymdeimlad o ryddhad wrth sylweddoli hynny. Mae hyn yn ein galluogi ni i wneud rhywbeth, a'i wneud o'n dda iawn. Efallai mai anghyflawn fydd o, ond mae'n ddechrau, yn gam ar hyd y ffordd, yn agoriad i ras yr Arglwydd ddod i mewn a gwneud ei waith.

• Unrhyw feddyliau ar y dyfyniad hwn?

Does yna neb sy'n gallu gwneud popeth, ond fedwrn ni i gyd wneud rhywbeth, ac weithiau mae'n bosib, hefyd, inni allu gwneud mwy. Nid pawb ohonon ni'n sy'n cael galwad i fod yn batriarch, yn fatriarch, neu'n 'Oscar Romero', ond rydyn ni yn cael ein siapio gan Dduw. Mae gan bob un ohonon ni ryw beth arbennig i'w gynnig, ac efallai mai 'arwain' y ffordd i eraill ddod i adnabod Duw ydy hynny. Mae cyflawni hyn i gyd, neu hyd yn oed rhywbeth bach, yn golygu bod angen inni dreulio amser yn disgwyl ar Dduw, yn dawel ac yn weddigar, a bod yn effro i lais Duw yng nghanol prysurdeb yr Adfent.

Wrth Edrych tuag at y Nadolig

Mae'r Adfent yn adeg prysur iawn i bawb, o fewn yr eglwys ac yn gyffredinol. A ydy'r holl brysurdeb yma'n tynnu'n sylw oddi wrth ein galwad i gadw'n effro a disgwyl ar Dduw? Beth allwch chi ei newid er mwyn sicrhau amser gyda Duw?

Mae'n bosib bod dechrau'r Adfent yn adeg o lunio rhestrau. Os mai felly y mae hi hefo chi, beth am neilltuo amser ar y rhestr bob dydd i ddisgwyl ar Dduw?

The consequence was that he was murdered on the steps of his cathedral in 1980. He wrote:

We cannot do everything, and there is a sense of liberation in realising that. This enables us to do something, and to do it very well. It may be incomplete, but it is a beginning, a step along the way, an opportunity for the Lord's grace to enter and do the rest.

• Any thoughts on this quote?

No one can do everything, but we can all do something, and sometimes it may be, too, that we can do more. We are not all called to be a patriarch, a matriarch, or 'an Oscar Romero', but we are all shaped by God. We all have something special to offer, and maybe that is to 'lead' the way for others to come to know God. To do all of this, or even something small, means that first we need to spend time waiting upon God, quietly and prayerfully, and awake to God's voice in the midst of the Advent busyness.

Looking towards Christmas

Advent is a very busy time for everyone, in church and generally. Does this busyness distract us from our call to keep awake and wait upon God? What can you change to ensure time with God?

The beginning of Advent may be a time of list making. If it is, put on the list time each day to wait upon God.

Y Goeden Nadolig

Treuliwch ychydig o amser yn edrych ar, a myfyrio ar unrhyw beth wnaethoch chi'i osod ar y Goeden yn ystod y dyddiau diwethaf.

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei gynnwys?

Os bu ichi wneud preseb allan o glai, tynnwch lun y preseb hwnnw ar y Goeden.

The Christmas Tree

Spend a little time looking at, and reflecting upon, anything that you put onto the Tree during the last few days.

Is there anything else you would like to include?

If you made a crib from clay, draw that crib onto the Tree.

Gweddï i Gloi

O Dduw, ni ydy'r clai a ti ydy'r crochenydd.

Boed imi beidio â bod yn rhy brysur i anghofio dy bresenoldeb gyda mi.

Boed imi beidio â bod mor brysur fel fy mod i'n anghofio anghenion pawb o'm cwmpas i.

Boed imi beidio â bod mor brysur fel fy mod i'n anghofio gweddïo dy dangnefedd di ar arweinwyr y byd, y gymuned leol, a'r Eglwys.

O Dduw, ni ydy'r clai a ti ydy'r crochenydd.

Siapia ac ail-siapia fy nghalon i ddisgwyl arnat ti.

Amen.

Closing Prayer

O God, we are the clay and you are the potter.

May I not become so busy that I forget your presence with me.

May I not become so busy that I forget the needs of all people around me.

May I not become so busy that I forget to pray

your peace upon the leaders of the world,

of the local community, and of the Church.

O God, we are the clay and you are the potter.

Shape and reshape my heart to wait upon you.

Amen.

Dydd Llun 4 Rhagfyr

Iesu'n Cael ei Syfrdanu

Darllenwch drwy Mathew 8:5-13

Pam bod Iesu wedi'i syfrdanu gan yr hyn a glywodd?

Mae ffydd y canwriad yn cael ei gymharu'n ffafriol ochr yn ochr â ffydd y patriarchiaid, Abraham, Isaac a Jacob. Mae gan y canwriad, a oedd yn genedlddyn, ffydd nad oes gan rai o deulu Israel, meddai Iesu! Yn y darlleniad hwn, fe geir hefyd ddealltwriaeth o ymddiriedaeth mewn arweinyddiaeth, ac o awdurdod.

Mae'n ymddangos bod y canwriad wedi clywed am Iesu cyn mynd ato. Efallai ei fod wedi'i glywed yn llefaru, neu wedi bod yn dyst i'w gyffyrddiad neu'i eiriau o iachâd. Mae ganddo'r fath ymddiriedaeth yn Iesu fel ei fod yn gwybod nad oes angen i Iesu ddod i'w dŷ er mwyn iacháu ei was. Yr oll sydd angen i Iesu'i wneud ydy yngan y gair, cyflwyno'r weddi. Dyma ddyn o awdurdod ac arweinyddiaeth yn cydnabod awdurdod ac arweinyddiaeth un arall, sef Iesu.

'Roedd Iesu wedi'i syfrdanu pan glywodd beth ddwedodd y dyn. Meddai wrth y rhai oedd yn ei ddilyn, "Wir i chi, dw i ddim wedi gweld neb o bobl Israel sydd â ffydd fel yna!" (ad. 10).

Sut deimlad ydy hi i fod wedi syfrdanu neu ryfeddu?

Beth all achosi inni syfrdanu?

Syfrdandod ydy cael eich llenwi ag ymdeimlad o syndod, o ryfeddod, neu hyd yn oed anghrediniaeth o weld neu glywed rhywbeth. Fe all ddod o fod yn methu ag amgyffred neu ddeall yn iawn yr hyn sydd wedi digwydd. Felly, gall syfrdandod fod yn bositif ond gall hefyd fod ychydig yn negyddol.

I Iesu, gall y syfrdandod mae'n ei deimlo fod yn gyfuniad o'r ddau. Llawenydd dros y canwriad sy'n credu, a thristwch dros y bobl hynny o Israel a fagwyd yn bobl Dduw, ond sy nawr yn cwestiynu dysgeidiaeth ac awdurdod Iesu.

Ble ddewch chi o hyd i lawenydd a syfrdandod llawen yn ystod yr Adfent?

Sut mae stori'r Nadolig cyntaf yn eich llenwi â llawenydd? Yn ystod yr Adfent a dyfodiad y Nadolig, sut fedrwn ni gadw'n fyw yn ein calonnau stori syfrdanol y Nadolig?

Duw'r rhyfeddodau,
 helpa fi i drystio'n ddyfnach ynot ti.
 Enynna ac adnewyddda ynof fi stori syfrdanol geni Iesu,
 a thrwy ffydd gynyddol, boed imi geisio ffyrdd
 i ddwyn eraill at dy gariad rhyfeddol.

Amen.

Monday 4 December

Jesus Was Amazed

Read through Matthew 8:5-13

Why was Jesus so amazed by what he heard?

The centurion's faith is compared favourably with that of the patriarchs, Abraham, Isaac and Jacob. The centurion, a Gentile, has a faith that Jesus says some who are of the family of Israel do not have! In this reading there is also an understanding of trust in leadership, and of authority.

It appears that the centurion had heard about Jesus before approaching him. Maybe he had heard him speak, or been a witness to his healing touch and words. His trust in Jesus is such that he knows that Jesus does not need to come to his house for his servant to be healed. All Jesus needs to do is speak the word, offer the prayer. This is a man of authority and leadership acknowledging the authority and leadership in another, in Jesus.

'When Jesus heard him, he was amazed and said to those who followed him, "Truly I tell you, in no one in Israel have I found such faith"' (v. 10).

What does it feel like to be amazed?

What may cause us to be amazed?

Amazement is to be filled with a sense of surprise, of wonder, or even of disbelief at what is seen or heard. It may come from being unable to fully grasp or understand what has taken place. So, amazement can be positive but it can also be slightly negative.

For Jesus the amazement he feels could be both. Joy for the centurion who believes, and sorrow for the people of Israel brought up as the people of God, who now question Jesus' teaching and authority.

Where may you find joy and joyful amazement during Advent?

How does the Nativity story fill you with joy? During Advent and the approach of Christmas, how may we keep alive within us the amazing story of the Nativity?

God of wonder,
help me to trust more deeply in you.
Awaken and renew within me the amazing story of Jesus' birth,
and through an ever-increasing faith may I seek ways
to draw others to your amazing love.

Amen.

Dydd Mawrth 5 Rhagfyr

Iesu'n Gorfoleddu

Darllenwch drwy Luc 10:21-24

O syfrdandod fe symudwn at orfoledd. Ceir trawsnewidiad o syndod i lawenydd; wedi dod dros yr ymdeimlad o syfrdan, daw'r datguddiad a'r sylweddoliad o'r holl weithgarwch a esgorodd ar y syfrdandod yn y lle cyntaf. Mae Iesu, dan deimlad yr Ysbryd Glân, yn gweddïo gyda diolchgarwch i Dduw.

Mae'r darn yma o'r Ysgrythur yn dilyn ymlaen wedi dychweliad y 70 o ddisgyblion a'r llawenydd a deimlwyd trwy eu gweinidogaeth yn enw Iesu. Ceir rhyw rybudd bach nad ydy'r disgyblion i orfoleddu yn yr hyn maen nhw wedi'i gyflawni, ond yn hytrach yn y ffaith bod 'eich enwau wedi'u hysgrifennu yn y nefoedd' (ad. 20). Mae Iesu'n llawenhau ym mhopeth maen nhw wedi'i wneud, ond yn eu hatgoffa i beidio â chael eu rhwydo gan hunanfalchder!

Pa mor aml fydden ni'n diolch i rywun am y gwaith maen nhw wedi'i wneud? Pa mor aml gawn ni ein diolch?

Efallai nad ydy'r rhai sy'n derbyn ein diolch yn ei geisio, ond mae'n fodd i gydnabod eu cyfraniad, waeth pa mor fach neu fawr. Yn aml, caiff y gair 'diolch' ei yngan yn ddfeddwl o ran cwrteisi, neu ddyletswydd. Er mwyn teimlo'r gwir orfoledd, mae

gofyn datgan y 'diolch' o'r galon, gyda gonestrwydd, p'un ai at berson arall, neu i Dduw mewn gweddi.

Yn ogystal â rhoi diolch, mae Iesu'n dweud wrth ei ddisgyblion: 'Dych chi'n cael y fath fraint o weld beth sy'n digwydd!' (ad. 23). Mae Iesu'n gorfoleddu wrth iddo weld ei ddisgyblion yn dilyn ei ddsygeidiaeth ac yn gwneud beth mae O ei hun wedi'i wneud. Mae'n rhaid bod hynny wedi codi ysbryd y disgyblion o'u llesgedd wrth iddyn nhw ddychwelyd, i wybod eu bod yn cael eu cynnal mewn gweddi ac yn cael cefnogaeth yn eu gweinidogaeth.

Os oes gynnoch chi rôl arweinyddiaeth o fewn eich Ardal Weinidogaeth, pwy sy'n eich cefnogi a'ch galluogi chi yn y rôl honno?

Sut fasech chi'n gallu cefnogi'r rhai hynny sydd â rolau arweinyddiaeth yn eich Ardal Weinidogaeth?

Mae'r Adfent, fel y Grawys, yn dymor o benyd, o fod yn edifeiriol, yn dymor sy'n galw arnon ni i ddisgwyl ar Dduw, i gyffesu, ac yna i deimlo sicrwydd y gorfoledd hwnnw wrth i Dduw faddau a llawenhau ynon ni. Sut mae ceisio maddeuant Duw yn dod â llawenydd, a gorfoledd i mewn i'ch bywyd?

Duw'r gorfoledd,

yn dy gariad rwyt yn cael dy ddatguddio trwy Iesu Grist, yr hwn rydyn ni rŵan yn ei ddisgwyl.

Agor fy nghalon i orfoleddu yn dy ddŵad

fel y gallaf innau, un a gafodd ei faddau ac sy'n cael ei garu, dy wasanaethu di holl ddyddiau fy mywyd.

Amen.

Tuesday 5 December

Jesus Rejoices

Read through Luke 10:21-24

From amazement we move to rejoicing. There is a transition from surprise to joy; a settling within of the being amazed, to the revelation and realisation of the activity of all that brought about the amazement in the first place. Jesus, moved by the Holy Spirit, prays with thanksgiving to God.

This passage follows on from the return of the 70 disciples and the joy felt through their ministry offered in Jesus' name. There is a slight warning that the disciples are not to rejoice in what they have achieved, but in the fact that 'your names are written in heaven' (v. 20). Jesus rejoices in all they have done, but reminds them not to get caught up in self-pride!

How often do we thank someone for the work they have done? How often are we thanked?

Those we thank may not seek thanks, but it is a way of acknowledging their contribution, however small or big. The words 'thank you' can often be muttered through a sense of politeness, or duty. To truly rejoice, our 'thank you' needs to be offered honestly and from the heart, whether this is to another person, or to God in prayer.

As well as giving thanks, Jesus tells his disciples that, 'Blessed are the eyes that see what you see!' (v. 23). Jesus rejoices as he sees his disciples following his teaching and doing what he himself has done. This must have lifted up the disciples from their tiredness on their return, to feel prayed for, and supported in their ministry.

If you have a leadership role within your Ministry Area, who supports and enables you in that role?

How may you support those who have the leadership roles in your Ministry Area?

Advent, like Lent, is a penitential season which calls us to wait upon God, to confess, and then to know joy as God forgives and rejoices in us. How does seeking the forgiveness of God bring joy, and rejoicing, into your life?

God of joy,
in your love you are revealed in Jesus Christ for whom we now wait.
Open my heart to rejoice in your coming
so that, forgiven and loved,
I may serve you all the days of my life.

Amen.

Dydd Mercher 6 Rhagfyr

Iesu'n Bendithio

Darllenwch drwy Marc 10:13-16

Ydy'r Nadolig ar gyfer y plant yn unig? Wrth i ffenestri'r calendrau Adfent gael eu hagog, a'r siocledi bach gael eu bwyta, mae'r disgwyliad yn tyfu. Mae'n ddigon posib bod rhestrau gofynion y plant am eu hanrhegion Nadolig hefyd yn tyfu; popeth maen nhw 'eisiau' ac 'angen', ac yn 'rhaid ei gael'!

Bwrwch olwg nôl ar eich plentyndod eich hun. O ran anrhegion yn unig, faint o newid sydd wedi bod yn y gofynion a'r disgwyliadau a'r anrhegion a roddir?

Galwodd Iesu blant at ei ymyl a dweud wrth y disgyblion bod gan blant, hefyd, le yn nheyrnas Dduw. Daeth rhieni â'u plant i weld Iesu, ac wedi'i amgylchynu ganddyn nhw, nid yn unig mae'n eu bendithio nhw, ond mae'n dysgu rhywbeth pwysig i ninnau'r oedolion hefyd.

Dros yr wythnosau nesaf, fe welir dramâu a chyflwyniadau stori'r Nadolig yn ein hysgolion a'n heglwysi. Efallai na fydd rhai ohonyn nhw'n debyg o gwbl i'r stori a gawn ni yn y Beibl, neu'n cynnwys amrywiaeth o gymeriadau 'newydd' nad oedd yn bodoli yn amser y Beibl, ac eto, y plant eu hunain ydy'r ddrama. Mae'r rhai sy'n eu gwyllo yn cael eu bendithio ganddyn nhw.

Bydd gwyllo'n dod â chwerthin a dagrau o lawenydd ac ymdeimlad wrth i'r plantos anghofio'u geiriau, neu'n dilyn eu sgript eu hunain, gwrthod cymryd rhan, pigo trwynau neu hyrddio doli'r baban Iesu ar draws y llwyfan!

Petawn ninnau, yr oedolion, yn cymryd rhan mewn drama'r Nadolig, pa mor wahanol fyddai hi?

Ydyn ni'n colli 'r synnwyr o ryfeddod a hwyl wrth inni 'aeddffedu' neu fynd yn hŷn?

Mae Iesu'n dweud wrthyn ni ein bod i fod fel plant os ydyn ni i dderbyn a gwybod am deyrnas Dduw. Sut fedrwn ni wneud hyn? Nid caniatâd ydy hyn i actio fel plentyn, ond yn hytrach i fod yn agored i ryfeddod y byd o'n cwmpas, i fod yn agored i'r ffaith ein bod ni'n gwneud pethau'n anghywir o dro i dro, i fod yn agored i herio'r drefn pan welwn i anghyfiawnder. Mae bod 'fel plentyn' yn waith go iawn sydd angen ei gymryd o ddifrif, ac yn y gwaith hwn rydyn ni, gyda'r plant, yn cael ein bendithio.

Sut mae modd i chi weld y byd, a dathliadau'r Nadolig sy'n dod, fwyfwy trwy lygaid plentyn?

O Dduw, rwyf ti'n ein galw i gyd yn blant i ti. Llenwa fi a rhyfeddod fel y rhyfedda plentyn, i ail-edrych ar stori'r Nadolig cyntaf hwnnw ac ail-ymweld â'r preseb gyda golwg newydd, ffres ac ysbryd wedi'i adnewyddu. Yn y paratodau sydd i ddod, tywallt dy fendith arna i fel y gallaf innau fod yn fendith i eraill.

Amen.

Wednesday 6 December

Jesus Blesses

Read through Marc 10:13-16

Is Christmas just for children? As Advent calendar doors are opened, and perhaps chocolate is eaten, the anticipation grows. Also growing may be the list of what children are asking for, their presents for Christmas Day; all they 'want' and 'need', and 'have to have'!

Think back to when you were a child. How much has Christmas changed in relation to the presents asked for and received?

Jesus called the children to his side and told his disciples that children, too, have a place in God's kingdom. Parents brought their children to see Jesus and, surrounded by them, he not only blesses them but he teaches us, the adults, something very important.

In the next few weeks there will be Nativity plays in schools and in church. Some may bear little resemblance to the story we read in the Bible, or have within them a variety of characters unknown in biblical times, and yet it is the children who 'make' the play. Those who watch are blessed by them. Watching may bring laughter and tears as we see children forgetting their lines,

or making them up, not wanting to take part, picking noses or tossing the doll, baby Jesus, across the stage.

If we as adults took part in a Nativity play, how different would it be?

Do we lose a sense of childlike wonder and fun, the older we become?

Jesus tells us that we are to become like children if we are to receive and know the kingdom of God. How can we do this? This is not permission to act as a child, but rather to be open to the wonder of the world around us, to be open to the fact that we do things wrong at times, to be open to challenge the status quo when we see injustice. To be childlike is serious work, and in this work we too, with the children, are blessed.

How may you take a more childlike view of the world, and the coming Christmas celebrations?

O God, you call us all your children.

Fill me with childlike wonder,

to enter with fresh eyes and a renewed spirit the Nativity story.

In the coming preparation pour upon me your blessing

so I may be a blessing to others.

Amen.

Dydd Iau 7 Rhagfyr

Iesu'n Setlo Dadl

Darllenwch drwy Luc 22:24-30

Mae'r rhan yma yn Efengyl Luc yn digwydd yn union wedi sefydlu Swper yr Arglwydd. Mae Iesu wedi cymryd y bara a'r cwpan gwin, wedi rhoi diolch, ac wedi'u rhannu ymysg ei ddisgyblion. Mae'n eu gadael gyda'r geiriau yma: 'Gwnewch hyn i gofio amdana i' (ad.19). Wedi rhannu'r pryd trawsnewidiol hwn, sy'n cael ei goffáu gynnon ni ar Ddydd Iau Cablyd, mae rhai o'r disgyblion yn dechrau dadlau!

Pwy ydy'r un mwyaf o'u mysg, maen nhw am wybod. Pwy ydy'r gorau, pwy sy'n cael ffafriaeth o blith y disgyblion? Ydyn ni'n gweld yma oedolion yn bihafio fel plant, ond nid mewn ffordd gadarnhaol?

Yr holl ganrifoedd yn ddiweddarach, a dyma ni'n dal i fod yn dystion i'r holl gystadlu yma i weld 'pwy 'di'r gorau', i gael eich cyhoeddi'n well na rhywun arall. Wrth edrych yn ôl ar fyfyrddoedd, ydy'r gystadleuaeth yma i fod 'y gorau' yn cael ei ddadlennu yn y disgwyliad (a'r hawl tybiedig?) y bydd yr anrhegion a geir yn enw brand amlwg?

Beth ydy'ch barn chi ynglŷn ag anrhegion Nadolig gydag 'enw brand'?

Beth ydy'ch barn chi am 'rym' apêl hysbysebu?

Mae'r adeg yma'n gallu bod yn anodd iawn i lawer, gan achosi helbul, os nad ffraeo, o fewn teuluoedd; a hynny'i gyd cyn i deuluoedd ddod at ei gilydd ar Ddydd Nadolig! Mae nwyddau gydag enwau brand fel arfer yn ddrutach o lawer, gan greu pwysedd ariannol ychwanegol. Dydy ceisio gwneud, a rhoi'r gorau i anwlyiaid adeg y Nadolig ddim yn hawdd. Mae yna ddywediad sy'n datgan mai 'Arian sy'n cynnal y byd', ond ydy hynny'n wir?

Cyn y ddadl yn y darlleniad o'r Beibl, rhannodd Iesu bryd o fwyd. Caiff y pryd ei gynnig mewn cariad. Cariad ydy'r elfen allweddol, y rhodd sy'n werthfawr. Ni ellir ei brynu, ond mae modd ei rannu. Cawn ddarllen yn y llythyr cyntaf at y Corinthiaid, 'Ar hyn o bryd mae gynnoch chi dri pheth sy'n aros: ffydd, gobaith a chariad. Ond y mwya ohonyn nhw ydy cariad' (13:13).

Sut mae modd i chi rannu cariad yn ystod yr wythnosau hyn o'r Adfent?

Duw cariad,
rydyn ni i gyd yn gyfartal yn dy olwg di,
ac fe'n gelwir i garu ein gilydd.
Helpa fi i beidio ag anghofio'r cariad hwn
sydd y tu hwnt i bob deall.

Amen.

Thursday 7 December

Jesus Ends a Dispute

Read through Luke 22:24-30

This passage takes place in Luke's Gospel just after the institution of the Lord's Supper. Jesus has taken the bread and the cup of wine, given thanks, and has shared it among his disciples. He leaves them with the words: 'Do this in remembrance of me' (v. 19). Having shared in this transforming meal, which we remember on Maundy Thursday, some of the disciples begin to argue!

Who is the greatest, they want to know. Who is the best, who is the most favoured among the disciples? Do we see, here, adults being childlike, but not in a positive way?

All these centuries later we still see this vying to be the 'greatest', to be declared better than someone else. Looking back to the reflection of yesterday, does this competition to be the 'greatest' reveal itself in the expectation (and assumed right?) that presents will have a brand name attached to them?

What are your thoughts about 'brand name' gifts at Christmas?

What do you think about the 'power' of advertising?

This can be a difficult time for many, and cause inner turmoil, if not a dispute, within a family; and all before families gather on Christmas Day! Brand-named goods are more expensive and can cause extra financial pressure. Trying to do, and give, the best to loved ones at Christmas is not easy. The saying is that 'money makes the world go round'. Does it though?

Before the dispute in the Bible reading, Jesus has shared a meal. This is a meal offered in love. Love is the element, the gift that is priceless. It cannot be bought, but it can be shared. We read in the first letter to the Corinthians, 'And now faith, hope, and love abide, these three; and the greatest of these is love' (13:13).

How may you share love during these weeks of Advent?

God of love,
we are all equal in your sight,
and are called to love one another.
Help me not to forget this love
which passes all understanding.

Amen.

Dydd Gwener 8 Rhagfyr

Iesu'n Cwestiynu

Darllenwch drwy Ioan 21:15-17

Mae'r darn o'r Efengyl ar gyfer heddiw yn ein dwyn i amser wedi'r atgyfodiad a'r brecwast a rannwyd ar y traeth rhwng Iesu a'i ddisgyblion. Mae rhyw sesiwn holi ac ateb yn datblygu rhwng Iesu a Pedr. Gosodir darlleniad sy'n ymddangos yn fwy addas ar gyfer yr adeg ar ôl y Pasg yn ystod yr wythnos hon, sef y cyntaf yn Adfent. Beth all yr ychydig adnodau hyn ddweud wrthyn ni ynglŷn â'r Adfent a dyfodiad Iesu i'r byd?

Yn gyntaf, cawn ein hatgoffa na fase'r atgyfodiad wedi gallu digwydd heb fod genedigaeth yn gyntaf. Mae hyn yn ffaith amlwg. Ac eto, pa mor aml, os o gwbl, fyddwn ni'n myfyrio ar yr Adfent a stori'r Nadolig adeg y Grawys, a'r Grawys a stori'r Pasg adeg yr Adfent? Mae'r ddau yn gydgysylltiedig ac nid oes modd cael un heb y llall.

Does gan yr Adfent, er ei fod yn dymor o edifeirwch, mo'r un 'teimlad' iddo ag sydd gan y Grawys. Trwy gydol y Grawys, fe'n gelwir i fyfyrio ar bopeth y mae angen inni ddod gerbron Duw, am faddeuant Duw, ac i fynd heb rywbeth ac ystyried rhoi elusen.

Ydy'r rhain yn elfennau y gellir, neu y dylid eu cynnwys o fewn wythnosau'r Adfent?

Sut fasech chi'n gwneud hynny a beth fase hynny'n ei feddwl ichi?

Mae amser wedi mynd heibio ers i Pedr wadu nabod Iesu (Ioan 18: 15-27) a bellach fe'i gwelwn nhw gyda'i gilydd. Mae hi wedi dod yn amser i Pedr wynebu Iesu, i edrych i fyw ei lygaid, a gwybod ei fod wedi'i faddau'n llwyr. Gofynnodd Iesu i Pedr dair gwaith p'un ai ei fod yn ei garu ai peidio. Wrth i Pedr ateb, mae ei safle fel arweinydd ac fel Cephas, y graig, yn cael ei ail-gadarnhau. Er mwyn i Pedr arwain, mae gofyn iddo gofio ei angen i drystio, gwrando a chael ei arwain gan Dduw.

Petai Iesu'n gofyn i chi, 'Wyt ti'n fy ngharu?', beth fyddai eich ateb?

Oes yna gyfeillgarwch sydd angen ei iachau a dechrau newydd?

Duw'r holl dymhorau,
rwy'ti'n fy ngalw i ddod atat ti mewn cariad.
Mewn cariad, iachâ a maddeua imi,
arwain fi i fy nechreuad newydd nesaf
a helpa fi i ddangos fy nghariad tuag atat,
rwan a phob amser,
yn a thrwy Iesu Grist.

Amen.

Friday 8 December

Jesus Questions

Read through John 21:15-17

The Gospel set for today takes us to the time after the resurrection and the breakfast on the beach shared between Jesus and his disciples. A question-and-answer session takes place between Jesus and Peter. A passage which may seem more suitable to look at just after Easter is placed within this first week of Advent. What can these few verses tell us about Advent and the coming of Jesus into the world?

Firstly, we are reminded that the resurrection could not happen without there first being a birth. This is a very obvious fact. Yet, how often, if at all, do we reflect upon the Advent and Christmas story in Lent, and the Lenten and Easter story in Advent? They are both connected and we cannot have one without the other.

Advent, although a penitential season, does not have the same 'feel' to it as Lent does. Throughout Lent we are called to reflect upon all we need to bring to God, for God's forgiveness, to give something up and consider alms giving.

God of all seasons,
 you call me to come to you in love.
 In love heal and forgive me,
 guide me into my next new beginning
 and help me to show my love for you,
 now and always,
 in and through Jesus Christ.

Amen.

Are these elements which can, or should, be included within the Advent weeks?

How would you do that and what would that mean to you?

Time has passed since Peter denied knowing Jesus (John 18:15-27) and now we see them together. The time has come for Peter to face Jesus, to look him in the eye, and know he is truly forgiven. Three times Jesus asks Peter whether or not he loves him. As Peter answers, his position as leader and as Cephas, the rock, is re-confirmed. For Peter to lead, he needs to remember his need to trust, listen and be guided by God.

If you were asked by Jesus 'Do you love me?', what would be your answer?

Is there a friendship that needs healing and a new beginning?

Dydd Sadwrn 9 Rhagfyr

Iesu'n Rhannu Awdurdod

Darllenwch drwy Mathew 9:35 – 10:1, 5-8

Ddoe, fe welson ni Pedr yn cael ei gwestiynu gan Iesu ynglŷn â faint yr oedd yn ei garu, a Pedr yn cael ei awdurdodi i fugeilio'r praidd. Yn narlleniadau heddiw, mae Iesu'n rhannu ei Awdurdod gyda'r disgyblion ac yn eu paratoi a'u galluogi i fynd allan i'r cynhaeaf. Fe'u hanfonir allan at bobl sydd, meddai Iesu, ar goll, fel defaid heb fugail. Mae llawer o waith i'w wneud, ond prin ydy'r gweithwyr.

Ai dyna'r sefyllfa heddiw hefyd? Lawer i'w wneud ond prinder o weithwyr!

Faint ydych chi'n fodlon ei rannu gydag eraill? Gall hyn fod gyda golwg ar unrhyw beth rydych yn ei wneud yn yr eglwys, neu'n berthnasol i baratoadau'r Nadolig. Sut allwch chi annog eraill i gyfranogi a defnyddio'r doniau a'r sgiliau sydd ganddyn nhw?

Ar ddiwedd y darlleniad hwn o'r Efengyl heddiw, ceir geiriau Iesu, yn dweud wrth ei ddisgyblion: 'Gan eich bod wedi derbyn y cwbl am ddim, rhowch yn rhad ac am ddim.' Mewn un ystyr, mae Iesu'n dweud bod yr hyn a roddwyd yn rhad ac

am ddim i chi – sef dysgeidiaeth Iesu – i'w roi yn rhad ac am ddim i'r rhai hynny fydd yn dod ar eich traws. Wrth gwrs, mae adegau lle mae gwasanaethu Duw a bod ynghlwm â gweinidogaethu yn gofyn derbyn 'tâl' a chydnyddiaeth o ryw fath. Ac eto, i lawer, mae rhannu'r ffydd a chynnig gweinidogaeth – p'un ai bod hyn wedi'i drwyddedu, ei gomisiynu, yn lleyg neu'n ordeiniedig, neu trwy fod yn aelod o gynulleidfa – yn amlach neu pheidio'n cael ei roi yn rhad ac am ddim ac mewn ffydd.

Beth ydy, neu beth all eich cyfraniad neu wasanaeth fod i'r Eglwys a/neu'r gymuned ehangach?

Trwy ein bedyddio, rydyn ni i rannu Newyddion Da Iesu. Mae'r Adfent a'r Nadolig yn datgelu sawl cyfle inni wneud hynny. Yn syml iawn, efallai y gall hyn fod trwy weinidogaeth lletygarwch i'r rhai hynny sy'n dod i'r eglwys ar gyfer y gwasanaethau arbennig yn ystod yr wythnosau hyn.

Tybed ai gweinidogaeth o groeso ydy'n un i chi?

Duw croeso,
datgela i mi'r doniau a'r sgiliau sydd gen i i dy wasanaethu di.
Annog fi i beidio ag oedi rhag helpu lle bo hynny'n bosib,
neu weddio dros y rhai sy'n fwy abl i wneud.
Helpa fi i rannu yng ngwaith y disgyblion, yma yn y lle hwn,
ac i groesawu pawb trwy gyfnod yr Adfent a'r Nadolig hwn.
Amen.

Saturday 9 December

Jesus Shares Authority

Read through Matthew 9:35 – 10:1, 5-8

Yesterday, we saw Peter being questioned by Jesus over how much he loved him, and Peter authorised to tend to the flock. In today's readings, Jesus shares his authority with the disciples and equips them with all they need to go out into the harvest. They are sent out to a people who Jesus says are lost, like sheep without a shepherd. There is much to do, but few to do the work.

Is that the same today? Much to do but not enough helpers!

How much are you willing to share with others? This may be in anything you do in church, or relating to the preparations for Christmas. How could you encourage others to participate and use the gifts and skills they have?

At the end of this Gospel passage for today are the words of Jesus, telling his disciples: 'You received without payment; give without payment.' In one sense, Jesus is saying that what has been freely given to you – the teaching of Jesus – should be given freely to those you meet. There are of

course times when serving God and being involved in ministry requires a 'payment' of some sort. Yet for many, the sharing of faith and offering a ministry – whether this is licensed, commissioned, lay or ordained, or through being a member of a congregation – is, more often than not, given freely in and with faith.


What is, or could be, your offering and service to the Church and/or wider community?


Through our baptism we are to share the Good News of Jesus. Advent and Christmas reveal many opportunities to do this. Very simply, this may be through the ministry of hospitality to those who come to church for the special services during these weeks.

Could your ministry be one of welcome?

God of welcome,
 reveal to me the gifts and skills I have through which to serve you.
 Encourage me not to delay in helping where I can,
 or praying for those more active.
 Help me to share in the disciples' work, here in this place,
 and to welcome all through this Advent and Christmas time.

Amen.





Ail Sul yr Adfent
10 Rhagfyr

Y Proffwydi

The Second Sunday of Advent
10 December

The Prophets

Gweddi'r Gannwyll

Goleuwn yr ail gannwyll ar dorch yr
Adfent

i'n hatgoffa o'r proffwydi a ddaeth â gair
Duw at y bobl.

Boed i leisiau'r proffwydi gael eu clywed
uwchlaw dwndwr ein byd heddiw,

llais sy'n llefaru dros gyflawnder,
maddeuant a heddwch;

llais i'n harwain i gyd at y Plentyn, hir
ddisgwyliedig yn ôl yr addewid,

yr hwn rydyn ni i gyd bellach yn aros
amdano.

Amen.

Candle Prayer

We light the second candle on the
Advent wreath

to remind us of the prophets who
brought God's word to the people.

May the prophets' voice be heard in the
world today,

a voice to speak out for justice,
forgiveness and peace;

a voice to guide all to the Child, long
promised,

for whom we now wait.

Amen.

Salm 85:8-12 (addasiad)

Dw i'n mynd i wrando beth sydd gan
Dduw i'w ddweud:

Ydy wir! Mae'r Arglwydd yn addo
heddwch

i'r rhai sy'n ei ddilyn yn ffyddlon -
ond rhaid iddyn nhw beidio troi'n ôl
at eu ffolineb!

Dw i'n mynd i wrando beth sydd gan
Dduw i'w ddweud.

Mae e'n barod iawn i achub y rhai sy'n ei
ddilyn e;

wedyn bydd ei ysblander i'w weld yn ein
tir eto.

Bydd cariad a gwirionedd yn dod at ei
gilydd;

bydd cyfiawnder a heddwch yn cusanu.

Dw i'n mynd i wrando beth sydd gan
Dduw i'w ddweud.

Bydd gwirionedd yn tarddu o'r tir,
a chyfiawnder yn edrych i lawr o'r
nefoedd.

Bydd yr Arglwydd yn rhoi pethau da i ni;
a bydd y tir yn rhoi ei gnydau.

Dw i'n mynd i wrando beth sydd gan
Dduw i'w ddweud.

O Dduw, rwy'ti wedi fy ngalw i i ddod
a gwrando ar dy air.

Wrth imi wrando,
agor fy ngenau i lefaru am dy gariad
a datgelu dy Bresenoldeb yn ein mysg.

Tyrd, dyma fy ngweddi.

Tyrd, yn Achubwr.

Tyrd, yn Ysbryd Glân.

Tyrd, yn Emaniwel.

Amen.

Psalm 85:8-12 (rewritten)

Let me hear what God the Lord will
speak.

For God will speak peace to the people
and the faithful will turn their hearts
towards God.

Let me hear what God the Lord will
speak.

For God's salvation and glory is at
hand, to dwell in our land.

And steadfast love and faithfulness will
meet;

righteousness and peace will come
together and kiss.

Let me hear what God the Lord will
speak.

Faithfulness will spring up from the
ground, a new pathway,
and from the sky, righteousness will
look upon us.

God will give what is good, and the land
will increase its yield.

Let me hear what God the Lord will
speak.

O God, you have called me to come
and listen to your word.

As I listen,
open up my voice to speak of your love
and reveal your Presence among us.

Come, I pray.

Come, as Saviour.

Come, as Holy Spirit.

Come, as Emmanuel.

Amen.

The Prophets – Speaking?

Y Proffwydi – yn Llefaru?

Roedd y proffwydi, fel y gwelwn yn y Beibl, yn gymysgedd go amrywiol o bobl. Fe'u galwyd yn benodol gan Dduw i lefaru gair Duw i'r bobl, ac fe gafodd y neges a draddodwyd ganddyn nhw effaith ddylanwadol iawn ar y ddealltwriaeth o sut roedd Duw ar waith yn eu plith. Roedd y neges a lefarwyd ganddyn nhw yn aml fel cleddyf daufiniog ac yn anodd ei llyncu!

Golyga hyn na chafodd y proffwydi hi'n hawdd ac roedd llawer un yn anfodlon iawn i ymgymryd â'r cyfrifoldeb. Cymerwch Moses, wrth siarad â Duw ger y llwyn oedd ar dân (Exodus 3), yn trio osgoi ei alwad trwy ddweud 'Plîs, Meistr, dw i ddim yn siaradwr da iawn - dw i erioed wedi bod, a fydda i byth chwaith. Mae gen i atal dweud, a dw i'n ei chael hi'n anodd siarad' (Exodus 4:10). Cafodd yr ateb, sef y byddai Aaron yn siarad ar ei ran! (Exodus 4:16). Yn y Testament Newydd, y proffwyd ydy Ioan Fedyddiwr, a gaiff ei goffáu'r wythnos nesaf, ar Drydydd Sul yr Adfent.

Rôl y proffwyd oedd llefaru gair Duw i'r bobl, i ddweud wrthyn nhw beth oedden nhw'n ei wneud yn anghywir a galw arnyh nhw i edifarhau. Bod yn broffwyd oedd camu allan o'u dedwyddwch a thrwy lefaru gair Duw, bod yn feirniadol ac ar yr un amser geisio ail-danio'r bobl o'u hanobaith. Fe fyddai proffwydi'n defnyddio iaith farddonol a delweddau i ddeffro dychymyg eu gwrandawyr, gyda'r gobaith o greu sylweddoliad dyfnach o'r newidiadau y byddai'n rhaid eu gwneud.

The prophets, as we see in the Bible, were a very mixed and varied group of people. They were specifically called by God to speak God's word to the people, and the message they brought had a major influential effect upon the understanding of how God was at work among them. The message they gave was often hard-hitting and to the point!

This meant that the prophets did not always have an easy time, and many were reluctant to take on the job. Moses, speaking to God at the burning bush (Exodus 3), tried to get out of it by saying 'I have never been eloquent' and 'I am slow of speech and slow of tongue' (Exodus 4:10). The answer being that Aaron would be his voice! (Exodus 4:16). In the New Testament, the prophet is John the Baptist, who is remembered next week, on the Third Sunday of Advent.

The role of the prophet was to speak God's word to the people, to tell them what they were doing wrong and call them to repent. To be a prophet was to step outside their comfort zone and, through speaking God's word, be critical and at the same time seek to re-energise the people out of their despair. Prophets would use poetic language and imagery to engage the imagination of their listeners in the hope of producing a deeper realisation of the changes that needed to be made.

oedden nhw'n llefaru yn eu hoes a'u hamser, gan ddatgan gofid dwfn o weld pa mor bell roedd y bobl wedi symud oddi wrth Dduw ond, trwy eu proffwydo, yn cynnig gobaith, i'r presennol ac i'r dyfodol. Gellir gweld un addewid gobaith yn Eseia 9, sef y plentyn oedd i'w eni.

Pwy ydy'r proffwydi sydd i'w gweld yn llefaru yn ein byd heddiw?

Pwy ydy'r proffwydi sydd i'w gweld yn llefaru o fewn yr Eglwys heddiw?

They spoke into their own time, lamenting upon how far the people had travelled from God, but through their prophecy gave hope, for the present and for the future. One promise of hope can be seen in Isaiah 9 and the child who will be born.

Who are the prophets seen speaking within the world of today?

Who are the prophets seen speaking within the Church of today?

Darlleniadau Ail Sul yr Adfent

Rhai meddyliau cychwynnol:

Eseia 40:1-11 Eseia'n llefaru geiriau Duw: 'Cysurwch nhw; cysurwch fy mhobl i,' – dyna mae eich Duw yn ei ddweud'. 'Byddwch yn garedig wrth Jerwsalem, a dweud wrthi fod y dyddiau caled drosodd', wedyn 'Mae llais yn gweiddi'n uchel: "Cliriwch y ffordd i'r Arglwydd yn yr anialwch; gwnewch briffordd syth i Dduw drwy'r diffeithwch'" (1-3).

2 Pedr 3:8-15a 'Peidiwch anghofio hyn, ffrindiau annwyl: I'r Arglwydd mae un diwrnod fel mil o flynyddoedd, a mil o flynyddoedd fel un diwrnod' (8). 'Ond dyn ni'n edrych ymlaen at y nefoedd newydd a'r ddaear newydd mae Duw wedi'i haddo, lle bydd popeth mewn perthynas iawn gydag e' (13).

Marc 1:1-8 Mae Eseia'n sôn am negesydd a fydd yn paratoi'r ffordd ac meddai Marc wrthyn ni, 'Dyna beth wnaeth Ioan – roedd yn bedyddio pobl yn yr anialwch ac yn cyhoeddi fod hyn yn arwydd eu bod yn troi cefn ar eu pechodau ac yn derbyn maddeuant gan Dduw' (4).

The Readings for the Second Sunday of Advent

A few initial thoughts:

Isaiah 40:1-11 Isaiah speaks God's words: 'Comfort my people, says your God', 'Speak tenderly to Jerusalem, and cry to her', followed by 'A voice cries out: "In the wilderness prepare the way of the Lord"' (1-3).

2 Peter 3:8-15a 'With the Lord one day is like a thousand years, and a thousand years are like one day' (8). 'We wait for new heavens and a new earth, where righteousness is at home' (13).

Mark 1:1-8 Isaiah speaks of a messenger who will prepare the way, and Mark tells us, 'John the baptizer appeared in the wilderness, proclaiming a baptism of repentance for the forgiveness of sins' (4).

Disgwyl ar Dduw

Cyn gynted ag y bydden ni'n agor ein cegau a llefaru, does dim modd inni dynnu'n ôl unrhyw eiriau rydyn ni wedi'u hyngan. Mae'n ddigon posib bod adegau lle fasen ni wedi dymuno gwneud hynny, neu adegau lle wnaethon ni gadw'n dawel yn hytrach na dweud yr hyn oedd angen ei ddweud. Efallai y base'n well gan y proffwydi fod wedi cadw'n dawel ambell waith, ond allen nhw ddim. Eu dyletswydd nhw oedd llefaru, ac i barhau i lefaru geiriau Duw; geiriau a ddisgynnodd yn aml ar glustiau byddar. Doedd eu neges feirniadol ddim yn un a oedd yn hawdd gwrando arni. Ac eto, roedd yn neges o ryddhad a chariad, neges am daith barhaus o ddarganfyddiad ynglŷn â'r hyn roedd yn ei olygu i fod yn bobl Dduw.

- **Meddyliwch am eich taith ffydd eich hunan. Beth mae'n ei olygu i fod yn rhan o bobl Dduw, wedi'ch bedyddio i mewn i deulu Duw?**
- **Pa eiriau fasech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio'r daith honno?**
- **Pa lyfrau neu adnodau o'r Beibl sydd wedi 'siarad' â chi mewn ffordd arbennig i helpu dyfnhau eich ffydd?**

Mae Eseia'n cynnig cysur i'r rhai hynny mewn anobaith ac yn teimlo'n bell oddi wrth Dduw, ac mae ei neges yn dod trwy gyfrwng iaith maddeuant. Mae hefyd yn ymwneud â gweithredu. Mae Duw'n dweud 'Cysurwch fy mhobl i', ond os ydy'r cysur hwn i'w deimlo i'r byw gan yr holl genhedloedd, yna mae'n rhaid paratoi'r ffordd, ac yn gyntaf, mae'n rhaid i'r bobl fod yn barod i glywed gwirionedd gair Duw iddyn nhw.

Waiting upon God

Once we open our mouths and speak we can never take back the words which we have uttered. There may have been times when we wished we could do so, or times when we kept silent instead of speaking out. The prophets may have preferred to have kept silent, but they couldn't. Their role was to speak, and to carry on speaking God's words; words which often fell on deaf ears. Their critical message was one that was not easy to listen to. Yet it was a message of liberation and love, a message about an ongoing journey of discovery about what it meant to be a people of God.

- **Think about your own journey of faith. What does it mean to be a part of the people of God, baptised into the family of God?**
- **What words would you use to describe that journey?**
- **Which books or verses from the Bible have 'spoken' to you in a special way to help deepen your faith?**

Isaiah offers comfort to those in despair and feeling far from God, and his message comes through the language of forgiveness. It is also about action. God says 'Comfort my people', but if this comfort is to be known by all nations, then the way has to be prepared, and firstly, the people have to be ready to hear the truth of God's word to them.



- Pa eiriau o gysur a gobaith sydd angen eu llefaru i'n byd, i bwy a gan bwy?
- Pa eiriau o gysur a gobaith sydd angen i ni eu llefaru, ac i bwy, wrth inni baratoi ein hunain ar gyfer dyfodiad y Nadolig?

Mae'r bobl yn cael eu galw i ddelio â realaeth y byd maen nhw'n byw ynddi ac i wybod - gwybod eto - bod Duw hefo nhw. Gan lefaru geiriau Duw, mae'r proffwydi yn datgelu geiriau na fydd byth yn mynd yn angof, ond yn hytrach yn eiriau y mae'n rhaid eu gwranddo, gan mai geiriau gwirionedd ydy geiriau Duw. Darllenwn yn Deuteronomium (18:22) os nad ydy geiriau'r proffwydi'n profi'n wir, nad proffwydi wedi'u hanfon gan Dduw ydyn nhw. Yn ein byd heddiw, gall y gwirionedd yn aml fynd ar goll ymysg toreth o eiriau. Mae gofyn cael dirnadaeth, nid yn unig ar gyfer ein siwrne ninnau o ddisgwyl a gwranddo ar Dduw yn ein bywydau, ond hefyd yn fyd-eang. Sut mae modd inni ddirnad y gwirionedd mewn gwleidyddiaeth, er enghraifft? Sut rydyn ni'n penderfynu ynglŷn â beth i'w fwyta pan geir cymaint o newidiadau a negeseuon gwrthgyferbyniol yn y 'ffeithiau' am fwydydd sy'n dda, neu'n ddrwg inni?

- Mae Peilat, cyn trosglwyddo Iesu, yn gofyn 'Beth ydy gwirionedd?' (Ioan 18:38). Mae'n debygol iawn y byddai Joseff wedi bod yn meddwl beth oedd y gwirionedd pan ddatgelodd Mair ei bod yn feichiog. Beth ydy eich dealltwriaeth chi o'r gair 'gwirionedd'? (Hynny ydy, mewn perthynas â'r ffydd, bywyd yn gyffredinol, ac yn y byd ehangach, yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn wleidyddol).

- What are the words of comfort and hope which need to be spoken into our world, to whom and by whom?
- What words of comfort and hope do we need to speak, and to whom, as we prepare ourselves for the coming of Christmas?

The people are called to engage with the reality of the world in which they live and to know – know again – that God is with them. Speaking God's words, the prophets reveal words which will never fade away, but words that have to be listened to, for the words of God are the words of truth. We read in Deuteronomy (18:22) that if the words of the prophets do not prove true, they are not prophets sent by God. In the world today, truth can often be hidden amidst an array of words. Discernment is needed, not only for our journey of waiting upon and listening to God in our lives, but also in the wider world. How do we discern the truth within politics, for example? How do we decide what to eat when there are changing 'facts' about which foods are, or are not, good for us?

- Pilate, before handing Jesus over, asks 'What is truth?' (John 18:38). Joseph probably wondered about the truth when Mary revealed she was having a baby. What do you understand about the word 'truth'? In relation to faith, life in general, and in the wider social, economic, political world?

Teimlo'n Greadigol?

Gellir cyflawni hyn yn unigol neu mewn grŵp Ar ddarn o bapur, sgwennwch y gair **GOBAITH** – defnyddiwch wahanol liwiau, lliwiwch/torrwch allan pob llythyren, ei beintio a'i addurno – a'i osod gyda'r preseb o'r wythnos ddiwethaf, mewn man lle medrwch ei weld wrth ichi weddio a disgwyl ar Dduw yn ystod y dyddiau'r Adfent hwn.

Be Creative?

This can be done alone or in a group. On a piece of paper write the word **HOPE** – use different colours, colour in/ cut out each letter, paint it, decorate it – and place it with the crib from last week, where you can see it as you pray and wait upon God during these days of Advent.

Yr wythnos ddiwethaf, fe wnaethon ni gymryd golwg ar ddyfyniad gan Esgob El Salvador, Oscar Romero. Sgwennodd hyn hefyd:

Gweithwyr ydyn ni, nid prifadeiladwyr, gweinidogion, nid Meseiaid. Proffwydi dyfodol na fyddwn ni'n rhan ohono ydyn ni.

- **Beth sy'n dod i'ch meddyliau chi gyntaf wrth ddarllen y dyfyniad hwn?**

Yn ei lyfr, *The Prophetic Imagination*, mae Walter Brueggemann yn sgwennu bod proffwydoliaeth yn ymwneud â'r bach a'r lleol yn gymaint â'r mawr a'r rhyngwladol. Mae'n datgan, mewn perthynas â gweinidogaeth:

Yn hytrach, mae gweinidogaeth broffwydol yn cynnwys cynnig dirnadaeth wahanol o realaeth a chaniatáu i bobl weld eu hanes eu hunain yng ngoleuni rhyddid Duw a'i ewyllys o am gyfiawnder. Dydy materion yn ymwneud â rhyddid Duw a'i ewyllys o am gyfiawnder ddim bob amser yn cael eu mynegi ym materion mawr y dydd, a does dim angen iddyn nhw fod. Gellir eu dirnad lle bynnag y ceir pobl yn ceisio byw'n gytûn a phoeni am eu dyfodol a'u hunaniaeth. (tudalen 110)

Last week we looked at a quote from the Bishop of El Salvador, Oscar Romero. He also wrote:

We are workers, not master builders, ministers, not Messiahs. We are prophets of a future not our own.

- **What are your initial thoughts on this quote?**

In his book *The Prophetic Imagination*, Walter Brueggemann writes of prophecy being concerned about the small and local as much as being about the big and the international. He writes in relation to ministry that:

Rather, prophetic ministry consists of offering an alternative perception of reality and in letting people see their own history in the light of God's freedom and his will for justice. The issues of God's freedom and his will for justice are not always and need not be expressed primarily in the big issues of the day. They can be discerned wherever people try to live together and worry about their future and their identity. (page 110)

Mae Oscar Romero a Brueggemann, ynghyd â phroffwydi megis Eseia, yn ein hatgoffa bod gofyn inni lefaru heddiw, ar gyfer heddiw, er mwyn sicrhau dyfodol o ryddid eto'i ddod. Fel gyda phobl Israel, fe'n galwyd ninnau i ail-ymegnïo yn ein ffydd a thrwy hynny gymryd yr egni hwnnw yn ôl allan i'r byd. Cyn inni allu ailgysylltu, a llefaru gair Duw i'r byd, rhaid inni'n gyntaf glywed a gwrandao ar y gair hwnnw'n llefaru i'n bywydau ni'n hunain a bywyd ein heglwysi.

- **Sut fyddai modd i'r Eglwys geisio bod yn fwy proffwydol yn y geiriau mae'n eu llefaru ac yn ei gweithredoedd?**

Mae Efengyl Marc yn adleisio proffwydoliaeth Eseia y mae'n ei weld yn cael ei chyflawni ym mherson Ioan Fedyddiwr, a alwodd allan yn y diffeithwch a pharatoi'r ffordd am ddyfodiad Iesu, y Meseia a addawyd. Llefarodd proffwydi'r Hen Destament i'r dyfodol, a gyda Ioan, roedd y dyfodol hwnnw'n digwydd. Roedd yr Un gafodd ei addo wedi dod, ac fe ddaw gair Duw yn Air Duw.

Ar yr adeg hon o'r Adfent, parhau i fod yn amser yr aros ydyn ni.

Wrth Edrych tuag at y Nadolig

Dilynodd Iesu'r traddodiad proffwydol o herio cyfundrefnau, rheolau a hualau ei ddydd. Ceisiodd ailgynnu fflam ei bobl trwy lefaru am gariad, heddwch a derbyn pawb. Yn Ei eni, daeth i sefyll ochr-yn-ochr â phawb er mwyn dod â geiriau o gysur a gobaith, cyfiawnder a heddwch.

Oscar Romero and Brueggemann, along with prophets such as Isaiah, remind us that we need to be speaking today, for today, to ensure a future of freedom still to come. As with the people of Israel, we are called to be re-energised in our faith and so take that energy back out into the world. Before we can engage, and speak God's word into the world, we first have to hear and listen to that word speaking into our own life and the life of our churches.

- **How may the Church seek to be more prophetic in its word spoken and in its action?**

The Gospel of Mark echoes the prophecy of Isaiah which he sees as being fulfilled in the person of John the Baptist, who cried out in the wilderness and prepared the way for the coming of Jesus, the promised Messiah. The prophets of the Old Testament spoke into the future, and in John that future was taking place. The promised One had come, and God's word will become God's Word.

At this moment in Advent we are still in the waiting time.

Looking towards Christmas

Jesus followed the prophetic tradition of challenging the structures, rules and constraints of his day. He sought to re-energise people through speaking of love, peace and acceptance of all. In his birth he came to stand alongside everyone to bring words of comfort and hope, justice and peace.

Wrth inni ddisgwyl ar Dduw trwy wythnosau nesaf yr Adfent, sut all ein gweddi adlewyrchu geiriau'r proffwydi i newid y byd o'n cwmpas? Mewn gweddi, mae hi'n bwysig nid yn unig i sicrhau bod materion o gyfiawnder, gobaith a chysur yn cael eu cynnwys, ond i chwilio sut all y gweddiâu hynny ein symbylu i weithredu.

As we wait upon God through these next few weeks of Advent, how can our prayer reflect the prophets' words to change the world around? In prayer, it is important not simply to ensure that issues of justice, hope and comfort are included, but to seek how those prayers may engage us in action.

Y Goeden Nadolig

Treuliwch ychydig o amser yn edrych ar, a myfyrio ar unrhyw beth wnaethoch chi'i osod ar y Goeden yn ystod y dyddiau diwethaf.

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei gynnwys?

Sgwennwch y gair **GOBAITH** ar y Goeden.

The Christmas Tree

Spend a little time looking at, and reflecting upon, anything that you put onto the Tree during the last few days.

Is there anything else you would like to include?

Write the word **HOPE** onto the Tree.

Gweddi i Gloi

Duw rhyddhad a rhyddid,
rwy't ti'n ein galw a dy bobl i gyd allan o
anobaith

i ymgysylltu â ffydd, yn y byd sydd
ohoni.

**Boed i'r geiriau rwy'n eu llefaru fod yn
rhai o her gariadus,**

**Boed i'm geiriau ddod â chysur a
gobaith.**

**Boed imi beidio ag anghofio
gwirionedd dy gariad,**

**yn ystod prysurdeb yr wythnosau hyn
sydd i'w datgelu trwy fabi sydd am ei
eni fel yr addawyd gan dy broffwydi.**

Duw rhyddhad a rhyddid,

**ymegnia fi unwaith eto trwy dy
Ysbryd Glân**

**i fyw fel gwnest ti fy ngalw i wneud,
ac i ddisgwyl arnat ti, bob amser.**

Amen.

Closing Prayer

God of liberation and freedom,
you call us and all your people out from
despair

to engage with faith, in the present
world.

**May my words spoken be ones of
loving challenge.**

May my words bring comfort and hope.

**May I not forget the truth of your love,
during the busyness of these weeks,
revealed in a baby born as promised by
your prophets.**

God of liberation and freedom,
**re-energise me through your Holy
Spirit**

**to live as you call me to, and to wait
upon you, always.**

Amen.

Dydd Llun 11 Rhagfyr

Iachau'r Claf o'r Parlys

Darllenwch drwy Luc 5:17-26

Dyma ichi stori'n llawn delweddau hyfryd. Hawdd ydy hi inni dychmygu'r olygfa: sŵn parablu mân-siarad, yr arogleuon yn codi o le cyfyng yn llawn pobl ac yna'n ddisymwth, llwch a rwbel yn disgyn oddi uchod a golau dydd yn treiddio uwchben. Gallwch fentro bod perchnogion yr adeilad wedi'u synnu o weld y to'n cael ei rwygo ar agor a dyn yn cael ei ostwng i'r ystafell gan ei ffrindiau. Mae yna ddywediad adnabyddus sy'n annog 'Dyfal donc a dyr y garreg'. Wel, yn y stori yma, mae rhywrai wedi gweithredu'n llythrennol ar hyn a dymchwel y to i gyd!

Dyma ichi stori am angen a ffydd, am bechod a maddeuant, am salwch ac iachâd. Ymysg y bobl yn y cynulliad hwn fe geir Phariseaid sy'n gwrando'n astud, a chyn gynted ag y mae Iesu'n maddau i'r dyn ac yn ei iacháu, dyma nhw'n datgan ei fod yn llefaru cabledd. Maen nhw am wybod pwy ydy'r Iesu hwn, gan mai dim ond Duw caiff iacháu a maddau.

Beth ydy iachâd a maddeuant?

Lle y tybiech chi y mae angen iachâd a maddeuant yn ystod yr wythnosau hyn o Adfent, ac adeg y Nadolig?

Lle bynnag yr aeth Iesu, roedd pobl eisiau agosáu ato, a'i glywed yn siarad. Yn y stori hon ac mewn sawl un arall yn yr Efengylau, darllenwn na chafodd Iesu fawr o amser iddo fo'i hun. Efallai bod dychmygu'r tŷ gorlawn yn ein darlleniad heddiw yn gwneud ichi hel meddyliau am Ddiwrnod Nadolig gyda phawb yn ceisio gwasgu'n dynn o amgylch y bwrdd bwyd, neu ganfod un lle bach sbâr i eistedd yn y lolfa ynghanol yr anrhegion!

Mae'n bosib felly y bydd hi'n anodd ichi, ar Ddiwrnod Nadolig, a'r dyddiau a'r wythnosau nesaf sy'n arwain at yr Ŵyl, i ganfod fawr o lonydd a thawelwch.

Pryd a lle gewch chi amser i chi'ch hun?

Cofiwch mewn gweddi'r rhai hynny fydd wrth eu hunain, heb gwmni, y Nadolig hwn.

Duw pawb a phopeth,
gydol wythnosau'r Adfent hwn helpa fi i geisio dy faddeuant,
trwy edifeirwch gonest a gweddigar.
Tyrd â dy faddeuant a dy iachâd cariadlon
fel y gallaf fyw fy mywyd mewn ffydd ac er gogoniant i dy Enw.

Amen.

Monday 11 December

Healing the Paralytic

Read through *Luke 5:17-26*

This is a story with wonderful imagery. We can imagine the scene: the sounds of conversation, the scents coming from lots of people squashed into a small space, and then from above the falling of dust and rubble and light appearing. It must have been a surprise to the owners to find their roof being opened up and a man lowered into the room by his friends. There is a saying, 'If at first you don't succeed, try, try and try again.' When looking at this story, it's more a case of, 'If at first you don't succeed, try another way and demolish the roof'!

This is a story of need and faith, of sinfulness and forgiveness, of ill health and healing. Among the people gathered together are some Pharisees who listen intently, and when Jesus forgives and heals the man, they say he is speaking blasphemy. They want to know who Jesus is, as only God can heal and forgive.

What is healing and forgiveness?

Where may healing and forgiveness be needed during these Advent weeks, and at Christmas time?

Wherever Jesus went, people wanted to get close to him, and to hear him speak. In this story and in many others in the Gospels, we read that Jesus rarely seems to get much time alone, time to himself. Maybe thoughts of the crowded house in today's Gospel take your mind to Christmas Day and trying to squeeze people around a table to eat, or find space to sit amidst piles of presents.

It may be that your own Christmas Day and the coming days over the next few weeks are ones where it is difficult to find peace and quietness.

When and where can you get time to yourself?

Remember in prayer those who will be alone, without company, this Christmas.

God of all,
through these Advent weeks help me seek your forgiveness
through honest and prayerful repentance.
Bring to me your loving forgiveness and healing
so I may live my life in faith and to the glory of your Name.

Amen.

Dydd Mawrth 12 Rhagfyr

Cael hyd i'r Colledig

Darllenwch drwy Mathew 18:12-14

Mor hawdd ydy hi i roi rhywbeth i lawr, neu mewn man diogel, ac yna methu cael hyd iddo! Nid dameg y ddafad aeth ar goll ydy'r unig stori yn yr Efengylau sy'n sôn am chwilio am yr hyn a gollwyd. Yn Luc 15: 8-10, er enghraifft, cawn ddarllen am y wraig a lanhaodd ei thŷ o'r top i'r gwaelod er mwyn cael hyd i ddarn arian.

Sut deimlad ydy hi i golli rhywbeth?

Sut deimlad ydy hi pan ddewch o hyd iddo?

Unwaith y ceir hyd i rywbeth a fu ar goll, mae yna ddathlu mawr. Mae'n ddigon tebyg mai rhyddhad ydy rhan o'r dathlu hwn, ynghyd â diolchgarwch. Wrth i Iesu addysgu trwy ddefnydd damhegion, ceir pob tro ystyr dyfnach yn y straeon mae'n eu hadrodd. Yn syml iawn, mae Iesu'n cadw'r defaid gyda'i gilydd ac yn chwilio'n ddyfal, ddiflino hyd nes dod o hyd i'r un sydd ar goll. Dyma'r Duw na allodd gadw'i bellter oddi wrthyn ni, ond yn hytrach, yn a thrwy enedigaeth Iesu, mae hefo ni, pan fyddwn ni ar goll a phan fyddwn ni'n ôl yn ddiogel.

Beth mae hyn yn ei ddweud wrthyn ni ar ein taith o ffydd?

Fe allen ni gymryd y cymal 'ar goll' mewn cyd-destun llawer ehangach: 'ar goll' yn nhywyllwch anobaith, profedigaeth, iselder, dryswch. Wrth symud trwy'r wythnosau hyn o Adfent tuag at y Nadolig, gall yr ymdeimlad yma o fod 'ar goll' ddwysáu; hyd yn oed ymysg teulu a ffrindiau. Fe all bod adegau lle rydyn ni'n teimlo 'ar goll' ac yn chwilio am ystyr a phwrpas newydd, a chael ein derbyn. Mae'n bosib inni deimlo 'ar goll' ar ein taith o ffydd.

Os buoch chi'n teimlo 'ar goll', pwy fu'n gymorth ichi?

Yn y ddameg hon fe glywn adleisiau'r llais proffwydol, a lefarodd i bobl 'colledig' Israel, yn eu galw'n ôl adref. Addewid Duw sy'n cael ei lefaru rwan trwy Iesu ydy bod chwilio amdanon ni ac na fydd Duw yn rhoi'r gorau inni, waeth pa mor 'golledig' fyddwn ni'n teimlo 'ar goll' weithiau.

O Dduw,

fe wnest ti osod seren yn y ffurfafen i ddisgleirio'n llachar i arwain llawer at y preseb. Arwain finnau trwy'r amserau hynny pan fyddaf yn teimlo 'ar goll', a dyfnhau o'm mewn y gwirionedd dy fod gyda fi bob amser, ac ynot ti dwi'n cael fy nghanfod a'm caru.

Amen.

Tuesday 12 December

Finding the Lost

Read through *Matthew 18:12-14*

How easy is it to put something down, or in a safe place, and then be unable to find it? The parable of the lost sheep isn't the only story we find in the Gospels of searching for the lost. In Luke 15:8-10, for example, we read of the woman who swept through her house to find a coin she had lost.

How does it feel when you have lost something?

What does it feel like when it is found?

Once what was lost is found, there is great rejoicing. No doubt this rejoicing is in part through relief, and in part thanksgiving. As Jesus teaches through the use of parables, there is always a deeper meaning in the stories he tells. Very simply, Jesus leaves the sheep together and does not stop searching until the lost one is found. This is the God who could not remain distant from us, but in and through the birth of Jesus is with us, when we are lost and when we are found.

What does this say to us on our faith journey?

We could take the word 'lost' in a much broader context: 'lost' in the darkness of despair, bereavement, depression, confusion. Moving through these Advent weeks towards Christmas, this sense of being 'lost' can become more intense; even in the midst of family and friends. There may be times when we feel 'lost' and are searching for new meaning, purpose, and acceptance. We may feel 'lost' on our faith journey.

If you have felt 'lost', who has helped you?

In this parable we hear echoes of the prophetic voice, which spoke to the 'lost' people of Israel, calling them home. The promise of God spoken now through Jesus is that we are searched for and God will not give up on us, no matter how 'lost' we may feel at times

O God,
 you placed a star in the sky to shine brightly to guide many to the crib.
 Guide me through times when I feel lost,
 and deepen within me the truth that you are always with me,
 and in you I am 'found' and loved.

Amen.

Dydd Mercher 13 Rhagfyr

Peidiwch bod Ofn

Darllenwch drwy Mathew 10:24-32

Mae dau beth i dynnu o'r darlleniad heddiw, y cyntaf o eiriau Iesu'n dweud wrthyn ni i beidio ag ofni. Yr ail ydy i ystyried beth mae'n ei feddwl i fod yn werthfawr i Dduw, hefo Fo ac ynddo Fo rydyn ni i gyd yn gydradd â'n gilydd.

Ceir yr ymadrodd 'Paid bod ofn' sawl gwaith trwy'r Beibl, yn yr Hen Destament a'r Newydd fel ei gilydd. Mae'r cyd-destun lle gosodir y geiriau 'Paid bod ofn' ynghylch ffydd ac ymddiriedaeth yn Nuw. O'r darn a ddarllenwyd heddiw, mae'n golygu peidio bod ofn cyhoeddi geiriau ffydd o bennau'r bryniau! Efallai bod hynny'n codi ofn arnon ni, ac eto rydyn ni'n ffodus bod hi'n dal yn bosib inni ddatgan ein ffydd Gristnogol, tra bo Cristnogion mewn gwledydd eraill yn wynebu erledigaeth am ddatgan eu ffydd.

Faint o bobl sy'n gwybod eich bod yn mynd i'r eglwys?

Petai rywun yn gofyn, sut fasech chi'n ateb y cwestiynau 'Pam eich bod chi'n mynd i eglwys?' a 'Beth mae eich ffydd yn ei olygu i chi'?

Mae'r neges broffwydol 'Paid bod ofn' yn bwysig, ac yn ein harwain tuag at ffydd sy'n datgan ein bod yn werthfawr i Dduw. Mae cydraddoldeb yn y cyflwr yma o fod yn werthfawr. Dydy statws, cyfoeth, addysg, lle rydyn ni'n byw, beth sydd gynnwys ni neu ddim gynnwys ni, ddim yn bwysig i Dduw; yr hyn sydd yn bwysig ydy ein bod ni'n byw trwy ein ffydd, ac yn ei rhannu.

Nid pawb ohonon ni sy'n cael ein galw i fyw a bod fel y proffwydi gynt, ond mi rydyn ni'n cael ein galw i rannu ein ffydd. Mae'r Adfent, a'r cyfnod sy'n arwain at y Nadolig, yn cynnig cyfle ardderchog inni wneud hynny. Mae sawl ffordd y gallwn ni rannu'n ffydd yn dawel fach ac adrodd stori Iesu.

Faint o gardiau Nadolig wnaethoch chi eu danfon, neu wrthi'n sgwennu, sydd â llun o stori'r Nadolig cyntaf arnyn nhw? Wnaethoch chi brynu stampiau Nadolig Cristnogol?

Pwy fasech chi'n gallu eu gwahodd i ymuno â chi mewn rhai o'r gwasanaethau arbennig sydd i'w cynnal yn yr eglwys?

O Dduw,
rho ffydd imi sy'n dyfnhau o ddydd i ddydd.
Helpa fi i beidio bod ofn o ganfod ffyrdd i rannu fy ffydd,
i dy gydnabod di ym mhopeth dwi'n gwneud,
ac i wybod fy mod i'n wirioneddol werthfawr i ti.

Amen.

Wednesday 13 December

Do Not Be Afraid

Read through Matthew 10:24-32

There are two thoughts to draw from the Gospel for today, the first taken from Jesus' words telling us not to be afraid. The second is to consider what it means to be valued by God, with whom and in whom we are all equal.

The phrase 'Do not be afraid' is found countless times throughout the Bible; in the Old and the New Testaments. The context in which the words 'Do not be afraid' are placed is around faith and trust in God. From the passage read today, it's not to be afraid to shout words of faith from the rooftops! Maybe that does make us afraid, and yet we are fortunate that we can proclaim our Christian faith, when Christians in other countries face persecution for declaring their faith.

How many people know you go to church?

If asked, how would you answer the questions, 'Why do you go to church' and 'What does your faith mean to you'?

The prophetic message 'Do not be afraid' is important, and leads us towards a faith which says we are valued by God. There is equality in this state of being valued. Status, wealth, education, where we live, what we have or don't have, is not important to God; what is important is that we live by our faith, and share it.

We are not all called to be, and live, as the prophets did, but we are all called to share our faith. Advent, and the lead-up to Christmas, offers us a wonderful opportunity to do this. There are many ways in which we can quietly share our faith and tell the story of Jesus.

How many Christmas cards did you send, or are still sending, which have pictures of the Nativity on them? Did you buy Christian Christmas stamps?

Who could you invite to join you at some of the special services taking place in church?

O God,
give me an ever-deepening faith in you.
Help me not to be afraid to find ways of sharing my faith,
to acknowledge you in all I do,
and to know that I am truly valued by you.

Amen.

Dydd Iau 14 Rhagfyr

Cadwch fy Ngair

Darllenwch drwy Ioan 14:18-23

Mae'r darn hwn yn ein tywys i'r cyfnod wedi'r golchi traed a chyn i Iesu gael ei gipio a'i arestio. Mae'n ein cymryd ni at y Grawys ac at wedd arall, sy'n ein hatgoffa sut mae'r Grawys a'r Adfent yn gydgysylltiedig. Mae geiriau'r proffwydi yn addo dyfodiad Emaniwel, Duw gyda ni, yn troi yn y darn yma yn addewid y bydd Duw yn Iesu gyda ni bob amser.

Efallai y bydd hi'n gymorth i ddarllen adnodau 15-17 yn Ioan 14 hefyd. Yn yr adnodau hynny, mae Iesu'n siarad am ddyfodiad yr Ysbryd Glân, a ddaw a phreswyllo ynon ni. Fel yr ymddiriedodd Duw'r Mab i gael Ei eni i'r byd, felly mae Iesu rŵan yn ymddiried yr Ysbryd i breswyllo ynon ni. Ysbryd y gwirionedd, yr Eiriolwr, a fydd yn ein harwain, ein hannog, ac yn ein tywys ar hyd llwybr bywyd. Mae'n rhaid bod hyn oll wedi bod braidd yn ddryslud i'r disgyblion.

Beth ydy eich dealltwriaeth chi o waith yr Ysbryd Glân?

Sut fasech chi'n disgrifio, dychmygu neu ddarlunio'r Ysbryd Glân?

Er mwyn i Dduw breswyllo ynon ni, mae Iesu'n dweud ein bod i gadw'i air, i gadw'i orchmynion a'i garu O. Rydyn ni i sicrhau gair Duw yn ein calonnau a'n bywydau, geiriau o gariad a ffydd a ymddiriedwyd i bawb sy'n caru Duw. Gan ddilyn ymlaen o'n myfyrdod ddoe, dyma ichi eiriau na allwn ni gadw i ni'n hunain; yn hytrach, rydyn ni i'w rhannu yn a thrwy'r ffordd rydyn ni'n byw ein bywydau.

Fe dderbyniodd Mair a Joseff yr her o eni a magu Gair Duw, sef Iesu. I Mair, daeth preswyliaid Duw i olygu cyfarfyddiad, a pherthynas bersonol iawn, trwy iddi feichiogi. Nid ein bod ninnau'n cael ein galw gan Dduw i 'gadw'i Air' yn y modd neilltuol yna, and mae'r Gair hwnnw yn preswyllo o'n mewn; ac fe'n gelwir ni i ddyfnhau'r Gair ynon ni o ddydd i ddydd.

Sut allech chi ddyfnhau'r Gair hwnnw ynoch chi, dydd wrth ddydd?

Sut allech chi gadw a 'geni' Gair Duw, sef, yn ystod y daith trwy Adfent at y Nadolig?

O Dduw,

fe wnest ti lefaru ac fe ddaeth dy Air i gael ei eni.

Wrth i mi aros eto am y geni hwnnw, tywallta Ysbryd y gwirionedd arna i

i agor fy nghalon i dy bresenoldeb o'm mewn,

a thrwy weddi ac astudiaeth a chariad,

boed imi gadw dy air o ddydd i ddydd.

Amen.

Thursday 14 December

Keep My Word

Read through John 14:18-23

This passage in John takes us to the time after the foot washing and before Jesus is taken and arrested. It takes us to Lent and to another reminder of how Lent and Advent are interconnected. The words of the prophets who promised Emmanuel, God with us, become in this passage a promise that God in Jesus will always be with us.

It may help to read verses 15-17 of John 14 as well. In those verses Jesus speaks of the coming of the Holy Spirit, who will come and dwell within us. As God entrusted the Son to be born into the world, so Jesus is now entrusting the Spirit to dwell within us. The Spirit of truth, the Advocate, who will guide us, encourage us, and lead us along our path of faith. This must also have been a little confusing for the disciples.

How do you understand the work of the Holy Spirit?

How would you describe, or image or picture, the Holy Spirit?

For God to dwell in us, Jesus says that we are to keep his word, to keep the commandments and love him. We are to keep in our hearts and lives God's word, words of love and faith entrusted to all who love God. Following on from yesterday, these are words we cannot keep to ourselves; rather, we are to share them in and through the way we live out our lives.

Mary and Joseph accepted the challenge of bringing to birth God's Word, Jesus. For Mary, the dwelling of God within became an intimate encounter, and relationship, through her pregnancy. We are not called by God to 'keep his Word' in that particular way, but that Word does dwell within; and we are called to deepen that Word day by day.

How may you deepen that Word, day by day?

How may you keep and bring to 'birth' God's Word, Jesus, during the journey through Advent to Christmas?

O God,
 you spoke and your Word came to birth.
 As I await that birth again, pour upon me the Spirit of truth
 to open my heart to your indwelling presence,
 and through prayer and study and love,
 may I keep your word day by day.

Amen.

Dydd Gwener 15 Rhagfyr

Ymuno

Darllenwch drwy Mathew 11:16-19

Mae'n siŵr bod gan bob un ohonon ni stori i'w hadrodd am gael ein gadael allan a heb gael ein cynnwys, o fod eisiau ymuno ond am ba bynnag reswm heb gael ein dewis. Gall ymuno fod yn anodd, yn enwedig os ydyn ni, wrth natur, yn gymeriadau tawel a swil. Gall gymryd cryn dipyn o ddewrder i ymuno mewn trafodaeth neu fentro i le newydd, neu fynychu grŵp neu gyfarfod newydd heb wyneb cyfarwydd i'ch croesawu.

Ydych chi'n cofio adeg pan ddigwyddodd rhywbeth fel hyn i chi?

Beth oedd yr amgylchiadau a beth wnaethoch chi?

Un o hanfodion y ffydd Gristnogol ydy ymuno. Trwy ein bedydd, rydyn ni'n 'ymuno' â theulu Duw a thrwy gyfranogi yn addoliad a gweddi'r Eglwys, 'ymuno' ydyn ni gydag eraill sydd hefyd yn ceisio dyfnhau eu perthynas â Duw. Y cwestiwn sydd angen ei ofyn ydy: ydy'n ni'n gwrando go iawn ar Dduw, ac a ydyn ni'n ymuno i mewn fel mae Duw'n ein galw i wneud?

Mae cymaint o bethau ar gael yn y byd sydd ohoni heddiw i dynnu'n sylw ni, gan olygu nad ydyn ni bob amser yn ceisio'r amser i ddod at Dduw yn dawel

mewn gweddi a chael cyfle i wrando. Yn ystod yr Adfent, hawdd ydy hi i lais tawel Duw gael ei gollu ymysg sŵn a sain cerddoriaeth y siopau, a'r holl baratoadau yn ein cartrefi – ac efallai hefyd yn ein heglwysi.

Mae darlleniad heddiw yn sôn am alwad Duw yn cael ei anwybyddu. Yr alwad ydy i ni ymuno â'r parti a'r ddawns. Yr alwad ydy inni wrando ar y rhai hynny mewn angen.

Ar adeg Adfent fel hyn, pwy sydd angen eu dwyn at Dduw yn dawel mewn gweddi?

Does dim modd inni blesio pawb pob amser – neu weithiau hyd yn oed rhan o'r amser – ac fe welir hyn yn ein darlleniad heddiw. Mae'r bobl yn cwyno am Ioan, gan nad ydy o'n bwyta nac yfed, ac Iesu oherwydd ei fod o'n bwyta ac yfed! Does ots p'un ai ein bod ni'n bwyta ac yfed ai peidio, neu cymaint neu gyn lleied wnawn ni, yr alwad arnon ni ydy, trwy ffydd, i ymuno â'r daith yr Adfent hwn. Fe'n galwyd i ddisgwyl ar Dduw mewn adegau o dawelwch, ond hefyd i fod yn ymwybodol o Dduw gyda ni ynghanol y partion a'r miri sy'n anorfod yn nhymor y dathlu.

Duw'r dathlu,

cymer fy llaw a'm harwain yn nawns y ffydd.

Helpa fi i ganfod ffyrdd i ymuno a rhannu'r oll y gallaf ei gynnig.

Wrth imi ddisgwyl arnat ti, siarada â 'nghalon i.

Amen.

Friday 15 December

Joining In

Read through Matthew 11:16-19

We probably all have a story to tell of being left out and not included, of wanting to join in but for whatever reason not being chosen. Joining in can be difficult, especially if we are quiet and shy by nature. It can take a great deal of courage to join in a discussion or go to a new place, or to a new group or meeting where you do not know anyone.

Has there been a time when you have felt this way?

What happened and what did you do?

The Christian faith is all about joining in. Through our baptism we 'join' the family of God and through our partaking in the worship and prayer of the Church we join with others who also seek to deepen their relationship with God. The question to ask is: do we truly listen to God, and are we joining in as God has called us to do?

There are many distractions within the world of today that mean we do not always seek the time to come to God quietly in prayer and listen. During Advent the sound of God's quiet voice may easily get lost amidst the music in the shops, and the preparation in our homes – and maybe in our churches too.

The passage today speaks of God's call not being listened to. The call is to join in with the party and dance. The call is to listen to those in need.

At this Advent time, who needs to be brought to God in quiet prayer?

We cannot please everyone all – or even some – of the time, and we see this in today's Gospel. The people complain because John doesn't eat and drink, and about Jesus because he does eat and drink! Whether or not we eat and drink, or how much or how little, we are called by faith to join in this Advent journey. We are called to wait upon God in times of quietness, but also to know God with us in the celebration and party times this season brings.

God of celebration,
take my hand and lead me in the dance of faith.
Help me find ways to join in and share all I can bring.
As I wait upon you, speak into my heart.

Amen.

Dydd Sadwrn 16 Rhagfyr

Paid â Deud wrth Neb

Darllenwch drwy Mathew 17:9-13

Wedi inni gymryd golwg ar y ffyrdd rydyn ni i fod i rannu stori Dduw, a'n ffydd, down heddiw i glywed sut gafodd y disgyblion eu herio i beidio â dweud unrhyw beth ynglŷn â phopeth roedden nhw newydd ei brofi.

Roedd y disgyblion wedi bod yn dystion i drawsnewidiad Iesu ar y mynydd. Fe welson nhw Moses ac Elias, a chlywed Duw'n llefaru, a dydy Pedr ddim yn siŵr beth i'w wneud. Wrth ddychwelyd i lawr y mynydd, dyma Iesu'n dweud wrthyn nhw nad dyma'r amser iawn i rannu'r hanes ag eraill. Dyna ichi dasg anodd fase cadw'n dawel am y fath ddigwyddiad! Ond fe fyddai'n rhoi'r cyfle iddyn nhw feddwl a myfyrio ar bopeth a welson nhw.

Pa mor aml, wedi rhyw achlysur rhyfeddol neu arbennig, fyddwch chi'n ei dreulio yn myfyrio arno?

Pa mor aml fyddwch chi'n myfyrio'n weddigar ar ddarn o'r Beibl, emyn neu gytgan sydd wedi meddwl rhywbeth ichi?

Mae hi'n anodd cadw newyddion da yn gyfrinach, gan mai ein greddf naturiol ydy dweud wrth bawb. Ac eto, ar

adegau, mae hi'n bwysig aros ennyd cyn rhannu rhyw newyddion ardderchog. Mae newyddion am fabi ar y ffordd neu swydd newydd, er enghraifft, yn newyddion efallai sydd angen oedi cyn ei rannu â phawb.

Mae darlleniad heddiw yn dyrchafu'r disgyblion i uchelfannau annisgwyl ac ysbrydol, ac yna daw'r gwrthgleimacs! Wedi cael eu rhybuddio i beidio â dweud wrth neb, daw realaeth wrth i Iesu siarad am ei ddiodefaint i ddod. Mae'r disgyblion yn cwestiynu Iesu, gan wybod o draddodiad Iddewig, cyn i'r Un a addawyd gan Dduw ddod, y byddai Elias yn ymddangos yn gyntaf. Ac eto, mae'r ymdeimlad yma o wrthgleimacs a glanio'n ôl yn glep ar y ddaear hefyd yn cofleidio ymwybyddiaeth a dealltwriaeth newydd. Dyma nhw'n sylweddoli, wrth i Iesu siarad am Elias, ei fod yn sôn am Ioan Fedyddiwr.

Sut allwch chi ddisgwyl ar Dduw rwan, er mwyn paratoi ar gyfer uchafbwyntiau ac isafbwyntiau'r wythnosau hyn?

Sut fedrwch chi, neu a ydych chi, yn adrodd newyddion da geni Iesu?

O Dduw, ynghanol uchelfannau ac iselfannau bywyd, helpa fi i fod yn ymwybodol o dy Bresenoldeb hefo fi.

Helpa fi i ddisgwyl arnat ti yn adegau cyffredin ac anghyffredin pob dydd.

Helpa fi i fyw a rhannu newyddion da'r efengyl o dy gariad di i bawb ohonon ni yn Iesu Grist.

Amen.

Saturday 16 December

Tell No One

Read through Matthew 17:9-13

After looking at the ways in which we are to share the story of God, and of our faith, we come today to hear the disciples being told not to say anything about all they have just experienced.

The disciples had just witnessed the transfiguration of Jesus on the mountain. They had seen Moses and Elijah, and heard God speak, and Peter isn't too sure what to do. Coming down from that mountain, they are told by Jesus that the time is not right for their story to be shared. How difficult that must have been for them! Although it would give them the opportunity to think and reflect upon all that had happened.

How often after a wonderful or special occasion do you spend time reflecting upon it?

How often do you reflect prayerfully about a passage from the Bible, a hymn or song that has seemed important to you?

It is difficult to keep good news a secret as the instinct is to go and tell everyone. Yet at times it is important to wait a while before sharing some

wonderful news. The news of a baby on the way or a new job, for example, may be news that needs to wait a while before being shared with everyone.


The passage today takes the disciples to an unexpected and spiritual 'high', and then follows the anticlimax! After being warned to tell no one, reality comes as Jesus begins to speak about his suffering to come. The disciples question Jesus, knowing from Jewish tradition that before the One promised by God was to come, Elijah would first appear. Yet, this sense of anticlimax and coming back down to earth also embraces a new awareness and understanding. They realise that when Jesus speaks of Elijah, he is speaking of John the Baptist.


How can you wait upon God now, to help prepare for the highs and lows of these weeks?

How can you, or do you, tell the good news of Jesus' birth?

O God, in the highs and lows of life,
 help me to be aware of your Presence with me.
 Help me to wait upon you in the ordinary
 and the extraordinary moments of each day.
 Help me to live and share the gospel good news
 of your love for us all in Jesus Christ.

Amen.





Trydydd Sul yr Adfent
17 Rhagfyr

Ioan Fedyddiwr

The Third Sunday of Advent
17 December

John the Baptist

Gwedi'r Gannwyll

Goleuwn y drydedd gannwyll ar dorch yr Adfent

i'n hatgoffa am Ioan Fedyddiwr a ddaeth i baratoi'r ffordd.

Boed i alwad Ioan inni edifarhau gael ei glywed yn ein byd,

a thrwy ein bedydd boed i ninnau, mewn llawenydd,

baratoi'r ffordd i Iesu, addewid yr oesoedd,

yr hwn y mae disgwyl mawr amdano rwan.

Amen.

Candle Prayer

We light the third candle on the Advent wreath

to remind us of John the Baptist who came to prepare the way.

May the call of John to repent be heard in our world,

and through our baptism may we, with joy,

prepare the way for Jesus, long promised,

for whom we now wait.

Amen.

Salm 126 (addasiad)

Ar ôl i'r Arglwydd roi llwyddiant i Seion eto,
roedden ni fel rhai yn breuddwydio –
roedden ni'n chwerthin yn uchel,
ac yn canu'n llon.

Roedd pobl y cenedloedd yn dweud:
'Mae'r Arglwydd wedi gwneud pethau
mawr iddyn nhw!'

**Ydy, mae'r Arglwydd wedi gwneud
pethau mawr i ni.**

Dŷn ni mor hapus!

O Arglwydd, wnei di roi llwyddiant i ni eto,
fel pan mae ffrydiau dŵr yn llifo yn
anialwch y Negef?

Bydd y rhai sy'n wylo wrth hau
yn canu'n llawen wrth fedr'r cynhaeaf.

Mae'r un sy'n cario ei sach o hadau
yn crïo wrth fynd i hau.

Ond bydd yr un sy'n cario'r ysgubau
yn dod adre dan ganu'n llon!

**Ydy, mae'r Arglwydd wedi gwneud
pethau mawr i ni.**

Dŷn ni mor hapus!

O Dduw, rwyd ti wedi fy ngalw i lawenhau
ac i baratoi'r ffordd ar gyfer dy ddyfodiad di.
Rhyddha fy nghalon, fy meddwl, fy ffydd
imi gael datgelu dy Bresenoldeb yn ein
mysg.

Tyrd, dyma fy ngweddi.

Tyrd, yn Achubwr.

Tyrd, yn Ysbryd Glân.

Tyrd, yn Emaniwel.

Amen.

Psalm 126 (rewritten)

God restored our fortunes, and it felt
like a dream.

Then our mouths were filled with
laughter,

our tongues set free to speak of the joy
that was in our hearts.

**God has done wonderful and great
things for us, and we rejoice.**

It was said throughout the nations,
'Look at all the wonderful things God
has done.'

**God has done wonderful and great
things for us, and we rejoice.**

We prayed that all who had shed tears
would now reap with shouts of joy;
and all who went out weeping,
taking with them seeds for sowing,
would return with sheaves, carrying
them with joy.

**God has done wonderful and great
things for us, and we rejoice.**

O God, you have called me to rejoice
and to prepare the way for your coming.
Set me free in heart, mind and faith
to reveal your Presence among us.

Come, I pray.

Come, as Saviour.

Come, as Holy Spirit.

Come, as Emmanuel.

Amen.

Ioan Fedyddiwr – yn Disgwyl?

John the Baptist – Waiting?

Dewn at Ioan Fedyddiwr ar Drydydd Sul yr Adfent, ac yn Luc 1 fe ddysgwn rywbeth ynglŷn â dechrau ei fywyd, ei berthynas ag Iesu, ei eni trwy Elisabeth a'i enwi'n Ioan, a thrwy hynny ryddhau tafod Sachareias, cyn inni gyfarfod ag Ioan yn oedolyn.

Roedd Ioan yn byw yn y diffeithwch, yn gwisgo 'dillad o flew camel gyda belt lledr am ei ganol, ac roedd yn bwyta locustiaid a mêl gwyllt' (Marc 1:6). Doedd o ddim yn byw bywyd confensiynol, ond yn hytrach, gellid ystyried ei fod yn radical, yn ei ffordd o fyw yn ogystal â'i bregethu. Fo ydy'r proffwyd sy'n disgwyl am yr Un a addawyd ers talwm ei fod yn dod, paratoi'r ffordd trwy ei bregethu a'i alwad i'r bobl i edifarhau a chael eu bedyddio yn yr Afon Iorrdonen. Newidiodd Ioan yr ymolchi preifat yn y dyfroedd am buredigaeth yn ddatganiad cyhoeddus o gyffes ac edifeirwch; ac fe gyhoeddodd dyfodiad yr Un a fyddai'n bedyddio â'r Ysbryd Glân (Marc 1:8).

Ar adegau, er hynny, roedd yn llawn amheuson, yn tybio ai Iesu oedd y Meseia'r addewid. Cafwyd sicrwydd, ac Iesu'n datgan mai Ioan ydy Elias, gan gyflawni proffwydoliaeth Malachi (Mathew 11:7-15; Malachi 4:5) y deuai Elias arall yn gyntaf cyn dyfod y Meseia.

The Third Sunday of Advent brings us John the Baptist, and in Luke 1 we learn something of the beginning of his life, his relationship to Jesus, of his birth by Elizabeth and being named John, so freeing Zechariah's tongue, before we meet the adult John.

John lived in the desert dressed in 'camel's hair, with a leather belt around his waist, and he ate locusts and wild honey' (Mark 1:6). He did not live a conventional life, but instead could be seen as being radical; in both his living and preaching. He is the prophet waiting for the One long promised to come, preparing the way through his preaching and calling the people to repent and be baptised in the River Jordan. John changed the private washing in the waters for purification into a public declaration of confession and repentance; and proclaimed the coming of the One who would baptise with the Holy Spirit (Mark 1:8).

At times, though, he was filled with doubts, wondering if Jesus was the promised Messiah. Reassurance is given and Jesus says that John is Elijah, fulfilling the prophecy of Malachi (Matthew 11:7-15; Malachi 4:5) that before the Messiah came, another Elijah would come first.



Doedd gan Ioan ddim ofn herio'r llywodraethwyr a'r arweinwyr crefyddol – canlyniad hynny oedd ei garcharu a'i ddienyddio (Mathew 14:1-12). Doedd gan Ioan chwaith ddim ofn camu'n ôl a gadael i Iesu gymryd ei briod le.

- **Pwy fasech chi'n disgrifio heddiw fel rhyw 'Ioan Fedyddiwr', un yn byw bywyd amgen ac yn dilyn galwad Duw?**
- **Pwy ydy meddylwyr radical ein dyddiau ni?**

John was not afraid of confronting the rulers and religious leaders, which led to his imprisonment and his beheading (Matthew 14:1-12). Nor was John afraid to step back and let Jesus take his rightful place.

- **Who would you describe today as 'a John the Baptist', living an alternative life and following the call of God?**
- **Who are the radical thinkers of this present day?**

Darlleniadau Trydydd Sul yr Adfent

Rhai meddyliau cychwynnol:

Eseia 61:1-4, 8-11 Cyhoeddi 'newyddion da i'r tlodion' a 'bod y rhai sy'n gaeth i gael rhyddid' (1). Byddai'r newyddion da hyn yn dod â llawenydd, gan y 'bydd fy Meistr, yr Arglwydd, yn gwneud i gyfiawnder a moliant dyfu yng ngŵydd y cenhedloedd i gyd' (11)..

1 Thesaloniaid 5:16-24 Yr alwad: 'Peidiwch byth â stopio gorfoleddu! Daliwch ati i weddio' (16-17) a rhoi diolch am bob peth. Hefyd i'w gofio, 'Peidiwch bod yn rhwystr i waith yr Ysbryd Glân' (19).

Ioan 1:6-8, 19-28 Gweinidogaeth Ioan i 'ddweud wrth bawb am y golau' (7). Wrth gael ei gwestiynu, meddai Ioan 'Llais yn gweiddi'n uchel yn yr anialwch, "Cliriwch y ffordd i'r Arglwydd!" Dyna ydw i' (23). Meddai hefyd, 'Ond mae yna un dych chi ddim yn ei nabod yn sefyll yn eich plith chi – sef yr un sy'n dod ar fy ôl i' (26-27).

The Readings for the Third Sunday of Advent

A few initial thoughts:

Isaiah 61:1-4, 8-11 The proclamation of 'good news to the oppressed' and 'liberty to the captives' (1). This good news will bring rejoicing, for 'God will cause righteousness and praise to spring up before all the nations' (11).

1 Thessalonians 5:16-24 The call to 'rejoice always, pray without ceasing' (16-17) and to give thanks for all things. Also to remember, 'Do not quench the Spirit' (19).

John 1:6-8, 19-28 John's ministry to 'testify to the light' (7). When questioned, John said 'I am the voice of one crying out in the wilderness' (23). He also said, 'Among you stands one whom you do not know, the one who is coming after me' (26-27).

Disgwyl ar Dduw

Oni bai bod pob kannwyll yn eich torch Adfent o'r un lliw, heddiw ydy'r diwrnod i gynnuau'r gannwyll goch neu binc, i'ch drysu chi i gyd! Pam y pinc neu'r goch i Ioan Fedyddiwr ac nid Mair? Mae'r ateb i'w gael o'r enw o roddir i'r Sul yma yn Lladin, sef 'Gaudate', sy'n golygu 'Llawenhewch!' Felly, mae'r Epistol o 1 Thesalonïaid yn galw arnon ni i lawenhau; ceir neges debyg yn Philipïaid 4:4-6 a'r alwad 'Byddwch yn llawen bob amser am eich bod yn perthyn i'r Arglwydd'.

Mae'r Sul hwn yn Adfent yn cyfateb i Bedwerydd Sul y Grawys, Sul y Mamau, lle cawn orffwys a llawenhau yn lle'r themâu mwy edifeiriol amlwg! Mae'r Suliau hyn hefyd yn fodd i'n hatgoffa: adeg y Grawys bod yr Wythnos Sanctaidd a'r Pasg yn nesáu, ac yn yr Adfent y bydd ein holl ddisgwyl ar i Dduw ddod yn dirwyn i ben wrth inni ddathlu geni Iesu.

Mae'r darlleniad o 1 Thesalonïaid yn codi sawl her gan fod gofyn inni ddal ati i weddïo, rhoi diolch beth bynnag sy'n digwydd, ac nad dydyn ni i ddiffodd gwaith a phresenoldeb yr Ysbryd.

- **Beth ydych chi'n ei ddeall o hyn, a pha heriau sy'n codi yn sgil hyn i chi?**
- **Ym mha ffyrdd fasen ni'n debygol o 'ddiffodd yr Ysbryd' - yn ein bywydau personol, yn yr Eglwys ac yn fyd-eang?**

Wrth droi at Eseaia a Luc, mae'r pwyslais yn newid, er y bydd yn tyfu allan o weddïo diflino 1 Thesalonïaid. Yr alwad ydy i ddisgwyl ar Dduw a gwrando. Yna, o wrando rydyn ni i fynd allan a chyhoeddi'r Newyddion Da i bawb ac i dystio i'r goleuni, i Iesu.

Waiting upon God

Unless you have the same colour of candles in the Advent wreath, today is the day when the pink or red candle is lit, confusing many! Why the pink or red for John the Baptist and not Mary? The answer comes from the name given for this Sunday in Latin, 'Gaudate', meaning 'Rejoice!' So today the Epistle from 1 Thessalonians calls us to rejoice, another passage being Philippians 4:4-6 and the call to 'rejoice in the Lord'.

This Sunday in Advent matches the Fourth Sunday in Lent, Mothering Sunday, when instead of the more overtly penitential themes we can take a rest and rejoice! These Sundays also act as a reminder; in Lent that Holy Week and Easter approaches, and in Advent that soon our waiting upon God to come will draw to a close as we celebrate the birth of Jesus.

The reading from 1 Thessalonians raises a number of challenges as we are to pray without ceasing, to give thanks whatever is happening, and we are not to quench the working and presence of the Spirit.

- **What do you understand from this, and what challenges does this raise for you?**
- **What are the ways in which we may 'quench the Spirit'? In our personal life, in the Church and in the wider world?**

Coming to Isaiah and Luke the emphasis changes, although it will grow out from the unceasing prayer of 1 Thessalonians. The call is to wait upon God and listen. Then, from our listening we are to go out and proclaim the Good News to all and to testify to the light, to Jesus.

Mae Eiseia'n siarad am amser sydd i ddod, ac mae'r geiriau mae'n eu llefaru yn eiriau sy'n adleisio yng ngeiriau Cân Mair (Luc 1:46-55) ac yn cael eu darllen allan gan Iesu yn y synagog lle mae'n uniaethu'r geiriau â Fo ei hun (Luc 4:18-21).

- **Sut allwch chi gyhoeddi hanes Iesu?**
- **Sut allwch chi gyfleu tystiolaeth eich ffydd?**

Isaiah speaks of a time to come, and the words he speaks are ones echoed through Mary's Magnificat (Luke 1:46-55) and read out by Jesus in the synagogue where he associates those words with himself (Luke 4:18-21)

- **How do you proclaim the story of Jesus?**
- **How do you give testimony to your faith?**

Teimlo'n Greadigol?

*Gellir cyflawni hyn yn unigol neu mewn grŵp. Os medrwch chi, prynwch becyn gwneud canhwyllau a llunio eich kannwyll eich hunan, neu prynwch gannwyll o unrhyw siâp a lliw, neu defnyddiwch gannwyll fach nos. Rhowch o i'w osod ger y preseb a'r gair **GOBAITH**, rhywle lle fedrwch ei weld, a'i oleuo wrth ichi weddio a disgwyl ar Dduw yn ystod y dyddiau yma o Adfent.*

Be Creative?

*This can be done alone or in a group. If you can, buy a candle-making kit and make your own candle, or buy a candle in any shape or colour, or use a night-light. Place it with the crib and the word **HOPE**, where you can see it, and light it as you pray and wait upon God during these days of Advent.*

Ioan Fedyddiwr ydy'r llais sy'n gweiddi'n uchel yn yr anialwch, ac yn aros am yr Un roedd yn gwybod ei fod yn dod, ac wrth aros, fe wnaeth bopeth yn ei allu i baratoi'r ffordd. Fe wyddai hefyd y byddai wedyn yn camu'n ôl o'r sylw i gyd. Gellid disgrifio Ioan fel proffwyd radical ei ddydd. Heriai'r bobl i edifarhau a chael eu bedyddio, ond hefyd i ddilyn ffordd Iesu, a fyddai yn ei dro, yn herio'r bobl i weld – a chyflawni – y gweithredoedd a broffwydodd Eiseia.

Efallai mai dyma ddydd dathlu, ond rydyn ni hefyd i gofio gwirionedd popeth y daeth Iesu i'n byd i'w gyflawni. Duw cyfiawnder a rhyddid ydy'r Duw a gyhoeddwyd gan Ioan, ac Iesu'n fwyaf arbennig.

John the Baptist is the one crying out in the wilderness, and waiting for the One he knew was to come, and in his waiting he did all he could to prepare the way. He knew, too, that he would then take a step back, out of the limelight. John could be described as the radical prophet of his day. Challenging the people to repent and be baptised, but also to follow the way of Jesus, who in turn would challenge the people to see – and do – the works as prophesied by Isaiah.

This may be the day we are to rejoice, but we also are to remember the truth of all Jesus came to do within our world. The God whom John and particularly Jesus proclaimed is a God of justice and freedom.

Oscar Romero ddywedodd:

Rhaid inni beidio â cheisio Iesu'r plentyn yn nelweddu bach del ein presebau Nadolig. Rhaid inni ei geisio ymysg plant â diffyg maeth sy'n mynd i'w gwelyau gyda'r nos heb fwyd, a'r bechgyn gwerthu papurau tlawd fydd yn cysgu dan orchudd papurau newydd yn nrysau'r siopau.

Llefarodd Romero dros y tlodion, y caeth, y gorthrymedig yn El Salvador, a'r canlyniad oedd ei farwolaeth. Doedd yr awdurdodau ddim am gael eu herio. Doedd yr awdurdodau ddim am gael eu herio gan Iesu chwaith, na Ioan Fedyddiwr.

- **Beth ydy'r heriau sy'n wynebu'r Eglwys mewn perthynas â'r byd sydd ohoni heddiw?**
- **Beth ydy'r heriau sy'n wynebu arweinwyr y gwledydd mewn perthynas â'r byd sydd ohoni heddiw?**
- **Pa heriau sy'n ymddangos fel tasen nhw'n cael eu hanwybyddu?**
- **Pa heriau sydd angen mynd i'r afael â nhw?**

Mae Romero'n ein galw, fel y gwnaeth Ioan Fedyddiwr, Eseia ac Iesu, i edrych y tu hwnt i'n hunain. Mae'n alwad i syllu allan gyda llygaid tosturiol, gweld realaeth ein byd, a rhyfeddodau Duw yn y byd, trwy lygaid newydd. Yn *The Prophetic Imagination*, mae Walter Brueggemann, gan ddilyn y thema hon, yn sgwennu:

Fel hyn, felly, mae deall tosturi Iesu, nid yn syml fel adwaith emosiynol personol, ond fel beirniadaeth gyhoeddus lle mae'n meiddio gweithredu ar ei bryder yn wyneb holl ddideimladrwydd ei gyd-destun cymdeithasol. (tudalen 85)

Oscar Romero wrote:

We must not seek the child Jesus in the pretty figure of our Christmas cribs. We must seek him among the undernourished children who have gone to bed at night with nothing to eat, among the poor newsboys who will sleep covered with newspapers in doorways.

Romero spoke out for the poor, the captive, the oppressed in El Salvador, and the consequence was his death. The authorities did not want to be challenged. The authorities did not want to be challenged by Jesus, or John the Baptist.

- **What are the challenges faced by the Church in relation to the world of today?**
- **What are the challenges faced by the nations' leaders in relation to the world of today?**
- **Which challenges seem to be ignored?**
- **Which challenges need to be addressed?**

Romero calls us, as did John the Baptist, Isaiah and Jesus, to look beyond ourselves. It is the call to look out with compassionate eyes, to see the reality of the world, and God's wonders in the world, with new eyes. In *The Prophetic Imagination* Walter Brueggemann, following this theme, wrote:

Thus the compassion of Jesus is to be understood not simply as a personal emotional reaction but as a public criticism in which he dares to act upon his concern against the entire numbness of his social context. (page 85)

- Beth ydy eich meddyliau chi am y dyfyniad hwn?
- Beth sy'n mynd trwy'ch meddwl wrth glywed y gair 'dideimlad'?
- A oes natur 'ddideimlad' ynon ni, yr Eglwys a'r byd? Rhyw natur ddifater, ddidostur sy'n ein gwneud inni fod yn gyndyn i ymwneud â gweithredu cymdeithasol, ceisio cyfiawnder, gweddi a chyfrannu tuag at heddwch?

Mae hefyd yn sgwennu hyn, 'Mae Iesu'n camu i mewn i ganol y boen ac yn y diwedd yn dod i'w ymgorffori' (tudalen 86). Gyda dyfodiad Iesu, dydy Duw ddim bellach yn anghysbell a diarffordd i ni na'n byd, ond yn ei ymgorffori oddi fewn i gorff babi newydd-anedig ac yna'r dyn y bydd Iesu'n tyfu i fod. Mae Iesu'n dod fel Emaniwel, Duw gyda ni, gan gymryd ein cnawd ac ysgwyddo pryderon ein byd. Dyma ydy'r Un rydyn ni rwan yn ei ddisgwyl, y Duw i'n hysbrydoli i weithredu'n gymdeithasol ac i dystio, trwy bopeth a wnawn, i'n ffydd yn Iesu Grist.

Nodwedd Trydydd Sul yr Adfent ydy llawenhau a gorfoleddu, ond mae hefyd yn ymwneud â'n paratodau ninnau ar gyfer dyfodiad Iesu, rwan ac ar ryw adeg ddiarwybod yn y dyfodol. Wrth inni ddisgwyl, rydyn ni i gamu i mewn, gyda thosturi, i ganol y pryderon a'r gofalon mae'r byd hwn yn dwyn i'n sylw ac i'n calonnau.

- Sut fase modd ichi gyflawni hyn?

Wrth Edrych tuag at y Nadolig

Fe fase hi'n anodd i sentimentaleiddio gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr, and mae hi'n hawdd iawn 'sentimentaleiddio' stori'r Nadolig, a thrwy hynny anghofio realaeth y byd o'i gwmpas.

- What are your thoughts on this quote?
- What do you understand by the word 'numbness'?
- Is there a sense of 'numbness' within us, the Church and the world? A sense of 'numbness' that makes us hesitate to become involved in social action, justice seeking, prayer and peace making?

He also writes, 'Jesus enters into the hurt and finally comes to embody it' (page 86). In the coming of Jesus, God is not distant from us or our world, but embodies it within the body of a newborn baby and the man Jesus will become. Jesus comes as Emmanuel, God with us, taking on our flesh and the concerns of our world. This is the One we wait for now, the God to inspire us into social action and to testify, through all we do, to our faith in Jesus Christ.

This Third Sunday of Advent is about rejoicing, but it is also about our preparation for the coming of Jesus, now and at some unknown time in the future. As we wait, we are to enter, with compassion, into the concerns and anxieties that this world brings to our minds and hearts.

- How may you do this?

Looking towards Christmas

It would be difficult to sentimentalise the ministry of John the Baptist, but it is very easy to 'sentimentalise' the Christmas story, and so forget the reality of the world around it.

Wrth inni ddisgwyl ar Dduw, sut allech chi – a'r Eglwys – geisio cyhoeddi gwirionedd neges Duw yn nyfodiad Ei Fab, a hynny mewn ffordd sy'n berthnasol i'n dyddiau ni?

As we wait upon God, how may you – and the Church – seek to proclaim the truth of God's message in the coming of the Son, and in a way that is relevant for the present day?

Y Goeden Nadolig

Treuliwch ychydig o amser yn edrych ar, a myfyrio ar unrhyw beth wnaethoch chi'i osod ar y Goeden yn ystod y dyddiau diwethaf.

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei gynnwys?

Os wnaethoch chi greu kannwyll neu brynu kannwyll, tynnwch lun y gannwyll honno ar y Goeden.

The Christmas Tree

Spend a little time looking at, and reflecting upon, anything that you put onto the Tree during the last few days.

Is there anything else you would like to include?

If you made a candle or bought a candle, draw that candle onto the Tree.

Gweddï i Gloi

Duw'r herio a'r galw,
dangos imi sut alla i baratoi dy ffordd,
sut fedra i dystio i oleuni dy gariad.
Agor fy nghalon i glywed dy lais
a themlo cyffyrddiad dy Ysbryd arna i.

Duw'r herio a'r mentro,
helpa fi i ganfod ffyrdd imi allu
ymwneud â

cheisio rhyddid, rhyddhad a
chyfiawnder.

Agor fy nghalon i deimlo dy dosturi ac
i weddïo'n ddyfnach dros gyfiawnder a
heddwch.

Duw'r herio a chariad,
gyda llawenydd dwi'n disgwyl arnat ti,
ac ar dy alwad arna i.

Agor fy nghalon fel na fydd ofn arna i i
fentro

a dilyn ffordd yr Un dwi'n disgwyl
amdano.

Amen.

Closing Prayer

God of challenge and of calling,
**show me how I can prepare your way,
how I can testify to the light of your
love.**

**Open my heart to hear your voice
and feel the touch of your Spirit upon
me.**

God of challenge and of risk taking,
**help me find ways in which to engage
in seeking liberty, freedom and
righteousness.**

**Open my heart to feel your compassion
and
to pray more deeply for justice and
peace.**

God of challenge and of love,
**with rejoicing I wait upon you,
and upon your call to me.**

**Open my heart so I will not be afraid to
take the risk**

**and follow the way of the One for whom
I wait.**

Amen.

Dydd Llun 18 Rhagfyr

Joseff

Darllenwch drwy Mathew 1:18-25

Does yna fawr o wybodaeth am Joseff yn yr Ysgrhythrau. Fe wyddwn mai saer coed ydy o ac wedi dyweddio â Mair, a'r dybiaeth gyffredinol ydy ei fod yn ddyn hŷn. Mae cyfeiriad at Joseff yn y stori sy'n sôn am gymryd Iesu i'r Deml yn Jerusalem (Luc 2:41-52) a chrybwyll amdano pa fo'r bobl yn rhyfeddu ynglŷn ag Iesu yn fab i saer (Mathew 13:55; Marc 6:3). Dyn o ffydd ydy Joseff, ac fel y gelwid Abraham yn gyfiawn gan Dduw (Genesis 15:6), felly hefyd fe ddisgrifir Joseff fel dyn cyfiawn.

Beth ydy eich dealltwriaeth chi o'r gair 'cyfiawn'?

Yn ôl y gyfraith roedd dyweddio yn ymrwymiad a oedd bron mor swyddogol â phriodas ei hun. Beth tybed oedd yn mynd trwy feddwl Joseff pa glywodd newyddion Mair? Dicter efallai, anghrediniaeth, gofid, ofn? Mae'n amlwg bod Joseff, gyda chymaint o emosiynau'n chwyrlio yn ei ben, wedi ystyried y posibilrwydd o dorri'r cytundeb a chynllunio'n 'dawel fach i ganslo'r briodas' (ad. 19).

Er hynny, sut bynnag oedd o'n ei deimlo, doedd o ddim am i Mair ddiodef, na'i gweld hi wedi'i chywilyddio. Mi

fyddai caniatáu i Mair a'r newyddion am ei beichiogiad ddod i'r amlwg yn gyhoeddus wedi gallu golygu canlyniadau trychinebus (fe gofiwch am stori'r wraig a ddaliwyd yn godinebu, a'r bygythiad i'w llabyddio â cherrig, Ioan 8: 1-11). Wedi meddwl yn ddwys am yr holl oblygiadau a dod i benderfyniad ynglŷn â beth i'w wneud, newidiodd popeth pan lefarodd Duw wrtho mewn breuddwyd!

Dyma Joseff wedyn yn derbyn Mair yn wraig iddo.

Beth ydych chi'n meddwl y gellir ei ddysgu am ein perthynas â Duw a'n ffydd, trwy'r ychydig a wyddwn am Joseff?

Fe ellir disgrifio Joseff mewn rhyw ystyr fel fersiwn tawelach o Ioan Fedyddiwr! Roedd gan y ddau ohonyn nhw job i wneud gan Dduw. Mae Joseff yn ein hatgoffa nad oes raid inni fod yn allblyg i fod yn berchen ffydd, ond y gall y rhai hynny sydd â phersonoliaeth dawelach fod â ffydd ac ymrwymiad dwfn yn Nuw. Wrth i'r Nadolig agosáu a lefelau sŵn gynyddu, sut allwch chi sicrhau nad ydy aelodau tawelach eich teulu, neu ffrindiau, yn teimlo allan ohoni neu'n cael eu gorlethu?

O Dduw, ti ydy'r llais bach tawel, distaw sy'n llifo ddwfn o'm mewn.

Diolch i ti am yr ysbrydoliaeth mae Joseff yn ei ddangos inni, am ei ffydd a'i benderfynoldeb i wneud yr hyn sy'n iawn.

Helpa fi i gofio pwysigrwydd tawelwch yn fy mywyd a'm gweddïau, fel y gallaf ddisgwyl arnat ti, a pheidio methu dy bresenoldeb na dy air yn y dyddiau prysur hyn.

Amen.

Monday 18 December

Joseph

Read through Matthew 1:18-25

The Gospels don't tell us very much about Joseph. We know he is a carpenter and betrothed to Mary, and it is usually assumed that he is an older man. Joseph gets a mention in the story of taking Jesus to the Temple in Jerusalem (Luke 2:41-52) and a reference when the people wonder about Jesus being the son of the carpenter (Matthew 13:55; Mark 6:3). Joseph is a man of faith, and just as Abraham was called righteous by God (Genesis 15:6) so too Joseph is described as being righteous.

What do you understand by the word 'righteous'?

To be betrothed was almost as legally binding as marriage itself. What did Joseph think and feel when he heard Mary's news? Perhaps anger, disbelief, distress, fear? No doubt with many emotions running through him, Joseph began to consider the breaking of this agreement, and planned 'to dismiss her quietly' (v. 19).

However he felt, though, he did not want Mary to suffer, or see her disgraced. To have exposed Mary and

the news of her pregnancy could have resulted in her being stoned (see the story of the woman caught in adultery, John 8:1-11). Having thought it all through and after making a decision on what to do, everything then changed when God spoke to him in a dream!

Joseph now took Mary as his wife.

What do you feel can be learned about our relationship with God and our faith, by the little we know about Joseph?

Joseph could be described as the quieter version of John the Baptist! Both had a job to do for God. Joseph reminds us that we do not need to be outgoing to have faith, but that those with a quieter personality can hold a deep and committed faith in God. As Christmas approaches and the noise levels begin to rise, how can you ensure that the quieter members of your family, or friends, do not feel left out or overwhelmed?

O God, you are the still small voice running deep within me.

Thank you for the inspiration Joseph brings to us, for his quiet faith and determination to do what is right.

Help me to remember the importance of quietness in my life and prayer, so I may wait upon you, and not miss your presence or word in these busy days.

Amen.

Dydd Mawrth 19 Rhagfyr

Sachareias

Darllenwch drwy Luc 1:5-25

Mae hanes Sechareias yn hawlio llawer mwy o le yn y Beibl na stori Joseff! Mae stori Sechareias yn parhau ym mhennod gyntaf Luc wrth i Ioan Fedyddiwr gael ei eni a'i enwi, ac yn dilyn hynny ceir proffwydoliaeth Sachareias - sy'n adnabyddus i ni fel y Benedictus sy'n cael ei weddio yng ngwasanaeth Boreol Weddi.

Llefarodd duw wrth Joseff mewn breuddwyd wrth iddo gysgu, ac i Sachareias mewn gweledigaeth wrth iddo wneud ei ddyletswyddau yn y cysegr yn 'llosgi aroglarth' (ad. 9). Fel gyda Joseff, mae Sachareias a'i wraig Elisabeth, ill dau, yn gyfiawn, yn 'bobl dda yng ngolwg Duw' (ad. 6).

Fe'n gelwir ninnau i fod yn sanctaidd a byw mewn cyfiawnder, i fyw yn unol â'n ffydd yn Nuw. Ac eto, fe wyddwn bob un pa mor anodd ydy hynny! Yn ein natur ddynol, rydyn ni'n agored i'r demtasiwn o wneud penderfyniadau anghywir, ac o bosib, yr adeg hon o'r flwyddyn, i fynd dros ben llestri wrth bartio! Mae Sachareias a Joseff yn datgelu cariad Duw tuag aton ni, cariad sy'n deall pa mor fregus ydy dynoliaeth, oherwydd yn Iesu, gwisgodd Duw ein crawd ninnau

er mwyn dod i'n nabod ni'n well.

Beth sy'n mynd trwy eich meddwl wrth ystyried hyn, sef pa mor ddwfn mae Duw yn ein nabod, a'n caru?

Cafodd Sechareia cymaint o sioc pan gyfarfu â'r angel a ddywedodd wrtho ei fod yntau ac Elisabeth am gael babi, fel iddo gael ei daro'n fud! Pan ddaeth allan o'r cysegr, sylweddolodd eraill bod rhywbeth arbennig iawn digwydd. Dim ond ar ôl geni ei fab a'i alw'n 'Ioan' y dychwelodd ei lais ato.

A oes unrhyw beth y gallwch chi ddysgu gan Sachareias a fyddai'n gymorth ichi wrth ichi ddisgwyl ar Dduw?

Ymwneud â'i waith cyffredin, dyddiol oedd Sachareias pan ddigwyddodd yr anghyffredin. Gall Dduw siarad â ni yn y tawelwch, yng nghanol torf o bobl, mewn man arbennig i ni, ac wrth inni ymhél â phethau cyffredinol ein bywydau bob dydd.

Fedrwch chi feddwl am adeg pan roedd Duw'n teimlo'n agos? Pryd a lle oedd hyn? Sut deimlad ydy hi i gofio'r amser hwnnw?

O Dduw,

tyrd i 'nghyfarfod i ar adegau cyffredin fy niwrnod a'u gwneud nhw'n arbennig.

Tyrd i 'nghyfarfod i yn nhawelwch a sw'n fy niwrnod ac agor fy nghlustiau i dy glywed.

Tyrd i 'nghyfarfod i wrth imi dy geisio mewn gweddi a disgwyl dy ddyfodiad.

Fy ngweddi ydy, tyrd ata i, gan drawsnewid fy nyddiau oll.

Amen.

Tuesday 19 December

Zechariah

Read through Luke 1:5-25

The story of Zechariah has a far higher word-count than the story of Joseph! Zechariah's story continues in Luke's first chapter as John the Baptist is born and named, and is followed by Zechariah's prophecy – known to us as the Benedictus and prayed at the service of Morning Prayer.

God spoke to Joseph in a dream as he slept, and to Zechariah in a vision as he went about his duty in the 'sanctuary of the Lord' to 'offer incense' (v. 9). As with Joseph, both Zechariah and his wife, Elizabeth, are seen as being 'righteous before God' (v. 6).

We are all called to be holy and live in righteousness, to live according to our faith in God. Yet we all know how hard this is! In our humanity we are open to the temptation to make wrong decisions, and perhaps at this time of year to 'party' a little too hard! Zechariah and Joseph reveal God's love to us, a love that understands the frailty of being human, because in Jesus, God took on our flesh to get to know us more intimately.

What are your thoughts and feelings about this and how deeply we are known by God, and loved?

Zechariah was so surprised when he met with the angel and was told he and Elizabeth would have a baby that he was struck dumb! When he came out from the sanctuary the others realised something very special had happened. His voice only came back to him when he named his son 'John'.

Is there anything that you can learn from Zechariah that may help you as you wait upon God?

Zechariah was going about his ordinary business when the extraordinary happened. God can speak to us in the quietness, in the midst of a gathering of many people, in a place we feel is special, and as we go about the ordinary things of our day-to-day life.

Can you think of a time when God felt very close? When and where was this? How does it feel to remember that time?

O God,

meet me in the ordinary moments of my day and make them special.

Meet me in the quietness and in the noise of my day and open my ears to hear you.

Meet me as I seek you in prayer and wait upon your coming.

Meet with me, I pray, and transform all of my days.

Amen.

Dydd Mercher 20 Rhagfyr

Iesu

Darllenwch drwy Luc 4:16-21

Fe enwir heddiw, fel gyda dydd Gwener a dydd Sadwrn, yn un o Ddyddiau'r Cydgoriau. Dyma ddiwrnodau pan fo'r Eglwys yn gweddio'n neilltuol dros y galwedigaethau a sut y'n gelwir ni i wasanaethu Duw. Mae hi hefyd yn adeg i weddio am dyfiant disgyblaeth sy'n arwain at ddyfnhau ffydd, ac o hynny at ddirnad 'Sut alla i wasanaethu Duw?' Fe gawn ni olwg fanylach ar hyn ar ddyddiau Gwener a Sadwrn.

Mae'r darn a ddarllenir heddiw yn Luc wedi'i osod ar ddechrau gweinidogaeth Iesu. Mae yntau yn y synagog yn Nasareth ac yn rhyfeddu pawb sydd yno'n bresennol. Mae'r darn a gaiff ei gyflwyno iddo, o'r proffwyd Eseia, yn un a fyddai wedi bod yn gyfarwydd iawn i'r gwrandawyr yno. Roedden nhw'n dal i ddisgwyl cyflawni'r broffwydoliaeth hon. Ond doedden nhw ddim yn disgwyl yr hyn a ddigwyddodd nesaf!

Yn ddigynnwrf, wrth ei golwg hi, dychwelodd Iesu i'w sedd ac yna datgan, 'Mae'r geiriau yma o'r ysgrifau

sanctaidd wedi dod yn wir heddiw' (ad. 21). Does ryfedd, fel mae'r adnod nesaf yn ei ddweud, eu bod wedi rhyfeddu, ond oedden nhw'n deall o ddifrif beth oedd yn ei feddwl? Mae Iesu'n dweud, 'Dyma fi – fi ydy'r un y soniodd Eseia amdano.'

Pa un sy'n fwy cyfarwydd ichi, yr Hen Destament neu'r Testament Newydd?

Rhestrwch y storïau a'r hanesion y gwyddoch chi eu bod yn dod o'r Hen Destament, ac yna o'r Testament Newydd. Pa rai sydd fwyaf o help i ddeall pwy ydy Iesu?

Mae'r ddau Destament, yr Hen a'r Newydd, fel ei gilydd, yn bwysig i'n taith ffydd, wrth inni ddarganfod cymaint o wahanol bobl y galwodd Duw i'w wasanaeth. Hefyd, rydyn ni'n darganfod sut y datgelwyd geni Iesu ganrifoedd cynt, trwy fod Duw'n llefaru wrth y proffwydi. Mae ein disgwyl ar Dduw am enedigaeth Iesu bron iawn â dod i ben.

Duw'r oesoedd,
rwy'ti wedi fy mendithio â chymaint.
Helpa fi i ganfod ffyrdd i dy wasanaethu di,
i ddyfnhau fy ffydd, ac i rannu hanesion y Beibl
gyda'r rhai hynny sydd o bosib heb gael y cyfle i'w clywed.
Ar yr adeg hon, helpa fi i adrodd stori'r Nadolig cyntaf
a dyfodiad dy Fab, yr Un a addawyd trwy'r proffwydi.

Amen.

Wednesday 20 December

Jesus

Read through Luke 4:16-21

Today, as with Friday and Saturday, is named as an Ember Day. These are days when the Church specifically prays for vocations and how we are all called to serve God. It is a time to pray also for a growing discipleship which leads to a deepening of faith, and from there to discern 'How may I serve God?' We will explore this a little more on Friday and Saturday.

The passage today from Luke is placed at the beginning of Jesus' ministry. He is in the synagogue in Nazareth where he astounds those who are present. The passage presented to him, from the prophet Isaiah, is one those listening would be familiar with. They would be waiting for this prophecy to be fulfilled. What they wouldn't have been expecting is what happened next!

Very calmly, it seems, Jesus returns to his seat and then says, 'Today this scripture has been fulfilled in your

hearing' (v. 21). No wonder, as the next verse says, they were astounded, but did they understand what he really meant? Jesus is saying, 'This is me – I'm the one Isaiah spoke about.'

Which do you know better, the Old Testament or the New Testament?

Write down the stories you know that come from the Old Testament, and then from the New Testament. Which ones help you the most to understand who Jesus is?

Both the Old and New Testaments are important for our journey of faith, as we discover so many different people whom God called into service. Also, we discover how the birth of Jesus was revealed centuries before through God speaking to the prophets. Our waiting upon God for the birth of Jesus is nearly over.

God of all ages,
 you have blessed me with many gifts.
 Help me to seek the ways in which I can serve you,
 to deepen my faith, and to share the stories of the Bible
 with those who may not have heard them.
 At this time, help me to tell the story of the Nativity,
 and the coming of your Son, promised through the prophets.

Amen.

Dydd Iau 21 Rhagfyr

Elisabeth

Darllenwch drwy Luc 1:39-45

Mae'r darlleniad heddiw yn un sydd prin yn cael sylw fel rhan o adrodd stori'r Nadolig cyntaf, ac eto mae'n rhoi mewnwelediad pellach inni ar fywydau'r Teulu Sanctaidd. Dydy hi ddim yn syndod clywed bod Mair yn ceisio cymorth a chefnogaeth un o'i pherthnasau. Does dim sôn o gwbl am rieni Mair, nag unrhyw ffrindiau y gallai Mair fod wedi ymddiried ynddyn nhw, felly i ffwrdd â hi ar daith i'r bryniau i weld Elisabeth. Mae'n debyg y gallai sgwrsio â Joseff, ond efallai bod angen doethineb gwraig hŷn.

Pwy ydy'r bobl fyddwch chi'n troi atyn nhw mewn adegau o angen, gwneud penderfyniadau, neu am gysur a chefnogaeth?

Pan gyrhaeddodd Mair gartref Elisabeth, pwy o'r ddwy wraig gafodd fwyaf o sioc o glywed yr hyn ddigwyddodd nesaf? Yn gyntaf, mae'r babi, heb ei eni, sydd yng nghroth Elisabeth yn llamu mewn llawenydd wrth gydnabod a synhwyro pwy ydy'r plentyn heb ei eni sydd yng nghroth Mair. Nesaf, mae Elisabeth hefyd, trwy'r Ysbryd Glân, yn sylweddoli ei bod hithau hefyd yn dyst i rywbeth arbennig iawn.

Mae geiriau Elisabeth, sy'n cael eu hyngan i Mair, i'w cael mewn gweddi, a adnabyddir fel Angelus, Gweddi Mair, ac sy'n cynnwys adnod 42:

*Henffych well, Fair, gyflawn o ras,
y mae'r Arglwydd gyda thi.
Bendigedig wyt ti ymhlith merched,
a bendigedig yw ffrwyth dy groth di,
Iesu.*

Ydy hon yn weddi sy'n gyfarwydd ichi, neu'n weddi y gellwch chi ei gweddio?

Wyddon ni ddim sut wnaeth Elisabeth a Mair dreulio'r amser gyda'i gilydd, er ei fod yn bosib bod Mair gydag Elisabeth pan anwyd Ioan. Gallwn ddychmygu, serch hynny, am y sgysiau oedd yn digwydd rhyngddon nhw.

Dros gyfnod y Nadolig hwn, faint o wahanol, amrywiol sgysiau gewch chi tybed?

Sut fedrwch chi wneud amser am sgwrs sylweddol, ystyrlon, yn hytrach nag ychydig eiriau arwynebol, gyda theulu a ffrindiau'r Nadolig hwn, a gyda Duw mewn gweddi?

Duw cariad,
fe wnest ti ddewis Elisabeth i eni mab i baratoi'r ffordd ar dy gyfer di.
Bydd gyda mi rwan wrth imi barhau i baratoi
am ddatliadau'r Nadolig a dyfodiad Iesu, a anwyd o Fair.
Boed imi beidio ag anghofio i ddod atat ti am sgwrs weddigar
nac anghofio neilltuo amser i 'nheulu a'm ffrindiau.

Amen.

Thursday 21 December

Elizabeth

Read through Luke 1:39-45

The reading for today is one that rarely gets heard as a part of the telling of the Nativity story, and yet it provides another insight into the lives of the Holy Family. It is no surprise that Mary would want the help and support of a relative. Mary's parents don't get a mention at all, or any friends that Mary could talk to, and so she makes the journey into the hill country to see Elizabeth. No doubt Mary could talk to Joseph, but maybe she needed the wisdom of an older woman.

Who are the people you turn to in a time of need, decision making, or for comfort and support?

When Mary arrives at the home of Elizabeth, out of the two women who is the most surprised at what happens next? Firstly, Elizabeth's unborn baby leaps for joy in recognition deep within the womb, sensing who the unborn child is which Mary carries within her. Next, Elizabeth too through the Holy Spirit realises that she also is a witness to something very special.

Elizabeth's words, spoken to Mary, find their way into a prayer, known as the Angelus, which includes verse 42:

*Hail Mary, full of grace,
the Lord is with you.
Blessed are you among women,
and blessed is the fruit of your
womb, Jesus.*

Is this a prayer you are familiar with, or is this a prayer you could pray?

We do not know how Elizabeth and Mary spent their time together, although it is probable that Mary was with Elizabeth when John was born. We can imagine, though, the conversations that would have taken place.

Over this Christmas time, how many different and varied conversations will you have?

How can you make the time to have a long and meaningful conversation, instead of a few words, with family and friends this Christmas, and with God in prayer?

God of love,
you chose Elizabeth to bear the son to prepare the way for your coming.
Be with me now as I continue to prepare
for the Christmas celebrations and the coming of Jesus, born of Mary.
May I not forget to come to you in prayerful conversation,
or forget to make time for my family and friends.

Amen.

Dydd Gwener 22 Rhagfyr

Iesu

Darllenwch drwy Mathew 9:35-38

Heddiw, un o Ddyddiau'r Cydgoriau, mae'r darlleniad yn ymwneud â'r alwad i weinidogaeth a bod yn ddisgybl, ond mae'n 'llefaru' i ganol y 'weinidogaeth' brysur sy'n digwydd yn yr eglwys a'n cartrefi ar yr adeg hon! I ddechrau, fodd bynnag, myfyrio wnawn ar weinidogaeth Iesu dros yr efengyl. Fe'i gwelwn yn addysgu, pregethu, cyhoeddi, iacháu, a dangos tosturi tuag at y rhai hynny mae'n eu hystyried fel defaid heb fugail. Does ryfedd bod Iesu angen amser wrth ei hunan i weddio ac ymdawelu, yn bell o'r torfeydd! On'd ydy hyn hefyd yn rhywbeth efallai y gwelwn ni ei angen dros y dyddiau nesaf?

Ar ddechrau pennod 10, mae Mathew yn dilyn ymlaen o hyn gydag enwi'r apostolion ac Iesu'n eu danfon allan gyda chenhadaeth i wneud fel mae yntau'n ei wneud. Ond mae Iesu'n dweud bod cymaint o waith i'w wneud gan fod y cynhaeaf yn fawr, ond rhy ychydig o weithwyr. Mae pobl yn barod i glywed gair Duw, ond does yna ddim digon o bobl sy'n cario'r gair i'r bobl, rhannu stori'r ffydd; ac mae pob un ohonon ni'n cael ein galw i gyfranogi ym mywyd a gweinidogaeth yr Eglwys.

Sut all hwn fod yn berthnasol i'r Eglwys heddiw?

Pa mor awyddus, neu beidio, ydy pobl i ymgymryd â rolau penodol o fewn i'r Eglwys?

Sut ydych chi'n rhannu, trwy fod yn ddisgybl, gweinidogaeth Iesu?

Beth mae'r darlleniad hwn o Mathew yn dweud wrthyn ni ynglŷn â'r Nadolig? Ar yr amser yma, adref yn ogystal ag yn yr eglwys, mae digon i'w wneud, ond a oes yna ddigon o gymorth parod i'w gael? Pwy sy'n eich helpu chi, neu bwy ydych chi'n ei helpu, ar yr adeg yma o'r flwyddyn?

A oes yna rai 'jobsys' penodol sy'n well gynnoch chi eu gwneud eich hunan, a rhai 'josbys' fasen well gynnoch chi weld rhywun arall yn eu gwneud?

Beth allwch chi ei wneud i annog eraill i rannu'r 'gwaith' yn y cyfnod hwn – adref neu yn yr eglwys?

Duw'r cynhaeaf,
pan fydd hi'n rhy brysur arna i dros y dyddiau nesaf, llenwa fi â thangnefedd,
pan fydda i'n teimlo fel grwgnach oherwydd nad ydy eraill yn helpu, llenwa fi â thosturi,
pan fydd pethau eraill yn tynnu fy sylw a finnau angen help, llenwa fi ag amynedd,
pan fydda i'n chwilio am gyfle i ddisgwyl arnat ti mewn adegau o orffwys, lenwa fi â chariad.

Amen.

Friday 22 December

Jesus

Read through Matthew 9:35-38

On this Ember Day, this reading relates to the call to ministry and discipleship, but it 'speaks' into the busy 'ministry' taking place in church and at home at this time! To begin, though, it is to reflect upon the gospel ministry of Jesus. We see him teaching, preaching, proclaiming, healing, and being compassionate towards those he feels are like sheep without a shepherd. No wonder Jesus needed time alone to pray and to be quiet, and away from the crowds! Something we too may feel we need over the coming days.

At the beginning of chapter 10, Matthew follows this up with the naming of the apostles and Jesus sending them out in mission to do as he does. But Jesus says there is so much work to be done because the harvest is plentiful, but there are so few labourers. People are ready to hear the word of God, but there are not enough people taking out the word, sharing the story of faith; and all of us are called to participate in the life and ministry of the Church.

How may this relate to the Church today?

How eager or not are people to take on specific roles within the Church?

How do you share, through your discipleship, the ministry of Jesus?

What does this passage from Matthew tell us about Christmas? At this time, at home as well as in church there is plenty to do, but are there enough willing helpers around? Who helps you, or who do you help, at this time?

Are there certain 'jobs' that you like to do yourself, and are there 'jobs' you would like someone else to do?

What can you do to encourage others to share the 'work' at this time – at home or in church?

God of the harvest,
when I get so busy in the next few days, fill me with peace,
when I feel like grumbling because others are not helping, fill me with compassion,
when I become distracted and need help, fill me with patience,
when I seek to wait upon you in moments of rest, fill me with love.

Amen.

Dydd Sadwrn 23 Rhagfyr

Iesu

Darllenwch drwy Ioan 4:31-38

Ar y diwrnod cyn Noswyl Nadolig, mae'n darlleniad o'r Efengyl yn ein tywys at gyfarfod rhwng Iesu â'r wraig ger y ffynnon, yn hytrach na stori'r Nadolig cyntaf ei hun. Mae'r rhan hon o'r stori'n digwydd wedi iddyn nhw sgwrsio a chyn iddi ddychwelyd gyda phobl y ddinas.

Dyma ni'n mynd yn ôl at y ddelwedd o'r cynhaeaf a gafwyd ddoe. Mae'r disgyblion yn clywed y caen nhw fedi'r ffrwyth y mae eraill wedi gweithio a llafurio amdano. Os mai chi fydd wrthi'n paratoi a choginio pryd mawr Dydd Nadolig, byddwch yn sicr o allu uniaethu â hyn; a hefyd i'r gwrthwyneb, heb gyfrannu dim yn ymarferol tuag at y pryd, dim ond cyrraedd mewn pryd i'w fwyta!

Ac eto, meddai Iesu, 'Mae'r rhai sy'n hau a'r rhai sy'n medi yn dathlu gyda'i gilydd' (ad. 36). Mae'r rhai hynny sydd wedi rhoi a'r rhai sydd wedi derbyn yn dod ynghyd mewn llawenydd cyfrannol am bopeth a osodir o'u blaenau. Yn aml, ceir cymaint o bleser a llawenydd yn y gwaith caled o baratoi ag a welir ar wynebau'r rhai sy'n derbyn ffrwyth yr holl waith. Gall hyn fod yn ginio Nadolig, anrheg sydd heb hyd yn oed ei hagar, neu rannu mewn gwasanaeth

eglwys yn gwyllo drama'r Nadolig yn datblygu neu'n gwranddo ar gerddoriaeth gwasanaeth y Naw Llith a Charol.

Beth mae'n ei olygu i chi pan mai chi sy'n derbyn?

Beth mae'n ei olygu i chi pan mai chi sy'n rhoi?

Aeth y wraig wrth y ffynnon i rannu ag eraill ei phrofiad o gyfarfod ag Iesu. Mae sawl ffordd y gallwn ninnau wasanaethu Duw. Gall hyn fod trwy weinidogaeth drwyddedig, ordeiniedig neu wedi'i gomisiynu, neu gynnig ein hunain mewn llawer o ffyrdd eraill; er enghraifft, bod yn warden eglwys, paratoi'r baned, canu yng nghôr yr eglwys, gweini'r cymun, offrymu gweddïau dros eraill, mae'r rhestr bron yn ddiwedd. Gyda hyn oll, mae'n bwysig inni beidio ag anghofio pa fodd allwn ni wasanaethu Duw o'n cartrefi ac yn ein cymunedau.

Sut ydych chi'n gwasanaethu Duw? Beth ydy eich gweinidogaeth chi?

Mae'r Nadolig yn adeg o roi a derbyn. Pa ddoniau allwch chi eu cynnig i'r Eglwys – beth ydych chi'n dda am wneud?

Duw'r holl gariad sy'n rhoi popeth inni, dwi'n agor fy nwylo a 'nghalon i dderbyn gen ti. Dangos imi'r ffyrdd o allu rhoi i ti ac i eraill. Tywys fy nghalon i ddeall dy alwad a'm dwylo i groesawu pawb yn dy enw di.

Amen.

Saturday 23 December

Jesus

Read through *John 4:31-38*

On the eve of Christmas Eve, the Gospel reading takes us to the meeting of Jesus with the woman at the well, rather than to a story from the Nativity itself. This part of the story takes place after their conversation and before she returns with the people of the city.

We return to the imagery of the harvest from yesterday. The disciples are told that they will reap the fruit which others have worked hard and laboured for. If you are preparing and cooking the Christmas dinner, you may be able to relate to this; and also if you haven't done any work and arrive just in time to eat!

Yet, as Jesus says, the 'sower and reaper may rejoice together' (v. 36). Those who have given and those who receive come together in a shared joy at all that is placed before them. There is often as much pleasure and joy in the busy hard work as there is in seeing the faces of those who receive the end result of it. This can be the Christmas dinner, a present as it is unwrapped, or sharing in a service in church watching the Nativity play unfold or listening to the music of the service of Nine Lessons and Carols.

What does it mean to you to be the receiver?

What does it mean to you to be the giver?


The woman at the well went to share with others her experience of meeting Jesus. There are many ways in which we can serve God. This may be through a commissioned, licensed or ordained ministry, or offering ourselves in many other ways; for example, being a churchwarden, making tea and coffee, singing in the choir, serving at the altar, offering prayer for others, and the list can go on and on. Within all of this we cannot forget how we may serve God from our homes and in our community.

How do you serve God? What is your ministry?

Christmas is a time of giving and receiving. What are the gifts you can offer to the Church – what are you good at?

All-giving and loving God,
I open my hands and heart to receive from you.
Show me the ways in which I can give to you and others.
Guide my heart to understand your call,
and my hands to welcome all in your name.

Amen.





Pedwerydd Sul yr Adfent
24 Rhagfyr

Mair

.....

The Fourth Sunday of Advent
24 December

Mary

Gweddi'r Gannwyll

Goleuwn y bedwaredd gannwyll
ar dorch yr Adfent

i'n hatgoffa o Mair: esgorodd ar Dduw,
dewiswyd gan Dduw.

Boed i'w 'ie' hi atseinio yn ein bywydau
ac esgor ar gariad Duw yn Iesu, addewid
yr oesoedd,

yr hwn y mae disgwyl mawr amdano
rŵan.

Amen.

Candle Prayer

We light the fourth candle
on the Advent wreath
to remind us of Mary, the God-bearer,
chosen by God.

May her 'yes' resound in our lives
as we seek ways of proclaiming the
Good News and

bringing to birth the love of God in
Jesus, long promised,
for whom we now wait.

Amen.

Salm 89:1-4, 19-26 (addasiad)

Dw i'n mynd i ganu am byth am gariad yr Arglwydd; dweud am dy ffyddlondeb wrth un genhedlaeth ar ôl y llall.

Dwi am gyhoeddi fod dy gariad cadarn yn ddiddiwedd.

Dwedaist, 'Dw i wedi gwneud ymrwymiad i'r un dw i wedi ei ddewis, ac wedi tyngu llw wrth Dafydd fy ngwas: 'Bydda i'n gwneud dy ddisgynyddion yn sefydlog am byth ac yn cynnal dy orsedd ar hyd y cenedlaethau'.

Dwi am gyhoeddi fod dy gariad cadarn yn ddiddiwedd.

Un tro, dyma ti'n siarad gyda dy ddilynwyr ffyddlon mewn gweledigaeth. 'Dw i wedi rhoi nerth i ryfelwr;' meddet ti; 'dw i wedi codi bachgen ifanc o blith y bobl. Dw i wedi dod o hyd i Dafydd, fy ngwas; a'i eneinio'n frenin gyda'r olew sanctaidd.'

Dwi am gyhoeddi fod dy gariad cadarn yn ddiddiwedd.

Bydda i yn ei gynnal e, ac yn rhoi nerth iddo. Fydd dim un o'i elynion yn ei gael i dalu teyrnged, a fydd dim un gormeswr yn ei ddarostwng. Bydda i'n sathru ei elynion o'i flaen; ac yn taro i lawr y rhai sy'n ei gasáu.

Dwi am gyhoeddi fod dy gariad cadarn yn ddiddiwedd.

Bydd e'n cael profi fy ffyddlondeb a'm cariad; a bydda i'n ei anfon i ennill buddugoliaeth. Bydda i'n gosod ei law chwith dros y môr, a'i law dde ar afonydd Ewffrates. Bydd e'n dweud wrtho i, 'Ti ydy fy Nhad i, fy Nuw, a'r graig sy'n fy achub i.'

Dwi am gyhoeddi fod dy gariad cadarn yn ddiddiwedd.

O Dduw, boed i ffydd a pharodrwydd Mair fy ysbrydoli i'm paratoi am dy ddyfodiad. Helpa fi i roi fy 'ie' i ti a thrwy hynny, mewn ffydd, ddatgelu dy Bresenoldeb yn ein mysg.

Tyrd, dyma fy ngweddi.

Tyrd, yn Achubwr.

Tyrd, yn Ysbryd Glân.

Tyrd, yn Emaniwel.

Amen.

Psalm 89:1-4, 19-26 (rewritten)

I will sing of your steadfast love forever, O God, and with my mouth I will proclaim your faithfulness to all generations.

I will declare your steadfast love is established for all time.

You said, 'I have made a covenant with my servant David; through his descendants a throne will be built for generations to come.'

I will declare your steadfast love is established for all time.

You spoke, saying, 'I have set a crown upon David my chosen, I have anointed him with holy oil, and I will be with him always.'

I will declare your steadfast love is established for all time.

'He will be strengthened by my arm, and his enemy will not outwit him or humble him. His foes I will crush and strike down.'

I will declare your steadfast love is established for all time.

'My faithfulness and steadfast love will be with him wherever he goes, and he will cry to me as the Rock of his salvation.'

I will declare your steadfast love is established for all time.

O God, may the faith and willingness of Mary inspire me to make ready for your coming. Help me to give my 'yes' to you and so, with faith, reveal your Presence among us.

Come, I pray.

Come, as Saviour.

Come, as Holy Spirit.

Come, as Emmanuel.

Amen.

Mary – Agreeing? Mair – yn Cytuno?

Pwy ydy Mair? Fe gawn ychydig amdani hi yn yr Efengylau, ac mae pob tamaid bach yn dod â'i flas ei hun wrth ddod â Mair i mewn i'r hanesion sy'n ei chynnwys hi. Mae i Mair berthynas diwinyddol ac ysbrydol llawer uwch yn yr eglwysi Uniongred a Phabyddol nag mewn rhai eglwysi Anglicanaidd. Er hynny, waeth be fo lle Mair o fewn i'n haddoliad a'n gweddiâu, mae hi'n rhan hanfodol o hanes Iesu, ac ni ellir adrodd y stori heb ei chynnwys hi.

Enwid Mair yn theotokos, sef 'Mam Duw', a hefyd fel yr Efa newydd, fel mae Andrew Jones yn crybwyll yn ei lyfr *Mary*: 'Yn Mair, mae addewid coll yn cael ei adfer a thrwy neges angel, mae'r broses o anufudd-dod a ddechreuodd gydag Efa'n cael ei gweddnewid - mae'n fwy na dim ond adferiad yn unig' (tudalen 28).

Mewn perthynas â hyn, mae Mair hefyd wedi cael ei hystyried fel 'arch newydd y cyfamod, yn cludo o'i mewn nod a sêl presenoldeb Duw' (tudalen 27), fel y cludodd arch yr Hen Destament gyfamod Duw i bobl Israel. Wrth roi genedigaeth i Fab Duw, fe fyddai'r Cyfamod a'r Testament newydd yn dod i fod.

Mae Efengyl Luc yn rhoi inni'r darlun gorau o Mair 'yr Adfent a'r Nadolig', o ymweliad yr angel hyd at eni Iesu ym Methlehem; tra ar y llaw arall, mae Mathew'n canolbwyntio mwy ar stori Joseff.

- **Faint o ran mae Mair yn ei chwarae yn eich taith ysbrydol a gweddiol?**
- **Faint o ran mae Mair yn ei chwarae oddi fewn i'r eglwys rydych chi'n ei mynychu?**

Who is Mary? The Gospels tell us a little, and each brings a flavour of its own when bringing Mary into the telling of stories which involve her. Mary has a far higher theological and spiritual relationship in the Orthodox and Roman Catholic churches than in some Anglican churches. Yet, regardless of the place of Mary within our worship and prayers, she is an essential part of the story of Jesus, and it cannot be told without including her.

Mary has been named as theotokos, meaning 'the Mother of God', and also as the new Eve, as Andrew Jones writes in his book *Mary*: 'In Mary a lost promise is restored and through the message of an angel the process of disobedience that began with Eve is transfigured – it is more than simply a restoration' (page 28).

In relation to this, Mary has also been regarded as 'the new ark of the covenant, carrying within her the sign and seal of God's presence' (page 27) as the ark of the Old Testament carried God's covenant to the people of Israel. In her giving birth to God's Son, the new Covenant and Testament would come into being.

Luke's Gospel provides us with the best picture of the 'Advent and Christmas' Mary, from the visitation of the angel to the birth of Jesus in Bethlehem; whereas Matthew concentrates more on the story of Joseph.

- **How much does Mary play a part in your spiritual and prayerful journey with God?**
- **How much does Mary play a part within the church you go to?**

Darlleniadau Pedwerydd Sul yr Adfent

Rhai meddyliau cychwynnol:

2 Samuel 7:1-11, 16 Cyfamod Duw gyda Dafydd: ‘Dw i wedi bod gyda ti ble bynnag rwyd ti wedi mynd’ (9) a ‘Bydd dy deulu di yn teyrnasu o mlaen i am byth. Bydd dy orsedd yn gadarn fel y graig’ (16).

Rhufeiniaid 16:25-27 Mae Paul yn sgwennu yn adnod olaf Rhufeiniaid bod y ‘cynllun dirgel yma wedi bod yn guddiedig ar hyd yr oesoedd, ond bellach mae wedi’i ddwyn i’r golwg. Fel mae’r ysgrifau proffwydol yn dweud, y rhai gafodd eu hysgrifennu drwy orchymyn y Duw tragwyddol – mae pobl o bob cenedl yn cael eu galw i gredu ynddo a byw’n ufudd iddo’. (25-26).

Luc 1:26-38 Y Cyfarchiad. Mae’r angel yn sicrhau Mair, ‘Paid bod ofn, Mair.’ (30), ac mae hithau’n gofyn, ‘Sut mae’r fath beth yn bosib?’ (34). Yna, dyma Mair yn rhoi ei hateb: ‘Dw i eisiau gwasanaethu’r Arglwydd Dduw. Felly gad i beth rwyd wedi’i ddweud ddod yn wir’ (38).

The Readings for the Fourth Sunday of Advent

A few initial thoughts:

2 Samuel 7:1-11, 16 God’s covenant with David: ‘I have been with you wherever you went’ (9) and ‘Your house and kingdom shall be made sure for ever before me; your throne shall be established for ever’ (16).

Romans 16:25-27 Paul writes in the last verse of Romans about ‘the mystery that was kept secret for long ages but is now disclosed, and through the prophetic writings is made known to all the Gentiles’ (25-26).

Luke 1:26-38 The Annunciation. The angel reassures Mary, ‘Do not be afraid’ (30), and she asks, ‘How can this be?’ (34). Then Mary gives her answer: ‘Here am I, the servant of the Lord; let it be with me according to your word’ (38).

Disgwyl ar Dduw

Cyn gynted ag yr oedd Mair wedi dweud ‘ie’ wrth yr angel, wrth Dduw, doedd yna ddim troi’n ôl, dim newid meddwl, gan fod yr ‘ie’ wedi’i dderbyn ar unwaith, ac ar unwaith, doedd ei bywyd fyth am fod yr un fath eto. Byddai geiriau’r proffwydi’n cael eu cyflawni, a’r deyrnas a’r orsedd y soniwyd amdanyn nhw yn 2 Samuel yn cael eu sefydlu’n fuan.

Pryd bynnag y mae gofyn inni roi ateb, gwneud penderfyniad, mae i’r ymateb hwnnw golygiadau – p’un ai ‘ie’ neu ‘na’

Waiting upon God

Once Mary had said her ‘yes’ to the angel, to God, there was no going back, no changing her mind, for ‘yes’ was accepted straight away, and straight away her life would never be the same again. The words of the prophets would be fulfilled, and the kingdom and throne spoken of in 2 Samuel would soon be established.

Whenever we are asked to give an answer, to make a decision, the reply has consequences – if we say yes, or if we say no. Reading through the story of

ydy'r ateb. Wrth ddarllen trwy stori Cyfarchiad yr angel, mae hi'n amlwg y cafodd Mair ei synnu'n fawr ac yn ofnus iawn fwy na thebyg, er i'r angel ddweud wrthi am beidio â bod ofn! Er na chofnodwyd meddyliau Mair, mae'n ymddangos bod rhyw deimlad ei bod hi wedi oedi cyn ateb. Dydy hi ddim yn rhuthro i ateb heb roi ystyriaeth lawn cyn gwneud.

- **Dychmygwch eich hunan yn sgidiau Mair. Pa feddyliau a theimladau sy'n dod i chi wrth fyfyrto ar y darn hwn o'r Ysgrythur?**
- **Tybed a fu adeg pan ddwedsoch chi 'ie' neu 'na' wrth Dduw? Sut deimlad oedd hynny a beth ddigwyddodd nesaf?**

Trwy 'ie' Mair y galluogwyd Duw i'w eni mewn cnawd dynol: mae'r dwyfol a'r dynol yn dechrau dod at ei gilydd wrth i'r plentyn dyfu yng nghroth Mair. Mae Mair yn wraig sydd â'r modd i'n herio. Fe wyddai, wrth ddweud 'ie', y gallai Joseff fod wedi'i gwrthod a'i gadael hi, ac fe allai hi fod wedi cael ei llabyddio, ond derbyniodd a chymerodd y risg; efallai oherwydd ei sicrwydd personol bod Joseff yn ei charu go iawn.

Yn y cyfarfod gydag Elisabeth (Luc 1:39-45), mae Mair yn llefaru, gan adrodd ei chân o fawl, un sydd mor gyfarwydd i bawb sy'n mynychu'r Hwyrrol Weddi: y Magnificat. Mae'n siarad o'r galon, o ddyfnderoedd ei henaid, a chân o ryddid a rhyddhad ydy'r fawlgan hon, yn chwyldroadol efallai, ond yn bendant yn ein dwyn at y weinidogaeth yr oedd ei mab am afael ynddi ymhen hir a hwyr. Unwaith eto, yn y geiriau mae'n eu llefaru fe glywn adleisiau o'r rhai a lefarwyd gan y proffwydi gynt.

- **Darllenwch drwy'r Magnificat, y Gân o Foliant gan Mair. Beth mae hon yn ei ddweud wrthoch chi am Mair ac am Iesu?**

the Annunciation, there is no doubt that Mary is very surprised and probably afraid, despite being told not to be afraid! Although Mary's thoughts are not recorded, there seems to be a sense that she takes time before giving her answer. She doesn't rush into an answer without thinking it through.

- **Imagine yourself in Mary's place. What thoughts and feelings does this passage bring to you?**
- **Has there been a time when you said a 'yes' or a 'no' to God? How did that feel and what happened next?**

It is through Mary's 'yes' that God could be born in human flesh: the divine and human begin to come together as the child grows in Mary's womb. Mary is a woman who can challenge us. She knew that saying 'yes' might have led Joseph to desert her, and she could have been stoned, but she took the risk; perhaps sure in her own mind of Joseph's love for her.

At the meeting with Elizabeth (Luke 1:39-45) Mary speaks and has brought us her song of praise, familiar to everyone who has been at Evening Prayer: her Magnificat. She speaks from her soul, her inner being, and this song of praise is a song of liberation, maybe subversive, and definitely drawing us to the ministry her son will be involved in. Again, in the words she speaks we hear echoes of those spoken by the prophets.

- **Read through Mary's Song of Praise, the Magnificat. What does this say to you about Mary and about Jesus?**

Mae Mair yn un â'r 'isel rai', y gwrthodedig a'r rhai hynny heb awdurdod na grym, yn union fel bydd ei mab. Yn ei lyfr *The Prophetic Imagination*, mae Brueggemann yn sgwennu am eiriau Mair, eu bod 'ynglŷn ag addewidion sy'n cael eu cadw ar adeg pan fo pob addewid yn ymddangos fel petai wedi methu' (tudalen 99). Mae modd ei hystyried yng nghyd-destun diwinyddiaeth rhyddhad, yn gweithio ochr yn ochr ag Iesu fel un a alwyd i ollwng y bobl yn rhydd - i ddod i nabod Duw yn eu bywydau. Mae Mair yn llefaru i wlad wedi'i feddiannu, dan oresgyniad, gan estyn gobaith. Gwraig tŷ oedd hi hefyd, yn paratoi prydau bwyd a chyflawni dyletswyddau'r cartref; ac fe fyddai hithau, ynghyd â Joseff, wedi meithrin a dylanwadu ar y plentyn Iesu wrth ei fagu trwy blentyndod a llencyndod, wrth i'r dynol a'r dwyfol o'i fewn ei fowldio ef a'i weinidogaeth.

Yn ôl Andrew Jones, mae stori Mair yn un sy'n galw am 'adfer "cof chwyldroadol"' (tudalen 64), sy'n beth peryg gan ei fod yn herio a ganddo'r grym i newid pethau wrth gadw gobaith yn fyw. 'Mae stori Mair yn adrodd am Dduw a'r deyrnas, am ddwyfoldeb ym mywyd gwraig ddi-nod' ac felly, mae Mair yn 'aelod gweithgar o fudiad y tlawd, yn union fel roedd ei mab' (tudalen 64).

- Beth sy'n mynd trwy'ch meddwl o ddarllen y dyfyniadau hyn gan Walter Brueggemann ac Andrew Jones?
- Sut mae Mair yn ein herio wrth inni geisio dilyn ffordd Iesu yn ein byd heddiw?

Mary is at one with the 'lowly', with the outcast and with those who have no power, as her son will be. In *The Prophetic Imagination*, Brueggemann writes about the words of Mary, that they 'are about promises being kept just when all the promises appear to have failed' (page 99). She can be viewed in the context of liberation theology, working alongside Jesus as one called to set the people free – to come to know God in their own lives. Mary speaks into an occupied land, to give hope. She is also a woman who would have kept house, prepared meals, worked at the household chores; and she, with Joseph, would have influenced the toddler Jesus, the teenage Jesus too, as the human and the divine within him shaped him and his ministry.

Andrew Jones writes that Mary's story is one that calls for a 'recovery of a "subversive memory"' (page 64) which is dangerous because it challenges and can change things because it keeps hope alive. 'Mary's story speaks of God and the kingdom, of divinity in a simple woman's life' and so Mary 'is an active member of the movement of the poor, just as her son was' (page 64).

- **What are your thoughts on these quotes from Walter Brueggemann and Andrew Jones?**
- **How does Mary challenge us as we follow the way of Jesus in today's world?**

Teimlo'n Greadigol?

*Gellir cyflawni hyn yn unigol neu mewn grŵp. Yn aml, fe bortreadir Mair mewn celfyddyd trwy ddefnydd blodau'r lili. Gwnewch flodyn gyda phapur, tynnwch lun blodyn, torrwyd lun blodyn allan o gylchgrawn, neu prynwch flodyn 'go iawn'. Rhowch o i'w osod ger y preseb, y gair **GOBATH** a'r gannwyll, rhywle lle fedrwch ei weld, a'i oleuo wrth ichi weddio a disgwyl ar Dduw ar y diwrnod olaf hwn o'r Adfent.*

Be Creative?

*This can be done alone or in a group. Mary is often portrayed in art with lilies. Make a flower with paper, draw a flower, cut one out from a magazine, or buy a 'real' flower. Place it with the crib, the word **HOPE** and the candle, where you can see it as you pray and wait upon God on this last day of Advent.*

Yn ei lythyr at y Rhufeiniaid, soniodd Paul am ddirgelion a chyfrinachau. Pa mor hawdd ydy hi i gadw cyfrinach? Pa mor hawdd ydy hi i gadw cyfrinach heddiw wrth i heddiw ein tywys at Noswyl Nadolig? Dywed Paul fod y cyfrinachau bellach allan yng ngolau dydd, oherwydd trwy enedigaeth Iesu, mae gair Duw wedi'i ddanfon allan i bawb o'r bobl. Mae popeth a fu'n guddiedig bellach yn agored ac ar gael i bawb ddod a gwranddo.

Wrth i'r stori barhau, mae llawer sydd eto sy'n dal ynghudd. Wedi ymweliad y bugeiliaid, darllenwn fod 'Mair yn cofio pob manylyn ac yn meddwl yn aml am y cwbl oedd wedi cael ei ddweud am ei phlentyn' (Luc 2:19). Dyma sgwennodd Oscar Romero: 'Mae yna lawer o bethau nad oes modd eu gweld ond trwy lygaid sydd wedi crïo'. I Mair, roedd hi hefyd yn gorfod dal tristwch a phoen geiriau Simeon (Luc 2: 34-35); ac wrth ganfod Iesu, yn fachgen 12 oed, yn y Deml, unwaith eto, 'roedd Mair yn cofio pob manylyn o beth ddigwyddodd, a beth gafodd ei ddweud' (Luc 2:51).

- **Unrhyw sylwadau ar y dyfyniad gan Oscar Romero?**
- **Beth mae'n ei feddwl i chi ac ydy o'n dweud rhywbeth sy'n berthnasol i'ch bywyd chi?**

In the letter to the Romans, Paul writes of mysteries and secrets. How easy is it to keep a secret? How easy is it to keep a secret as today brings us to Christmas Eve? Paul says that the secrets are now out in the open, because through the birth of Jesus the word of God has been sent out to all people. All that was hidden is now accessible for all to come and hear.

As the story continues, there is still much that is being hidden away. After the visit by the shepherds we read that 'Mary treasured all these words and pondered them in her heart' (Luke 2:19). Oscar Romero wrote, 'There are many things that can only be seen through eyes that have cried.' For Mary there is also the sorrow and pain at the words of Simeon (Luke 2:34-35); and when finding the 12-year-old Jesus in the Temple, again Mary 'treasured all these things in her heart' (Luke 2:51).

- **Any thoughts on the quote from Oscar Romero?**
- **What do you understand it to mean and does it speak into your own life?**

Myfyriodd Mair yn ddwys ar brofiadau'i bywyd ac ar Iesu, fel mae Andrew Jones yn sgwennu:

Daliodd Mair ati ar ei siwrne o ffydd tan y diwedd un, gan fethu peidio, mae'n siŵr, ag ystyried yn ei chalon ddydd ar ôl dydd, gwir ystyr a thynged ei mab hi ei hun a'i rhan hithau yn y gadwyn anghyffredin hon o ddigwyddiadau rhyfeddol. (tudalen 105).

Mae Mair yn ein galw ac yn ein hannog i ystyried a myfyrio ar bopeth rydyn ni'n trysori yn ein bywydau - gyda'r rhai rydyn ni'n eu caru, y rhai hynny fydd yn ymuno â ni'r Nadolig hwn, ac yn ein hamserau tawel ein cyfarfyddiadau â Duw mewn gweddi.

- **Wrth i'r Adfent ddirwyn i ben, beth sy'n cael ei drysori yn eich calon chithau wedi popeth fuoch chi'n ei ddarllen yn ystod yr Adfent?**
- **Beth ydy eich gobaith chi, i'w drysori, ar y Noswyl Nadolig hon?**

Wrth Edrych tuag at y Nadolig

Dyma Bedwerydd Sul yr Adfent ac mae hi hefyd yn Noswyl Nadolig. Mae'r amser bron â dod pa fyddwn yn dod at ein gilydd i ddathlu geni Iesu. Gan ddibynnu pryd fyddwch chi'n darllen hwn, mae'n debygol iawn ei bod hi'n rhy hwyr i brynu anrhegion neu anfon cardiau. Ond mae amser ar ôl inni ddisgwyl ar Dduw trwy wasanaethau'r noson hon, sy'n dathlu Ymgnawdoliad Emaniwel, Duw gyda ni.

Meddylwch am y carolau Nadolig fyddwch chi' eu canu. Pa un sy'n hoff ganddoch chi a pham?

Mary treasured and pondered upon her life and that of Jesus, as Andrew Jones writes:

Mary continued her journey of faith right through to the end and probably never stopped pondering in her heart the true meaning and destiny of her son and her part in this extraordinary train of events. (page 105).

Mary calls and encourages us to ponder and reflect upon all that we treasure in our lives – with those we love, those we will join with this Christmas, and in our quiet moments of prayerful encounter with God.

- **As Advent draws to a close, what do you treasure in your heart for all that you have read during Advent?**
- **What is your hope, to be treasured, from this Christmas Eve?**

Looking towards Christmas

This Fourth Sunday of Advent is also Christmas Eve. The time is coming very soon when we will gather to celebrate the birth of Jesus. Depending when you read this, there will be no more time left to buy presents or send cards. What there is still time for is to wait upon God in the services of this night which celebrate the Incarnation of Emmanuel, God with us.

Think about the Christmas carols you will be singing. Which is your favourite and why?

Y Goeden Nadolig

Treuliwch ychydig o amser yn edrych ar, a myfyrio ar unrhyw beth wnaethoch chi'i osod ar y Goeden yn ystod y dyddiau diwethaf.

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei gynnwys?

Os wnaethoch chi lunio neu brynu blodyn, tynnwch ei lun ar y Goeden.

The Christmas Tree

Spend a little time looking at, and reflecting upon, anything that you put onto the Tree during the last few days.

Is there anything else you would like to include?

If you made a flower or bought one, draw that onto the Tree.

Gwedd i Gloi

Wrth imi ddisgwyl am dy ddyfodiad di,
O Dduw,
rwy't ti'n fy nwyn i mewn i ddirgelwch
dy ddyfodiad,
rwy't ti'n fy llenwi â disgwyliad
gobeithiol wrth iti gyffwrdd a'm henaid,
rwy't ti'n fy nghofleidio â chariad na
fydd byth yn pylu.

Wrth imi ddisgwyl am dy ddyfodiad di, O
Dduw,

rho imi ffydd i ateb 'ie' i ti,
i ddisgwyl yn amyneddgar arnat ti
mewn ffydd sy'n dyfnhau'n gyson,
ac ysbryd o orfoledd i lawenhau ynot ti.

Wrth imi ddisgwyl am dy ddyfodiad di, O
Dduw,

yn ôl yr addewid a roddwyd o
genhedlaeth i genhedlaeth,
helpa fi i lefaru'n hy dros y rhai sydd
heb lais,

a dod â chymorth i'r newynog a'r
anghenus.

Wrth imi ddisgwyl am dy ddyfodiad di, O
Dduw,

llenwa fi â llawenydd a thangnefedd,
a rho galon barod i dy groesawu o'r
newydd
ac i ddathlu dy eni yn byrlymu o gariad.
Amen.


Closing Prayer

As I await your coming, O God,
**you draw me into the mystery of your
coming,
you touch my soul with hopeful
expectation,
you embrace me with a love that will
never fade.**

As I await your coming, O God,
**give to me a faith to answer 'yes' to you,
to wait patiently upon you in an ever-
deepening faith,
and a spirit to rejoice in you.**

As I await your coming, O God,
**as promised from one generation to
another,
help me speak out for the voiceless
and bring aid to the hungry and needful.**

As I await your coming, O God,
**fill me with joy and peace,
and give me a heart ready to welcome
you anew
and to celebrate your birth with love.
Amen.**





Diwrnod Nadolig
Dydd Llun 25 Rhagfyr

Geni Iesu

Christmas Day
Monday 25 December

The Birth of Jesus

Gweddi'r Gannwyll

Goleuwn y bumed gannwyll ar dorch yr Adfent.

Dyma ydy'r Goleuni sydd wedi dod i'r byd,

Iesu Grist, a anwyd o Fair, a'i osod mewn preseb,

cariad Duw, addewid yr oesoedd,

yr hwn rydyn ni i gyd wedi aros amdano,

Emaniwel, Duw gyda ni, rwan ac am byth.

Amen.

Candle Prayer

We light the fifth candle on the Advent wreath.

This is the Light who has come into the world,

Jesus Christ, born of Mary, placed in a manger,

the love of God long promised,

and the One for whom we have waited,

Emmanuel, God with us, now and always.

Amen.

Darllenwch drwy Luc 2:1-7

Mae'r disgwyl ar Dduw am eni Iesu ar ben: Nadolig Llawen!

Mae hwn yn ddarn sy'n gyfarwydd tu hwnt i bawb ohonon ni, yn adrodd hanes taith Mair a Joseff i Fethlehem a genedigaeth Iesu.

A dyna lle cafodd ei phlentynt cyntaf ei eni - bachgen bach. Dyma hi'n lapio cadachau geni yn ofalus amdano, a'i osod i orwedd mewn cafn ar gyfer bwydo anifeiliaid. Doedd dim llety iddyn nhw aros ynddo. (ad. 7).

Diwrnod o gyffro ydy heddiw. Does ryfedd i'r angylion forio canu drwy awyr y nos wrth ddod â newyddion yr enedigaeth at y bugeiliaid (Luc 2:8-20). Yr ymwelwyr cyntaf gafodd y babi newydd-anedig oedd bugeiliaid, sy'n gadael eu praidd, ac yn gwneud yn union beth ddwedodd yr angylion wrthyn nhw am wneud.

Ceir cyfeiriadau at fugeiliaid yn aml yn y Beibl. Yn llyfr cyntaf Samuel, mae Dafydd, mab ieuengaf Jesse'n cael ei alw o'r caeau lle'r oedd yn gwylio'r defaid, i'w eneinio gan Samuel (1 Samuel 16:11-13). Dyma linach deuluol sy'n dod trwy Ruth, at Obed, at Jesse, at Dafydd ac ymlaen at Iesu. Iesu, a oedd i ddatgan yn llawer diweddarach, 'Fi ydy'r bugail da' (Ioan 10:11).

Mae heddiw yn ddiwrnod o roi a derbyn. Yn ddiweddarach, fe gawn glywed am yr anrhegion rhyfedd a drud a roddwyd gan y Gwŷr Doeth, mor wahanol i'r oen oedd yn rhodd gan y bugeiliaid fel byddwn yn ei ganu yn y garol *Ganol Gaeaf Noethlwm* (cyfieithiad Simon B. Jones o eiriau Christina Rossetti): 'Pe bawn fugail rhoddwn orau'r praidd i gyd.' A beth fedrwn ni ei roi? 'Fy mywyd oll.'

Byddwn hefyd yn derbyn yn ogystal â rhoi ar y diwrnod hwn, gyda sŵn rhwygo papur lapio'n datgelu anrhegion cudd. Fe fyddwn ar ben hyn yn derbyn gan Dduw ar y diwrnod hwn. Derbyn cariad sydd y

tu hwnt i ddeall, cariad a ddaeth i lawr i ganol llanast o fyd, cariad sy'n oleuni yn y tywyllwch. Mae hwn yn gariad sy'n galw arnon ni i rannu'r fath gariad yn yr eglwys, o amgylch y bwrdd bwyd, gyda theulu, gyda ffrindiau; nid yn unig ar ddydd arbennig fel heddiw, ond yn rhodd sydd i'w rannu ganddon ni bob dydd. Dyma rodd o gariad na ellir ei roi yn ôl na'i ddychwelyd ynghyd ag unrhyw anrheg ddiangen a dderbyniwyd gynnwys ni.

Dyma rodd o fywyd newydd. Mae'n disgwyl ni ar Dduw'n parhau.

Oedwch am ychydig i geisio munudau o dawelwch ynghanol prysurdeb y dydd i roi diolch i Dduw am bopeth y cawsoch gyfle i'w roi ac am bopeth rydych wedi'i dderbyn.

Dros y dyddiau nesaf, ceisiwch yr amser i fwrw golwg yn ôl dros wythnosau'r Adfent, a'r ffordd y buoch chi'n disgwyl ar Dduw. Cymerwch olwg, hefyd, a myfyrio ar bopeth y buoch chi'n eu casglu ac yn eu creu dros yr wythnosau hynny.

- **Ydych chi wedi darganfod rhywbeth newydd amdanoch chi eich hun, eich ffydd, yr Eglwys, wrth ichi fod wedi disgwyl ar Dduw'r Adfent?**
- **Beth wnewch chi ei gymryd o'r wythnosau hyn gyda chi i'r Flwyddyn Newydd sydd ar ddod?**
- **Sut wnewch chi barhau i ddisgwyl ar Dduw?**
- **A oes unrhyw help neu gefnogaeth sydd ei angen arnoch i'ch galluogi i ddisgwyl ar Dduw?**

Duw cariad, Duw gyda mi,
fe roddaist imi rodd o gariad a bywyd,
Helpa fi i'w fyw heddiw a phob dydd
gan i ti ddod aton ni'r diwrnod hwn ac mi
fyddi di'n dychwelyd eto

Amen.

Read through Luke 2:1-7

Waiting upon God for the birth of Jesus is over: Happy Christmas!

This is a passage that will be very familiar, telling the story of Mary and Joseph's journey to Bethlehem and the birth of Jesus.

And she gave birth to her firstborn son and wrapped him in bands of cloth, and laid him in a manger, because there was no place for them in the inn. (v. 7).

Today is a day of excitement. No wonder the angels sang out into the night sky to bring the news of the birth to the shepherds (Luke 2:8-20). The first visitors to the newly born baby are shepherds who, leaving their flocks, do as the angels tell them.

Shepherds are to be found throughout the Bible. In the first book of Samuel, David the youngest son of Jesse is called from the fields where he was keeping watch over the sheep, to be anointed by Samuel (1 Samuel 16:11-13). This is a family line that comes from Ruth, to Obed, to Jesse, to David and onwards to Jesus. Jesus, who will say much later, 'I am the good shepherd' (John 10:11).

Today is a day of giving and receiving. Later we come to the strange and expensive gifts brought by the Magi, very different from the lamb offered by the shepherds as we sing in the carol *In the Bleak Midwinter* by Christina Rossetti: 'If I were a shepherd I would bring a lamb.' And what can we give? 'Give our heart.'

We receive as well as give to others on this day, with paper being torn away from presents to reveal all that is within that paper covering. We receive too this day from God. A love that passes

all understanding, a love that came into the mess of this world, a love that is a light in the darkness. It is a love that calls out to us to share that love in church, around a dinner table, with family, with friends; not only this day, but a gift we are to share each and every day. This is a gift of love that cannot be taken or given back along with any unwanted present we may have received.

This is a gift of new life. Our waiting upon God continues.


Take time for a few moments of quietness in the busyness of this day to give thanks to God for all that you have been able to give and for all that you have received.

Over the next few days take some time to ponder over the Advent weeks, and the way you have waited upon God. Look, too, and reflect upon all that you gathered and made over those weeks.

- **Is there something new you have discovered about yourself, your faith, the Church, as you have waited upon God this Advent?**
- **What will you take from these weeks into the coming New Year?**
- **How will you continue to wait upon God?**
- **Is there any help or support you may need to enable this waiting upon God?**

God of love, God with me,
you have given me a gift of love and life.
Help me to live it today and every day,
for you have come this day and will come again.

Amen.



Sul Cyntaf y Nadolig
31 Rhagfyr

Nos Calan

The First Sunday of Christmas
31 December

New Year's Eve

Fedrwch chi gofio beth oeddech chi'n ei wneud yr adeg yma wythnos yn ôl? Mae'n bosib y bydd heddiw'r un mor brysur, gyda'r holl baratoadau i ddathlu diwedd y flwyddyn hon cyn croesawu'r flwyddyn newydd.

Can you remember what you were doing this time last week? Today may be as busy, in the preparations to celebrate the end of this year before welcoming in the new.

Darlleniadau Sul Cyntaf y Nadolig

Rhai meddyliau cychwynnol:

Eseia 61:10 – 62:3 Dywed Eseia, 'Mae'r Arglwydd yn fy ngwneud i mor llawen, ac mae fy Nuw yn fy ngwfreiddio i' (10), ac 'Fel mae planhigion yn tyfu o'r ddaear, a ffrwythau'n tyfu yn yr ardd' (11) felly 'bydd fy Meistr, yr Arglwydd, yn gwneud i gyfiawnder a moliant dyfu yng ngŵydd y cenhedloedd i gyd' (12).

Galatiaid 4:4-7 Darllenwn 'ar yr union adeg roedd Duw wedi'i ddewis, anfonodd ei Fab, wedi'i eni o wraig' (4) a thrwy'r Mab, 'dim caethweision ydych chi bellach, ond plant Duw; a chan eich bod yn blant iddo, byddwch chithau'n derbyn gan Dduw y cwbl mae wedi addo ei roi i chi' (7).

Luc 2:15-21 'Aeth y bugeiliaid yn ôl i'w gwaith gan ganmol a moli Duw am bopeth roedden nhw wedi'i weld a'i glywed. Roedd y cwbl yn union fel roedd yr angel wedi dweud' (20).

Mae'r darlleniadau a osodwyd ar gyfer heddiw yn parhau'r dathlu, gan ein bod, yn ôl Eseia a Luc, i fod i roi moliant i Dduw, gan ein bod bellach, trwy eni Iesu, yn blant i Dduw, etifeddion i Dduw.

- **Beth all hyn ei feddwl?**
- **Beth all hyn ei feddwl i ni'n unigol ac i'n heglwysi, ac Ardaloedd Gweinidogaeth, wrth inni ddod i ffarwelio â'r flwyddyn hon a chamu i mewn i flwyddyn newydd?**

The Readings for the First Sunday of Christmas

A few initial thoughts:

Isaiah 61:10 – 62:3 Isaiah writes, 'My whole being shall exult in my God' (10), and 'as a garden causes what is sown in it to shoot up' (11) so 'righteousness and praise' will spring up (12).

Galatians 4:4-7 We read that at the right time the Son was 'born of a woman' (4) and that through the Son we 'are no longer a slave but a child, and if a child then also an heir, through God' (7).

Luke 2:15-21 The shepherds leave their flocks to see the child the angels told them about, and they return 'glorifying and praising God' (20).

The readings set for today continue the celebration as in Isaiah and Luke we are to give praise to God, because through the birth of Jesus we are now children of God, heirs of God.

- **What might this mean?**
- **What might this mean to us individually and to our churches, and Ministry Areas, as we come to say farewell to this year and enter a new year?**

O'r darlleniadau, fe geir y teimlad bod rhywbeth newydd a rhyfeddol yn dechrau digwydd. Efallai nad rwan ydy'r amser gorau i fynd allan i'r ardd, ond wrth i'r misoedd nesaf ein harwain ni at y gwanwyn, fe fydd egin bach gwyrdd newydd yn dechrau ymwithio trwy'r pridd a brigau'r llwyni. Wedi prysurdeb y pedair wythnos ddiwethaf, efallai mai rwan ydy'r amser i ystyried yr egin a allai dyfu o'n mewn.

Yn y Flwyddyn Newydd hon, mae'r Esgobaeth am ddechrau edrych yn ddyfnach ar yr hyn yr hyn sy'n cael ei olygu wrth fod yn ddisgybl a sut rydyn ni'n cynnig ein disgyblaeth. Dydy bod yn ddisgybl ddim wedi'i gyfyngu i'r ychydig dethol, ond yn hytrach i bob un ohonon ni, gan ein bod, fel y sgwennai Paul at y Galatiaid, yn blant ac etifeddion i Dduw. Ni ydy etifeddion Newyddion Da Iesu Grist. Ni ydy'r etifeddion trwy ein bod yn dewis llwybr ffydd, ac i ddisgwyl ar Dduw yn weddigar ac yn weithredol pryd bynnag, ple bynnag, a sut bynnag y gallwn ni.

• **Beth mae bod yn ddisgybl yn ei olygu i chi?**

Bydd 'bod yn ddisgybl' yn golygu rhywbeth gwahanol i bob un ohonon ni; fe all fod trwy weinidogaeth drwyddedig, ordeiniedig neu wedi'i gomisiynau, neu helpu mewn eglwys, gweddio dros eraill - mae angen pob un o'r rheini ac mae pob un yn bwysig.

- **Edrychwch ar y bobl rydych yn eu nabod yn yr eglwys. Lle mae egin gwyrdd bod yn ddisgybl i'w gweld yn tyfu?**
- **Beth ydy'r egin gwyrdd bod yn ddisgybl sy'n tyfu oddi fewn i chi?**

From the readings there is a sense of something new and wonderful beginning to take place. Now may not be the time to go out into the garden, but as the next few months unfold, new green shoots will begin to appear in the earth. After the busyness of the last four weeks or so, now may be the time to begin to consider the shoots which may grow from within us.

In this New Year, the Diocese is beginning to look more deeply at what it means to be a disciple and how we offer our discipleship. Discipleship is not just for a few, but for each one of us, because we are, as Paul writes to the Galatians, children and heirs of God. We are heirs to the Good News of Jesus Christ. We are heirs through our deciding to follow a path of faith, and to wait upon God prayerfully and actively whenever and wherever, and however we can.

• **What does discipleship mean to you?**

Discipleship will mean something different to each one of us; it may be in a commissioned, licensed or ordained ministry, or helping out in church, praying for others – all are needed and all are important.

- **Look at the people you know in church. Where are the green shoots of discipleship growing?**
- **What are the green shoots of discipleship growing within you?**

Yn y Salm a ddewiswyd heddiw, sef Salm 148, darllenwn:

*...bechgyn a merched, hen ac ifanc
gyda'i gilydd! Boed iddyn nhw foli
enw'r Arglwydd! Mae ei enw e yn
uwch na'r cwbl; Mae ei ysblander yn
gorchuddio'r nefoedd a'r ddaear!
Mae wedi rhoi buddugoliaeth i'w bobl,
ac enw da i bawb sydd wedi profi ei
gariad ffyddlon, sef Israel, y bobl sy'n
agos ato. Haleliwia!*

Yma eto fe welwn ni'r thema o orfoledd a mawl. Fe welwn hefyd le lle y gelwir hen ac ifanc fel ei gilydd i foli Duw, yn yr eglwys ac oddi allan i'r eglwys, yn dawel yn y cefndir neu allan yn agored gyhoeddus.

Meddylwch yn ôl dros y 12 mis diwethaf. Lle a phryd wnaethoch chi deimlo'n arbennig gyffyrddiad, presenoldeb a galwad Duw? Beth fu'n uchafbwyntiau ac iselbwyntiau 2017? Yn sicr, fe fydd adegau lle fase'n well ganddoch chi beidio â'u dwyn i gof neu'r rhy boenus i fyfyrion arnyn nhw rwan. Fe fydd hefyd amserau wedi bod a oedd yn llawn llawenydd a hapusrwydd. Allan o'r holl atgofion hyn, beth allwch chi ddod at Dduw i'w dyrchafu mewn moliant?

Wrth i'r flwyddyn ddirwyn i ben, pa addewidion Blwyddyn Newydd fyddwch chi'n eu gwneud? Ydyn nhw'n rhai y bydd modd ichi eu cadw ai peidio?

- **Pa addewidion Blwyddyn Newydd medrwch chi eu gwneud sy'n ymwneud â'ch ffydd a bod yn etifeddion i Dduw?**
- **Ydy'r rhain yn addewidion y gallwch chi eu cadw?**

Mae adnod olaf y darlleniad o Efengyl Luc yn ein cyfeirio ni at wythfed dydd bywyd Iesu, lle base Iesu, yn ôl traddodiad, yn cael ei enwaedu a'i enwi. Darllenwn mai'r enw a roddwyd arno oedd yr enw a roddwyd iddo gan yr angel 'hyd yn oed cyn iddo gael ei genhedlu yng nghroth Mair' (Luc 2:21): Iesu.

In the Psalm set for today, Psalm 148, we read:

*Young men and women alike,
old and young together!
Let them praise the name of the Lord,
whose name is exalted and whose
glory is above heaven and earth.
Praise to the faithful.
Praise to God.
(rewritten)*

Again we have the theme of exultation and praise. We see, too, a place where young and old alike are called to praise God, in church and out of church, quietly in the background or out in the open.

Think back over the last 12 months. When and where have you particularly felt the touch, the presence and call of God? What have been the highs and lows of 2017? There will no doubt have been times you may not want to remember or it is too painful to do so at this time. There will also be times filled with joy and laughter. Out of all you remember, what can you bring to God with praise and exultation?

As the year draws to a close, what New Year resolutions will you be making? Are they ones you can keep or not?

- **What New Year resolutions can you make that relate to your faith and being an heir of God?**
- **Are these resolutions you can keep?**

The last verse of the Gospel takes us to the eighth day of Jesus' life, when according to custom Jesus would be circumcised and named. We read that the name given was the one he was named by the angels 'before he was conceived in the womb' (Luke 2:21): Jesus.

Wrth i'r flwyddyn bresennol dynnu at ei therfyn a ninnau'n agosáu at ddechrau blwyddyn newydd, awn yn ôl at ddyddiau cyntaf Iesu ar ein daear. Awn yn ôl at Gyfarchiad yr Angel yn yr adnod hon, gan ddilyn gyda thraddodiad Iddewig yr enwaediad.

Mae enwau yn bwysig. Fe fydd gan yr enwau a ddewiswyd gan ein rhieni ar ein cyfer rhyw ystyr neu bwrpas neu darddiad arwyddocaol - p'un ai ein bod yn hoffi'r enwau ai peidio! Mae rhoi eich enw yn ddechrau perthynas. Rydyn ni'n rhoi rhywbeth personol neu breifat o'n heiddo ni wrth inni rannu'n henw. Efallai bod y rhannu hwn yn digwydd gyda rhywun na wnawn ni fyth eu cyfarfod eto, ond mae cysylltiad, waeth pa mor fyr, wedi'i wneud.

Meddyliwch am yr holl bobl rydych wedi rhannu'ch enw â nhw dros y Nadolig hwn, ac wedyn y Flwyddyn Newydd. Faint o'r bobl hynny ydych chi'n eu nabod nhw'n dda iawn, a faint ddim o gwbl?

Yn Eiseia 49:16 fe gawn y geiriau, 'Dw i wedi cerfio dy enw ar gledrau fy nwylo!' Mae dy enw di, ein henwau ni, y 'pwy' ydyn ni, a'r 'pwy' gallwn fod, wedi'i sgwennu ar gledrau dwylo Duw! Mae Duw'n ein nabod ni a'n galw ni wrth ein henwau, yr enw a ddewiswyd gan ein rhieni a'i gadarnhau ar achlysur ein bedydd. Mae ein bedydd yn ddechrau newydd, fel y mae'r Flwyddyn Newydd hon. Mae'r hyn a wnawn ni o'n bedydd ac o'r Flwyddyn Newydd sydd o'n blaenau yn llwyr ddibynnol ar ein penderfyniad ni a neb arall.

- **Beth ydy eich gobeithion a'ch breuddwydion chi ar gyfer 2018?**
- **Beth ydych chi'n ei gofio – neu a ddywedwyd wrthy'ch chi – am eich bedydd? Beth mae hynny'n ei olygu i chi heddiw ac wrth ichi gychwyn eich taith trwy'r Flwyddyn Newydd nesaf yma?**

As this year draws to its end and we come to the beginning of a new year we go back to the beginning of Jesus' life. We go back to the Annunciation in this verse and then on to the following of Jewish custom in the circumcision.

Names are important. The names chosen for us will have or had some meaning and purpose in the way they were chosen for us by our parents – whether we like them or not! To give our name is to begin a relationship. We give something personal and private of ourselves as we share our name. This sharing of our name may be with someone we will not meet again, but a connection, however brief, has been made.

Think of all the people you have shared your name with over this Christmas, and now this New Year. How many of those people do you really know well or not?

In Isaiah 49:16 we find the words, 'See, I have inscribed you on the palms of my hands.' Our name, the 'who' we are and the 'who' we can still become, is written onto the palms of God. We are known and called by God who calls us by our own name, chosen by our parents and re-given to us at our baptism. Our baptism is a new beginning, as is this New Year. What we make of our baptism and of this New Year is up to each one of us to decide.

- **What are your hopes and dreams for 2018?**
- **What do you remember – or have been told – about your baptism? What does that mean to you today and as you begin the journey through this New Year?**

Gweddï wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn a aeth heibio – ‘diolch’

Duw'r holl amseroedd a'r oesoedd,
 Wrth edrych yn ôl, a gyda phopeth
 a ddigwyddodd, dwi'n dweud 'diolch'.
 Diolch i bawb a fu'n help ac yn gefn imi.
 Diolch i'r rhai hynny fu'n chwerrhin
 a chrïo hefo fi.
 Diolch am ddieithriaid annisgwyl
 roddodd gymorth imi.
 Diolch am fy nheulu a'm ffrindiau.
 Diolch i Ti, o Dduw, am fod gyda mi
 bob amser.
 Bydd gyda mi wrth imi gamu i mewn
 i'r Flwyddyn Newydd hon.
 Boed imi fod yn agored i'r heriau sydd
 o'm blaen,
 i egin y tyfiant newydd sy'n aros eu cyfle
 i ddangos eu hunain trwydda i.
 Boed imi geisio fy nhaith o ddisgyblaeth,
 gan ddilyn dy Lwybr,
 a chlywed galwad dy Fab, Iesu Grist.

Amen.

Prayer for looking back on the past year – ‘thank you’

God of all times and ages,
 I look back, and with all that has
 taken place I say 'thank you'.
 Thank you to all who have helped
 me and supported me.
 Thank you to those who have laughed
 and cried with me.
 Thank you for unexpected strangers
 who came to my aid.
 Thank you for my family and friends.
 Thank you, O God, for being with me
 always.
 Be with me as I step into this New Year.
 May I be open to the challenges that lie
 ahead,
 to the shoots of new growth waiting
 to burst forth from me.
 May I seek my path of discipleship,
 following your Way,
 and listen for the call of your Son,
 Jesus Christ.

Amen.

Gweddï am y Flwyddyn Newydd – bedydd ac enwi


Duw yr oll sy'n bosibl ac amhosibl,
 wedi fy ngolchi â dŵr y bedydd,
 fy nghyffwrdd â dy Lân Ysbryd,
 a'm galw wrth f'enw fy hun,
 agor fy nghlustiau i dy glywed yn
 fy ngalw,
 a'm calon i ymddiried ynot ti
 wrth imi gamu'n weddigar ac mewn ffydd
 i'r Flwyddyn Newydd hon.

Amen.

Prayer for the New Year – baptism and naming

God of all that is possible and
 impossible,
 washed with the water of baptism,
 touched by your Spirit,
 and called by my own name,
 open my ears to hear you call me,
 and my heart to trust in you
 as I step prayerfully and with faith
 into this New Year

Amen.



Dydd Sadwrn 6 Ionawr
neu dydd Sul 7 Ionawr

Gŵyl yr Ystwyll

Saturday 6 January
or Sunday 7 January

The Feast of the Epiphany

Dyma ddeuddegfed dydd y Nadolig, ac fe ddaeth hi'n amser rhoi heibio holl gardiau ac addurniadau'r Nadolig, er y gall y preseb aros tan Chwefror 2, pan fydd yr Eglwys yn dathlu Cyflwyno Iesu yn y Deml. Hwn fydd yn nodi diwedd tymor y Nadolig a'r Ystwyll.

Yn ein dramâu Nadolig a ger po preseb, mae'r Gwŷr Doeth neu'r Brenhinoedd yn aml yn hawlio'u lle ymysg y gwellt, yr anifeiliaid a'r cymeriadau eraill yn y stabl. Yn eich preseb chi, neu'r un yn eich eglwys, ydy'r Doethion hyn eisoes yn eu lle, neu a ydyn nhw'n barod i gael eu gosod ger y preseb heddiw?

It is the twelfth day of Christmas, and the time has come to take down all the Christmas cards and decorations, although the crib can stay until 2 February when the Church celebrates the Presentation of Jesus at the Temple. This then marks the end of the Christmas and Epiphany season.

In our Nativity plays and in our cribs, the Magi, Kings, Wise Men often find their place amidst the straw and manger, animals and other figures. In your crib, or the one in church, are the Magi already in place, or are they ready to be put into the crib today?

Darlleniadau Gŵyl yr Ystwyll

Rhai meddyliau cychwynnol:

Eseia 60:1-6 “Cod! Disgleiria! Mae dy olau wedi dod’ (1) a ‘Bydd cenedloedd yn dod at dy oleuni, a brenhinoedd yn troi at dy wawr ddisglair’ (3). Bydd y rhai fydd yn dod yn ‘cario aur a thus, ac yn canu mawl i’r Arglwydd’(6).

Effesiaid 3:1-12 Dywed Paul fod ‘y dirgelwch am y Meseia’ (4) wedi'i ddatgelu i bawb a ‘bod pobl o genhedloedd eraill yn cael rhannu'r cwbl mae Duw wedi'i baratoi i'r Iddewon. Mae'r Meseia Iesu wedi'u gwneud nhw'n un corff gyda'r Iddewon, a byddan nhw'n cael rhannu'r bendithion gafodd eu haddo hefyd’ (6).

Mathew 2:1-12 Wedi gofyn i Herod, ‘Ble mae'r Meseia i fod i gael ei eni?’, mae'r gwŷr doeth yn parhau i ddilyn y seren hyd nes iddi stopio. ‘Roedden nhw wrth eu bodd!’ (10) a ‘dyma nhw'n disgyn ar eu gliniau o'i flaen a'i addoli’ a chynnig eu rhoddion o ‘aur a thus a myrr’ (11).

The Readings for the Feast of the Epiphany

A few initial thoughts:

Isaiah 60:1-6 ‘Arise, shine; for your light has come’ (1) and ‘Nations shall come to your light, and kings to the brightness of your dawn’ (3). Those who come will ‘bring gold and frankincense, and shall proclaim the praise of the Lord’ (6).

Ephesians 3:1-12 Paul writes that the ‘mystery of Christ’ (4) has been revealed to all and ‘the Gentiles have become fellow-heirs, members of the same body, and sharers in the promise in Christ Jesus through the gospel’ (6).

Matthew 2:1-12 After asking Herod, ‘Where is the child who has been born king of the Jews?’, the wise men continued following the star until it stopped. ‘They were overwhelmed with joy’ (10) and ‘they knelt down and paid him homage’ and offered their gifts ‘of gold, frankincense, and myrrh’ (11).

Darllenwch drwy Mathew 2:1-12 os ydych yn darllen hwn adref

Mae hon yn stori gyfarwydd iawn, ond yn stori gyda chanlyniad.

• Beth sy'n dod i'ch meddwl wrth darllen yr adnodau hyn?

Fel gyda phob cyfarfyddiad, byddwn bob tro'n cymryd rhywbeth o'r cyfarfyddiad hwnnw. Mae'r Gwŷr Doeth yna'n gwneud camgymeriad mawr, sef ymweld â Herod, gan gredu y base brenin yn cael ei eni mewn palas. Golygodd y dargyfeiriad hwn i Herod, gan ofni ei le a'i awdurdod, orchymyn lladd pob plentyn o dan ddwy oed (2:16-18). Chawn ni fawr o fanylion gan Mathew, felly, fe gawn ein gadael i feddwl droston ni'n hunain tybed a gafodd y Gwŷr Doeth wybod am hyn, ac os felly, sut oedd hynny wedi gwneud iddyn nhw deimlo.

Dim ond gan Mathew y cawn ni adroddiad am yr ymweliad anghyffredin hwn â'r Teulu Sanctaidd. Mae'n bosib y gallwch ddychmygu Mair a Joseff yn ceisio dyfalu beth oedd yn mynd yn ei flaen pan gyrhaeddodd bugeiliaid, ond roedd y tri yma – ac fe all bod mwy ohonyn nhw – yn ffenomenon cwbl wahanol; ac roedd hynny hyd yn oed cyn iddyn nhw ddatgelu eu hanrhegion!

Mae hi'n mynd o un eithaf i'r llall. Mae'r bugeiliaid yn ddi-nod ac annysgedig, tra'r bo'r Gwŷr Doeth fwy na thebyg wedi cael addysg dda ac wedi'u gwisgo'n drwsiadus, ond yn dod o diroedd tramor. Mae gair Duw eisoes yn dechrau ymestyn ymhell y tu hwnt i ffiniau a phobl Israel.

Mae'r darlleniadau o Eseia ac Effesiaid yn sôn am yr amser hwn pan ddaw paw bi wybod am Dduw a chlywed Newyddion Da Iesu. Dyfodiad y Gwŷr Doeth ydy dechrau hyn i gyd. Mae'r Salm a osodwyd ar gyfer yr Ystwyll, 72:10-15, hefyd yn sôn am frenhinoedd a

Read through Matthew 2:1-12 if reading this at home

This is a well-known story, but a story with a consequence.

• What are your first thoughts on reading these verses?

As with all encounters, we take something away from that encounter. The Magi then make a big mistake and go to see Herod, believing that a king would be born in a palace. This detour meant that Herod, in fear for his position, ordered the massacre of all children under two years old (2:16-18). Matthew gives us very few details, and so we are left to wonder if the Magi knew this and, if they did, how they must have felt.

It's only in Matthew that we read of this very strange visit to the Holy Family. Mary and Joseph may have wondered what was happening when the shepherds arrived, but these three – and there could have been more – were in a different league altogether; and that's before they see the gifts they bring!

It is one extreme to the other. The shepherds are more or less outcasts and uneducated, while the Magi are probably well dressed and educated, but came from a foreign land. Already God's word is beginning to stretch far beyond the people of Israel.

The readings from Isaiah and Ephesians speak of this time when all will come to know God and hear the Good News of Jesus. The coming of the Magi is the beginning of this. The Psalm set for Epiphany, 72:10-15, also speaks of kings who will give tribute to God:

ddaw i dalu gwrogaeth i Dduw:

*Bydd brenhinoedd Tarshish a'r
ynysoedd
yn talu trethi iddo;
brenhinoedd Sheba a Seba yn dod â
rhoddion iddo.
Boed iddo dderbyn aur o Sheba.
(addasiad)*

Doedd y Gwŷr Doeth, neu'r brenhinoedd, ddim o linach pobl Dduw, ac eto mae'n rhaid bod rhyw dynfa uwch-naturiol ar waith o'u mewn i'w tynnu nhw i adael eu siartiau a'u rhagfynegiadau er mwyn dilyn y seren newydd a nodwyd ganddyn nhw - a hynny am bellter go faith. Y seren hon, fe greden nhw, oedd yn rhagflaenu genedigaeth brenin newydd. Fel y darllenwn, gadawson nhw'u cartrefi a theithio i Fethlehem heb wybod beth oedd i'w disgwyl ar ben y daith.

- **Fuoch chi erioed ar daith i rywle newydd, ar eich pen eich hun, mewn cwmni, neu gyda theulu neu ffrindiau?**
- **Sut deimlad oedd hynny?**
- **Sut hwyliau oedd ar bawb?**

Wedi'r dargyfeiriad trychinebus, parhaodd y Gwŷr Doeth ar eu taith, gan ddod o hyd i'r man iawn a'r brenin iawn yn y diwedd - yr un y buon nhw'n teithio mor bell i'w weld. Dywed Mathew wrthyn ni iddyn nhw 'ddisgyn ar eu gliniau o'i flaen a'i addoli'. Mewn rhai cyfieithiadau, mae'n defnyddio'r gair 'gwrogaeth' yn lle addoli. Mae 'gwrogaeth' yn air sydd prin yn cael ei ddefnyddio heddiw, ond mae'n golygu rhoi parch ac anrhydedd i un arall, ac yn ôl cyfreithiau ffiwdal, roedd yn golygu cydnabod teyrngarwch i'r arglwydd lleol.

- **Beth fase'r foment hon yn ei olygu i'r Gwŷr Doeth?**
- **Tybed beth fase'n mynd trwy feddyliau Mair a Joseff ar y foment honno?**

*The kings of Tarshish and of the isles
will render him tribute,
the kings of Sheba and Seba
bring gifts.
From Sheba will come gold.
(rewritten)*

The Magi, or kings, were not descended from the people of God, and yet there must have been a desire buried within them that called them from their charts and predictions, to follow the new star they had seen was to arise. A star they believed announced the birth of a new king. As we read, they left their homes and travelled to Bethlehem without knowing how their journey would end.

- **Have you travelled somewhere new, on your own, in company, or with family or friends?**
- **How did that feel?**
- **How did you all get on?**

After their disastrous detour, the Magi continue on their way and eventually find the right place and the right king whom they have travelled so far to see. Matthew tells us that they knelt down before Jesus, and 'paid him homage'. Homage is a word probably rarely, if ever, used today, but means giving honour and respect to another, and under feudal law it meant acknowledging allegiance to the lord (of the manor).

- **What might this moment have meant to the Magi?**
- **What might Mary and Joseph have been thinking at that moment?**

Ar Ddydd Nadolig, mae'n bosib eich bod wedi agor anrheg a meddwl tybed pam y base rhywun yn ystyried y byddech chi'n ei hoffi, neu wedi bod yn ddiolchgar am anrheg ddefnyddiol, neu'n llawenhau o dderbyn anrheg y buoch chi'n ei llygadu ac yn gobeithio ei chael. Efallai bod rhai anrhegion eisoes wedi'u dychwelyd i siopau, eraill nad oedd mo'u hangen wedi'u rhoi i gadw, tra bo eraill yn cael eu trysori. Mae'n beth anodd prynu'r anrheg berffaith.

Efallai i'r Gwŷr Doeth gael yr un benbleth: 'Pa rodd ddylen ni ei gymryd at frenin newydd-anedig?' Mae'n siwr nad oedd Mair a Joseff wedi holi'n syn beth oedd ystyr yr anrhegion rhyfedd hyn i Iesu hyd nes ar ôl i'w hymwelwyr annisgwyl ymadael!

Wedi talu gwrogaeth, dyma'r Gwŷr Doeth yn offrymu eu rhoddion o aur, thus a myrr. Doedden nhw, ar yr olwg gyntaf, ddim yn ymddangos yn anrhegion y basech chi'n disgwyl i fabi bach, hyd nes inni edrych ar eu harwyddocâd symbolaidd.

Rhoddir aur fel symbol o gyfoeth, doethineb a brenhiniaeth. Mae rhoi thus yn dynodi addoliad, aberth ac offeiriadaeth; a myrr yn arwydd o iachâd a phêr-eneiniad. Mae pob un o'r rhai yn adlewyrchu un wedd o Iesu, ei fywyd a phwy ydy o. Mae pob un hefyd yn adlewyrchu ein taith unigol ninnau o fod yn ddisgybl i Dduw.

Dydy Mathew ddim yn dweud wrthyn ni sut wnaeth y cyfarfyddiad â'r baban Iesu effeithio ar y Gwŷr Doeth; yr oll a wydden ni ydy na wnaethon nhw ddychwelyd at Herod! Gadawyd i feirdd megis T.S. Eliot i fyfyrion ac ystyried, fel y cyfansoddodd yn ei gerdd, *The Journey of the Magi*. Mae'n gosod cwestiynau yng nghegau'r Gwŷr Doeth yn gofyn ai ar gyfer genedigaeth yntau marwolaeth a fu. Fe wydden nhw bod genedigaeth, dechrau newydd, ac felly daw marw'r

On Christmas Day you may have opened a present and wondered why someone thought you would like it, or been grateful for a practical gift, or joyful at an unexpected gift that is something you always wanted and had hoped for. Some presents may have already been taken back to the shops, others stored away to give away, while others will be treasured. It can be difficult to buy the right gift.

The Magi may have had that same problem: 'What present do we take for a newly born king?' Mary and Joseph probably kept their thoughts on the strange gifts offered to Jesus to themselves until their unexpected visitors had left!

After paying homage, the Magi offer their gifts of gold, frankincense and myrrh. They may not appear to be the usual gifts to bring to a small child, until we look at what these gifts symbolise.

Gold is given to symbolise wealth, wisdom and kingship. The gift of frankincense is symbolic of worship, sacrifice and priesthood; and myrrh is to symbolise healing and embalming. Each of these reflects an aspect of Jesus; his life and who he is. Each of these gifts also reflects our own journey with God and our own personal discipleship.

Matthew does not tell us how the encounter with the infant Jesus affected the Magi; all we know is that they did not go back to Herod! It is left to poets such as T.S. Eliot to ponder and wonder, as he writes in his poem, *The Journey of the Magi*. He puts questions into the mouths of the Magi asking whether they had come for a birth or a death. They knew there was a birth, a new beginning, and so the 'death' of the old comes as Jesus reveals God in human form, born on earth.

hen drefn wrth i Iesu ddatgelu Duw ar ffurf ddynol, wedi'i eni ar y ddaear.

Mae aur yn ein hatgoffa o'r doethineb y mae angen inni ei geisio'n gyson os ydyn ni i ddisgwyl ar Dduw mewn gweddi a gwasanaeth. Mae inni gyfoeth oherwydd ein ffydd yn Iesu Grist, trwy'r Hwn y datgelwyd cariad ac achubiaeth.

Mae thus yn ein dwyn yn ddyfnach i mewn i ddirgelwch a defodau ein haddoliad, p'un ai y defnyddir aroglarth ai peidio, p'un ai bod ein gweddïau'n cael eu hoffrymu ar ein pen ein hunain neu gydag eraill. Mae'n ein hatgoffa bod ffydd yn gostus ac fel offeiriadaeth gyfunol yr holl gredinwyr, fe fydd amserau lle bydd gofyn inni aberthu, i roi rhywbeth o'r neilltu, i ddilyn ffordd Iesu.

Eli gwerthfawr iawn ydy myrr a ddefnyddir i wella, ac i bêr-eneinio'r meirw, ac am hynny fe feirniadwyd Mair am dywallt y persawr drud hwn i eneinio traed Iesu (Ioan 12:1-8). Mae angen iachau ac iachâd mewn llawer o ffyrdd yn ein bywydau, a'n byd, ac felly fe all myrr ein hatgoffa o'n breuder a'n meidroldeb.

- **Pa ddawn/doniau y gellwch chi eu cynnig i Iesu mewn cariad a disgyblaeth?**

Mae pob cyfarfyddiad yn cyffwrdd ar ein bywydau, ond mae cyfarfod ag Iesu, ym mha bynnag ffordd rydyn ni'n deall ydy hynny, yn newid bywydau; allwn ni byth â bod yr un fath eto.

- **Sut mae eich cyfarfyddiad chi â'r llyfryn Adfent hwn wedi eich herio neu eich newid chi?**
- **Ydych chi wedi dod i gyfarfod â Duw mewn rhyw fodd newydd, ac os felly, sut?**
- **Sut wnewch chi barhau i ddisgwyl ar Dduw?**

Gold reminds us of the wisdom we need to continually seek if we are to wait upon God in prayer and service. We have wealth, or riches, because we have a faith in Jesus Christ who revealed both love and salvation.


Frankincense draws us deeper into the mystery and ritual of our worship, whether incense is used or not, whether our prayers are offered alone or with others. It reminds us too that faith is costly, and as the gathered priesthood of all believers there will be times when we are asked to sacrifice, give up something, to follow the way of Jesus.

Myrrh is the ointment used for healing, and for embalming the dead, which Mary was criticised for as she used expensive perfume to anoint Jesus' feet (John 12:1-8). There are many ways in which we need healing in our lives, and world, and so myrrh can remind us of our fragility and mortality.

- **What is, or are, the gift(s) you can offer to Jesus in love and discipleship?**

All encounters touch into our lives, but meeting Jesus, in whatever way we may understand that, changes lives; we cannot be the same again.

- **How has your encounter with this Advent booklet challenged or changed you?**
- **Have you encountered God in some new way, and if so, how?**
- **How will you continue to wait upon God?**



Tŷ Deiniol, Clos y Gadeirlan,
Bangor LL57 1RL
01248 354 999
bangor@eglwysyngnghymru.org.uk
bangor.eglwysyngnghymru.org.uk

Tŷ Deiniol, Cathedral Close,
Bangor LL57 1RL
01248 354 999
bangor@churchinwales.org.uk
bangor.churchinwales.org.uk



**Esgobaeth
Bangor**
The Diocese
of Bangor

Yr Eglwys yng Nghymru
The Church in Wales